CDLl Abertawe
Swansea LDP
2023-2038

Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council



# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL ABERTAWE 2023-2038 (CDLl2)

# CYNLLUN CYN ADNEUO (STRATEGAETH A FFEFRIR)

## Adroddiad Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd (AIG) Crynodeb Annhechnegol

**Rhagfyr 2024**

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

## Cynnwys


**1.0 CYFLWYNIAD** ... 4

**1.1 GOFYNION DEDDFWRIAETHOL A CHYSYLLTIADAU Â STRATEGAETHAU AC ASESIADAU ERAILL** 4

**1.2 SUT MAE'R CYNGOR WEDI CYDYMFFURFIO Â'R RHEOLIADAU** ... 6

**2.0 METHODOLEG** ... 7

**2.1 AMCANION A DANGOSYDDION YR AIG (Y FFRAMWAITH CYNALIADWYEDD)** ... 7

**2.2 PENNU ARWYDDOCÂD EFFEITHIAU** ... 7

**2.3 MATRICSAU ASESU** ... 8

**2.4 GRADDFEYDD AMSER** ... 10

**2.5 MESURAU LLINIARU** ... 10

**3.0 LLINELL SYLFAEN AMGYLCHEDDOL Y SIR AC EFFEITHIAU RHAGFYNEDIG GYDA'R CYNLLUN A HEBDDO** ... 11

**3.1 BIOAMRYWIAETH, PRIDD A GEOAMRYWIAETH** ... 11

**3.2 Y BOBLOGAETH (GAN GYNNWYS Cydraddoldeb, Tai ac Addysg)** (Crynodeb a diweddariad ers mis Ebrill 2024) ... 17

**3.3 YR ECONOMI** (Crynodeb a Diweddariad ers mis Ebrill 2024) ... 23

**3.4 IECHYD (YN CYNNWYS AER)** (Crynodeb a Diweddariad ers mis Ebrill 2024) ... 26

**3.5 DŴR** (Crynodeb a diweddariadau ers mis Ebrill 2024) ... 30

**3.6 FFACTORAU HINSODDOL** ... 31

**3.7 ASEDAU MATEROL** (Crynodeb a diweddariadau ers mis Ebrill 2024) ... 34

**3.8 TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL** (Crynodeb a diweddariadau ers mis Ebrill 2024) ... 38

**3.9 Y DIRWEDD A'R MORWEDD** (Crynodeb a diweddariadau ers mis Ebrill 2024) ... 39

**3.10 Y GYMRAEG** (Crynodeb a diweddariadau ers mis Ebrill 2024) ... 40

**4.0 FERSIWN MAI 2024 O WELEDIGAETH AC AMCANION CDLl2** ... 43

**GWELEDIGAETH** ... 43

**AMCANION** ... 43

**5.0 OPSIYNAU TWF AMGEN CDLl2 A STRATEGAETHAU GOFODOL** ... 44

**5.1 SENARIOS TWF AMGEN** ... 44

**5.2 DULLIAU GOFODOL AMGEN** ... 47

**5.3 CRYNODEB O'R ASESIAD** ... 49

**6.0 STRATEGAETH CREU LLEOEDD ABERTAWE 2038** ... 51

**6.1 GWELEDIGAETH STRATEGAETH A FFAFRIR** ... 51

**6.2 AMCANION** ... 52

**6.3 STRATEGAETH A FFAFRIR CDLl2** ... 55

**7.0 POLISÏAU STRATEGOL** ... 58

**8.0 ANAWSTERAU A WYNEBIR A LLINIARU** ... 64

**9.0 COFRESTR SAFLEOEDD YMGEISIOL** ... 65

**10.0 ASESIADAU PERTHNASOL ERAILL** ... 67

**10.1 ASESIAD O EFFAITH AR GYDRADDOLDEB** ... 67

**10.2 ASESIAD O EFFAITH AR Y GYMRAEG** ... 69

10.3 ASESIAD O'R EFFAITH AR IECHYD A'R AIG ..... 70
11.0 CAMAU NESAF ..... 72

**Rhestr Tablau**

Tabl 1: Siart Sgorio
Tabl 2: Amcanion AIG
Tabl 3: Diffiniad o Effeithiau Eilaidd, Cronnol a Synergaidd. Addaswyd o A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) (2005).
Tabl 4: Safleoedd a ddynodwyd yn ecolegol yn Abertawe
Tabl 5: Sgoriau'r AIG ar gyfer y Weledigaeth ar gyfer Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion
Tabl 6: Crynodeb o'r asesiad o amcanion CDLl2 drafft ar gyfer Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion ac amcanion yr AIG
Tabl 7: Senarios Twf Amgen
Tabl 8: Arfarniad o Senarios Twf Amgen 1-4 yn erbyn Amcanion yr AIG.
Tabl 9: Cymharu Dull Gofodol Amgen
Tabl 10: Sgoriau'r AIG ar gyfer y Weledigaeth ar gyfer Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion a Gweledigaeth y Strategaeth a Ffefrir
Tabl 11: Amcanion Strategaeth a Ffefrir CDLl2 yn erbyn amcanion yr AIG
Tabl 12: Cydnawsedd Amcanion CDLl2
Tabl 13: Cymharu'r Dulliau Gofodol Amgen gan gynnwys Dull Hybrid
Tabl 14: Asesu Drafft Gwreiddiol o Bolisïau Strategol
Tabl 15: Asesiadau Polisi Strategol Terfynol
Tabl 16: Sylwadau ar Bolisïau Strategol, gan gynnwys Diwygiadau i'r Polisi o Ganlyniad i'r AIG
Tabl 17: Safleoedd Ymgeisiol Cam 1 yn methu
Tabl 18: Asesiad o Effaith Integredig

**Rhestr Ffigurau**

Ffigur 1: Prif Gamau'r Broses CDLl ac Integreiddio â Gofynion AG
Ffigur 2: Ardaloedd Targed Seilwaith Gwyrdd
Ffigur 3: Parthau Seilwaith Gwyrdd a Rhyng-gysylltedd
Ffigur 4: Map o Barthau Polisi Tai Strategol (SHPZ) yn y Sir
Ffigur 5: Y Diagram Allwedd

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.0.1 Dyma'r Crynodeb Annhechnegol o'r Adroddiad Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd (AIG) o Gynllun Cyn Adneuo (a adwaenir o hyn allan fel y 'Strategaeth a Ffefrir') Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2023-2038 (a adwaenir fel CDLl2). Mae CDLl2 yn ymdrin â'r Sir gyfan a bydd yn cynnwys polisïau a ddefnyddir i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Pan fydd wedi'i fabwysiadu, bydd yn disodli 'CDLl Abertawe 2010-2025'. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn gosod y cyfeiriad strategol, y weledigaeth drosfwaol, yr amcanion a'r polisïau strategol a ddefnyddir i ddatblygu'r cynllun manwl ('y Cynllun Adnau').

1.0.2 Diben yr AIG yw amlygu effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol arwyddocaol tebygol CDLl2 ac awgrymu mesurau lliniaru perthnasol. Mae'r Adroddiad AIG yn dilyn canllawiau a gynhwysir yn y Llawlyfr CDLl[1]. Mae Ffigur 1 yn amlinellu prif dasgau'r AIG a phob cam o CDLl2. Mae sylwadau ac adborth ar bob cam yn caniatáu ar gyfer ystyried goblygiadau cynaliadwyedd posibl y Cynllun a gwneud newidiadau, os oes angen. Mae canlyniad yr arfarniad ailadroddol parhaus wedi llywio'r Strategaeth a Ffefrir. Mae'r Cyngor, sef yr 'Awdurdod Cyfrifol', wedi cynnal y broses Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG) yn fewnol.

1.0.3 Mae'r crynodeb annhechnegol yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r AIG o'r Strategaeth a Ffefrir. Mae'r Adroddiad AIG llawn[2] a'r atodiadau yn cyflwyno canfyddiadau'r arfarniad yn llawn. Mae'r Adroddiad yn cyd-fynd â'r Strategaeth a Ffefrir, Rhagfyr 2024[3], a dylid ei ddarllen ar y cyd â hi. Mae'r ddwy ddogfen wedi'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, pryd y gellir gwneud sylwadau ynglŷn â chynnwys yr Adroddiad AIG a/neu'r Strategaeth a Ffefrir. Bydd yr holl sylwadau a wneir yn cael eu hystyried a bydd newidiadau'n cael eu gwneud os bydd angen.

1.0.4 Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth a Ffefrir, Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd CDLl2 rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2025. Mae manylion ar gael yma: Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2023-2038 (CDLl2) - Abertawe.

### 1.1 GOFYNION DEDDFWRIAETHOL A CHYSYLLTIADAU Â STRATEGAETHAU AC ASESIADAU ERAILL

1.1.1 Mae CDLlau yn allweddol o ran cyflawni datblygu cynaliadwy. Amlinellir y gofyniad i gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG) o CDLl2 yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (A62(6)), Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) a chanllawiau cysylltiedig. Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (y Rheoliadau AAS) yn gosod gofyniad gorfodol i gynnal asesiad amgylcheddol strategol (AAS) o bob cynllun datblygu a'r broses asesu gyfreithiol y mae'n rhaid ei dilyn (gan weithredu'r Gyfarwyddeb (AAS) Ewropeaidd).


---

[1] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) Mawrth 2020 | LLYW.CYMRU
[2] Cynllun Datblygu Lleol 2 – Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd - Abertawe
[3] Strategaeth a Ffefrir - Abertawe

1.1.2 Mae'r AIG yn cyfuno'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer AAS ac AG. Mae'r Adroddiad AIG hefyd yn ystyried y Deddfau, y strategaethau a'r asesiadau canlynol:

- Deddf Cydraddoldeb 2010[4] (asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015[5]
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[6]
- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017[7] (Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI))
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 11 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015[8], Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015[9], Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 a Pholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2017: Cynllunio a'r Gymraeg (Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg).

**Ffigur 1 Prif Gamau'r Broses CDLl ac Integreiddio â Gofynion AG**




[4] Deddf Cydraddoldeb 2010
[5] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (legislation.gov.uk)
[6] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
[7] Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017
[8] Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (legislation.gov.uk)
[9] www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/contents/made

1.1.3 Yn ogystal â'r Deddfau a'r polisïau a restrir uchod, mae'r Rheoliadau AAS (12(3)) yn mynnu bod yr AIG yn ystyried **cynlluniau, polisïau a rhaglenni**[10] sy'n cynnwys amcanion a pholisïau perthnasol yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd (Tasg 1). Mae'r rhestr o gynlluniau, polisïau a rhaglenni yn Atodiadau'r Adroddiad AIG llawn o'r Strategaeth a Ffefrir.

1.1.4 Paratowyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ar wahân sy'n ofynnol o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017[11] (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ymadael â'r UE 2019) (Rheoliadau Cynefinoedd). Lluniwyd Adroddiad Sgrinio Cam 1 ARhC Cysgodol o'r Strategaeth a Ffefrir sy'n dod i'r casgliad y gallai elfennau o'r Strategaeth a Ffefrir arwain at effeithiau arwyddocaol tebygol ar gyfanrwydd un neu fwy o amcanion cadwraeth Safleoedd a Ddynodwyd yn Rhyngwladol; ac felly bod angen cynnal asesiad priodol. Bydd yr asesiad priodol yn cael ei gynnal tra bydd y Cynllun Adnau'n cael ei baratoi.

## 1.2 SUT MAE'R CYNGOR WEDI CYDYMFFURFIO Â'R RHEOLIADAU

1.2.1 Cyhoeddwyd Adroddiad Cwmpasu AIG drafft CDLl2 ar gyfer ymgynghoriad yn 2023 (Cam A) ac fe'i diwygiwyd wedi hynny[12]. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiwygiedig ym mis Gorffennaf 2024[13].

1.2.2 Cyhoeddwyd fersiynau drafft o Weledigaeth ac Amcanion CDLl2 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024 a buont yn destun asesiad lefel uchel yn erbyn y Fframwaith AIG (gweler adran 4 isod). Cam anstatudol oedd hwn, ond bu'n destun asesiad AIG lefel uchel er hynny yn rhan o'r broses AIG gynhwysfawr ac ailadroddol ar gyfer CDLl2. Mae'r Weledigaeth a'r Amcanion wedi cael eu diwygio ers hynny ac fe'u cyflwynir yn adran 6 isod.

1.2.3 Mae'r Adroddiad AIG llawn o'r Strategaeth a Ffefrir yn cydymffurfio â Cham B (ac yn bodloni gofynion Rheoliad AAS 12(1)) ac yn cynnwys:

- **B1 Asesiad o amcanion y Strategaeth a Ffefrir yn erbyn y fframwaith AG a mesurau lliniaru awgrymedig**
- **B2: Ystyriaeth o nifer o ddewisiadau amgen rhesymol** – opsiynau strategol ar gyfer twf a dosbarthiad gofodol.
- **B3: Asesiad o'r dewisiadau amgen yn erbyn y Fframwaith AG ac effeithiau a chyfleoedd lliniarol a amlygwyd.**
- **B4 Gwerthusiad o effeithiau opsiynau'r CDLl**. Cyflwynir y rhesymau dros ddewis y Strategaeth a Ffefrir a diystyru dewisiadau amgen eraill. Asesir Strategaeth a Ffefrir CDLl2 yn erbyn y Fframwaith AIG a chyflwynir ac asesir Polisïau Strategol yn erbyn y Fframwaith AIG.

---

[10] Rheoliadau AAS 12(3) Atodlen 2(1) a (5).

[11] Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau a Chynllunio (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru a Lloegr) 2018 (legislation.gov.uk) a www.legislation.gov.uk/uksi/2019/579/contents/made

[12] https://www.swansea.gov.uk/media/18172/Integrated-Sustainability-Appraisal-ISA-Scoping-Consultation-Response-Report---April-2024/pdf/7jIntegrated_Sustainability_Appraisal_ISA_Scoping_Consultation_Response_Report_-_April_2024.pdf?m=1721121264027

[13] https://www.swansea.gov.uk/media/18171/Integrated-Sustainability-Appraisal-ISA-Scoping-Report---April-2024/pdf/64Integrated_Sustainability_Appraisal_ISA_Scoping_Report_April_2024.pdf?m=1721121193213

1.2.4 Mae cyhoeddi'r adroddiad crynodeb annhechnegol hwn ar gyfer ymgynghoriad yn cydymffurfio â Rheoliad AAS 12(3), Atodlen 2(10).

## 2.0 METHODOLEG

### 2.1 AMCANION A DANGOSYDDION YR AIG (Y FFRAMWAITH CYNALIADWYEDD)

2.1.1 Datblygwyd y Fframwaith Cynaliadwyedd (Fframwaith AIG) yn yr Adroddiad Cwmpasu AIG mewn ymgynghoriad â'r Cyrff Ymgynghori AAS (Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw) ynghyd â mewnbwn gan randdeiliaid eraill (e.e. Iechyd Cyhoeddus Cymru). Mae 16 amcan yr AIG yn adlewyrchu materion a amlygwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu ac fe'u cyflwynir yn Nhabl 2. Fe'u defnyddir i asesu cynaliadwyedd strategaeth, polisïau a chynigion y Cynllun. Mae gan bob amcan ddangosyddion a 'meini prawf penderfynu' i ddarparu cysondeb drwy gydol proses CDLl2. Mewn rhai achosion, mae'r cwestiynau i gynorthwyo penderfyniadau yn amrywio rhwng yr asesiad o safleoedd ymgeisiol a pholisïau'r cynllun o ganlyniad i'r gwahanol faterion y deuir ar eu traws[14]. Mae'r ddau wedi'u cynnwys yn Atodiadau'r Adroddiad AIG llawn. Fe allai dangosyddion newid wrth i CDLl2 fynd rhagddo a ffynonellau newydd o wybodaeth ddod i'r amlwg.

2.1.2 Diwygiwyd amcan 14 yr AIG, sy'n ymwneud â'r amgylchedd diwylliannol, yn dilyn ymgynghoriad anffurfiol i gynnwys amcan ar wahân yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r amcanion yn cynnwys amcanion economaidd a chymdeithasol (gan gynnwys iechyd a lles), ac amcanion sy'n mynd i'r afael â'r pynciau a restrir yn y Rheoliadau AAS, A2(6) a'r gydberthynas rhyngddynt. Mae'r rhain fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Bioamrywiaeth | Fflora | Ffawna |
| Y boblogaeth | Aer | Pridd |
| Iechyd pobl | Ffactorau hinsoddol | Asedau materol |
| Tirwedd | Dŵr | |
| Treftadaeth ddiwylliannol (gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archaeolegol) | | |

2.1.2 Mae amcanion yr AIG yn cyd-fynd â gofynion y ddeddfwriaeth a amlinellir yn adran 1.1.2 uchod a Themâu Datganiad Ardal De-orllewin Cymru. Dangosir y gyfatebiaeth yn Nhabl 3 yr Adroddiad AIG llawn.

### 2.2 PENNU ARWYDDOCÂD EFFEITHIAU

2.2.1 Mae Atodlen 1(2) y Rheoliadau AAS (Atodiad II y Gyfarwyddeb AAS) yn amlinellu meini prawf ar gyfer pennu effeithiau arwyddocaol tebygol a'r ardal y mae'n debygol yr effeithir arni:

(a) tebygolrwydd, hyd, amlder a gwrthdroadwyedd yr effeithiau;
(b) natur gronnol yr effeithiau;
(c) natur drawsffiniol yr effeithiau;
(ch) risgiau i iechyd pobl neu'r amgylchedd;

[14] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/development-plans-manual-edition-3-march-2020.pdf

(d) maint a hyd a lled gofodol yr effeithiau (yr ardal ddaearyddol a maint y boblogaeth y mae'n debygol yr effeithir arnynt);
(dd) gwerth a bregusrwydd yr ardal y mae'n debygol yr effeithir arni o ganlyniad i —
(e) nodweddion naturiol arbennig neu dreftadaeth ddiwylliannol;
(i) mynd dros safonau ansawdd neu werthoedd terfyn amgylcheddol; neu
(iii) ddefnydd dwys o dir; ac
(f) effeithiau ar ardaloedd neu dirweddau sydd â statws gwarchod cenedlaethol, cymunedol neu ryngwladol cydnabyddedig.

2.2.2 Mae hyn yn golygu rhagfynegi newidiadau i'r sylfaen amgylcheddol o ganlyniad i'r cynllun, a'r dewisiadau amgen a archwiliwyd.

## 2.3 MATRICSAU ASESU

2.3.1 Caiff effeithiau tebygol elfennau CDLl2 eu sgorio yn ôl graddfa, ac fe'u hategir gan sylwadau sy'n esbonio'r sail resymegol i'r sgôr (Tabl 1). Gellir gweld crynodeb o'r sgorau AIG ar gyfer pob cam o'r Strategaeth a Ffefrir ym Mhenodau 5-7 isod a manylir arno yn yr Adroddiad AIG llawn, lle y ceir y taflenni sgorio yn yr Atodiadau.

**Tabl 1: Siart Sgorio**

| Symbol | Effaith ragfynedig | Cam gweithredu/ymateb awgrymedig |
|---|---|---|
| ++ | Mae'n debygol o gael effeithiau cadarnhaol iawn o gymharu â'r sefyllfa bresennol. | Ystyried unrhyw fesurau gwella ychwanegol. |
| + | Mae'n debygol o gael effeithiau cadarnhaol o gymharu â'r sefyllfa bresennol. | Ystyried unrhyw fesurau gwella ychwanegol. |
| +/- | Ystod o effeithiau cadarnhaol a negyddol o gymharu â'r sefyllfa bresennol. | Ystyried p'un a allai mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau negyddol a/neu fesurau gwella ar gyfer effaith gadarnhaol newid y sgôr. |
| - | Mae'n debygol o gael effaith negyddol o gymharu â'r sefyllfa bresennol. | Ystyried mesurau lliniaru: osgoi'r effaith yn gyntaf, yna lleihau'r effaith, ac yn olaf gwneud iawn am yr effaith (e.e. dileu / ailystyried / diwygio'r polisi neu'r dyraniad safle). Ailystyried y polisi / defnydd arfaethedig. |
| -- | Mae'n debygol o gael effaith negyddol iawn o gymharu â'r sefyllfa bresennol. | Ystyried mesurau lliniaru i leihau difrifoldeb yr effaith, ond mae'r rhain yn debygol o fod yn anodd a/neu'n ddrud. Ailystyried y polisi neu'r defnydd arfaethedig. |
| I | Mae'r effaith yn dibynnu ar sut mae'r polisi a'r dyraniad yn cael eu gweithredu. | Awgrymiadau ar gyfer gweithredu. |
| ? | Anhysbys ar y cam hwn. | Mae angen mwy o wybodaeth. Ystyried ble y gellid cael y wybodaeth? Sut a phryd y gellid ei chasglu. |
| x | Amherthnasol. | Esbonnir y rheswm. |
| 0 | Effaith niwtral o gymharu â'r sefyllfa bresennol. | Ystyried p'un a allai ymyrraeth arwain at effeithiau cadarnhaol. |

| Tabl 2: Amcanion AIG | | |
|---|---|---|
| **Pwnc AAS** | | **Amcan AIG** |
| **1** | Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth | *Cynnal a gwella adnoddau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir; gwella gwytnwch ecosystemau, darpariaeth seilwaith gwyrdd a chysylltedd cynefinoedd* |
| **2** | Tai a Chreu Lleoedd | *Galluogi pobl i fodloni eu gofynion tai trwy ddarparu digon o dai fforddiadwy o ansawdd da mewn lleoliadau cynaliadwy, sy'n cyflawni egwyddorion Creu Lleoedd* |
| **3** | Cydraddoldeb ac Allgáu Cymdeithasol | *Annog cymdeithas gynhwysol trwy fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, hyrwyddo cyfle cyfartal, lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol a hyrwyddo cymunedau cydlynol a chryf.* |
| **4** | Twf Economaidd | *Amrywiaethu a chryfhau economi'r Sir, cynyddu nifer y cyfleoedd cyflogaeth a gwella lefelau addysgol a sgiliau ar yr un pryd â chefnogi rôl y Sir yn Ninas-Ranbarth Bae Abertawe a'r Ardal Dwf Genedlaethol.* |
| **5** | Iechyd a Lles | *Creu, cynnal a gwella amgylcheddau cymdeithasol a ffisegol sy'n annog a chefnogi iechyd, lles a diogelwch cymunedol a chyflawni egwyddorion Creu Lleoedd.* |
| **6** | Gwarchod Adnoddau Pridd | *Sicrhau bod tir yn cael ei ddefnyddio'n gynaliadwy trwy warchod y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (BMV) a phridd carbon gyfoethog.* |
| **7** | Dŵr | *Gwarchod a gwella ansawdd amgylcheddau dŵr mewndirol ac arfordirol, a maint ac ansawdd adnoddau dŵr.* |
| **8** | Aer | *Lleihau allyriadau a chrynodiadau llygryddion atmosfferig niweidiol a lleihau amlygiad i ansawdd aer gwael.* |
| **9** | Aer | *Lleihau'r angen i deithio trwy ddyluniad datblygiad newydd, cynnwys seilwaith teithio llesol a'i leoli'n agos i rwydweithiau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus* |
| **10** | Y Newid yn yr Hinsawdd | *Sicrhau bod pob datblygiad yn mabwysiadu mesurau osgoi, addasu a lliniaru priodol i leihau ac ymateb i effeithiau newid hinsoddol a lleihau perygl llifogydd.* |
| **11** | Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel | *Hwyluso datblygiad adnoddau ynni adnewyddadwy a charbon isel wrth ddylunio datblygiadau a dulliau cynhyrchu newydd; a lleoli cynigion seilwaith mewn lleoliadau priodol* |
| **12** | Gwastraff | *Annog yr economi gylchol, rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy.* |
| **13** | Rheoli Adnoddau Naturiol | *Sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu gwarchod a/neu eu diogelu a, phan fydd angen eu defnyddio, eu bod yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy i ddarparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu a defnyddiau eraill.* |
| **14** | Treftadaeth Hanesyddol a Diwylliannol (gan gynnwys y Gymraeg) | *Gwarchod a gwella ansawdd amgylchedd hanesyddol a diwylliannol y Sir a'i hasedau.* |
| **15** | Tirwedd | *Cynnal a gwella ansawdd, cymeriad a natur unigryw'r dirwedd, y treflun, yr Arfordir Treftadaeth a'r morwedd. Sicrhau bod tirwedd warchodedig genedlaethol AHNE Gŵyr yn cael ei gwarchod a'i gwella.* |
| **16** | Y Gymraeg | *Gwarchod, hyrwyddo a gwella defnydd o'r Gymraeg fel elfen bwysig o wead cymdeithasol a diwylliannol y Sir'.* |

## 2.4 GRADDFEYDD AMSER

2.4.1 Mae'r Rheoliadau AAS (Atodlen 2(6)) yn mynnu bod y dadansoddiad o effeithiau'n cynnwys *'effeithiau tymor byr, tymor canolig, a thymor hir, parhaol, a dros dro ac eilaidd, cronnol a synergaidd*'. Fe allai effeithiau amrywio dros wahanol raddfeydd amser, e.e., effeithiau niweidiol yn y tymor byr ond buddiol yn y tymor hir. O ystyried cyfnod 15 mlynedd CDLl2 (2023-2038), mae'r AIG yn ystyried y graddfeydd amser canlynol:

- Tymor Byr: 0 – 5 mlynedd;
- Tymor Canolig: 6 – 10 mlynedd;
- Tymor Hir: 11 – 20+ mlynedd (sy'n arbennig o berthnasol i lygredd aer a'r newid yn yr hinsawdd).

2.4.2 Mae Tabl 3 yn amlinellu'r diffiniad o effeithiau eilaidd (neu anuniongyrchol), cronnol a synergaidd, fel y'u hystyrir yn yr AIG hwn.

**Tabl 3 Diffiniadau o Effeithiau Eilaidd, Cronnol a Synergaidd. Addaswyd o A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) (2005).**

| Math o Effaith | Diffiniad |
|---|---|
| Eilaidd (neu anuniongyrchol) | Effeithiau nad ydynt yn deillio'n uniongyrchol o'r cynllun ond sy'n digwydd i ffwrdd oddi wrth yr effaith wreiddiol neu oherwydd llwybr cymhleth. |
| Cronnol | Mae effeithiau'n codi, er enghraifft, pan fydd gan sawl datblygiad effeithiau dibwys ond effaith arwyddocaol gyda'i gilydd; neu pan fydd sawl un o effeithiau unigol y cynllun (e.e., sŵn, llwch a gweledol) yn cael effaith gyfunol. |
| Synergaidd | Mae effeithiau'n rhyngweithio i gynhyrchu effaith gyffredinol sy'n fwy na chyfanswm yr effeithiau unigol. |

Ffynhonnell: Adroddiad AIG Sir Gaerfyrddin 2[il] CDLln Adnau, 2023

## 2.5 MESURAU LLINIARU

2.5.1 Mae'r Adroddiad AIG yn argymell mesurau lliniaru rhesymol a chyflawnadwy os rhagfynegir effeithiau negyddol arwyddocaol. Mae adnabod mesurau lliniaru'n gam allweddol o AG sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ganlyniad y cynllun. Mae'r argymhellion yn dilyn yr hierarchaeth liniaru, sef osgoi, lleihau neu wneud iawn am yr effaith.

## 3.0 LLINELL SYLFAEN AMGYLCHEDDOL Y SIR AC EFFEITHIAU RHAGFYNEDIG GYDA'R CYNLLUN A HEBDDO

3.0.1 Mae'r adran hon yn crynhoi cyflwr amgylcheddol, economaidd, a chymdeithasol sylfaenol y Sir (Tasg A3), materion allweddol a amlygwyd a sylwadau ar yr effaith ragfynedig debygol ar y llinell sylfaen amgylcheddol, gan weithredu CDLl2 a heb ei weithredu (y Rheoliadau AAS Atodiad I b ac c). Cyflwynir y wybodaeth hon yn llawn yn Atodiadau'r Adroddiad AIG llawn.

### 3.1 BIOAMRYWIAETH, PRIDD A GEOAMRYWIAETH (Crynodeb a diweddariad ers mis Ebrill 2024)

3.1.1 Mae Datganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer De-orllewin Cymru yn amlygu'r CDLl fel cyfle allweddol i wella bioamrywiaeth. Mae'r Sir yn cynnwys safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol, gan gynnwys safleoedd morol (Tabl 4), ac mae oddeutu 21% o'r Sir wedi'i dynodi'n statudol ar gyfer natur, sy'n cynyddu i 43% os cynhwysir dynodiadau anstatudol. Mae safleoedd a warchodir, gan gynnwys Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SBCNau) anstatudol, yn tueddu i fod â'r lefelau uchaf o wytnwch ecosystemau, ac mae'r ardaloedd trefol (yn enwedig canol y ddinas) yn tueddu i fod â'r lefelau lleiaf. Asesodd prosiect Gwerthusiad Gwaelodlin 2020 CNC[15] ansawdd safleoedd a warchodir (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) a daeth i'r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth i bennu cyflwr tua hanner y nodweddion ar y safleoedd hynny. Mae cyflwr y safleoedd hyn yn rhoi rhyw syniad o iechyd y cynefinoedd cyffredinol ar draws y sir a'r rhanbarth.

3.1.2 Mae morlin y Sir yn ffinio â llawer o ardaloedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac mae'r amgylchedd morol a morlin Abertawe yn gartref i amrywiaeth eang o gynefinoedd a rhywogaethau sydd mewn perygl o bwysau tua'r tir a thua'r môr, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd, datblygu a llygredd.

**Tabl 4: Safleoedd a ddynodwyd yn ecolegol yn Abertawe**

| Nifer | Safle Dynodedig |
|---|---|
| 2 | Safle Ramsar Gwlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol |
| 7 | Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) |
| 2 | Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) |
| 36 | Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) |
| 4 | Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNCau) |
| 6 | Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLlau) |
| 154 | Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SBCNau) |
| 43 | Gwarchodfeydd Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru |


[15] Cyfoeth Naturiol Cymru / Asesiad gwaelodlin safleoedd gwarchodedig 2020

3.1.3 Datganodd y Cyngor Argyfwng Natur yn 2021 o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mae ganddo ddyletswydd statudol i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau. Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau Adran 6 (Cynllun Gweithredu Adran 6) 2023-2025 (2024) y Cyngor[16] yn blaenoriaethu camau gweithredu allweddol i'r Cyngor sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar natur yn Abertawe ac yn cynnwys camau gweithredu o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol[17] (CGANLl).

3.1.4 Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG) CDLl2 Abertawe[18] wedi amlygu chwe Ardal Darged Seilwaith Gwyrdd (ADSG) (Ffigur 2) (sy'n cynnwys lleiniau clustogi i ystyried cysylltu seilwaith gwyrdd ag ADSGau cyfagos), y mae eu blaenoriaethau'n cyd-fynd â Datganiad Ardal De-orllewin Cymru ac yn cefnogi gwytnwch ecosystemau. Mae ardaloedd o'r gwerth ecolegol/seilwaith gwyrdd uchaf yn cynnwys Gwlyptiroedd RAMSAR, ACAau, AGAau, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, SoDdGAau, Coetiroedd Hynafol a Mawndiroedd. Mae ardaloedd o werth ecolegol/seilwaith gwyrdd cymedrol yn cynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, SBCNau, Parciau a Gerddi Cofrestredig, a Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol (SGBRhau). Dangosir yr ardaloedd rhyng-gysylltedd seilwaith gwyrdd yn Ffigur 3. Mae'r Ardaloedd Targed Seilwaith Gwyrdd (ATSGau) fel a ganlyn:

1. Parc y Mawr
2. Rhwydwaith Mannau Gwyrdd Trefol Abertawe
3. Cysylltiadau Gŵyr
4. Cwm Tawe
5. Cors Crymlyn a'r ardaloedd amgylchynol
6. Tirwedd Genedlaethol a chysylltiadau Gogledd-De Gŵyr

**Ffigur 2: Ardaloedd Targed Seilwaith Gwyrdd**




Ffynhonnell: Asesiad Seilwaith Gwyrdd Abertawe, Rhagfyr 2024, EDP a Chyngor Abertawe

[16] https://democracy.swansea.gov.uk/documents/s100526/10%202%20of%203%20S6-action-plan-FINAL.pdf?LLL=0
[17] Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe - Abertawe
[18] Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2023-2038 (CDLl2) - Abertawe

**Ffigur 3: Parthau a Rhyng-gysylltedd Seilwaith Gwyrdd**




Ffynhonnell: Asesiad Seilwaith Gwyrdd Abertawe, Cam 1, Rhagfyr 2024, EDP a Chyngor Abertawe

3.1.5 Mae gan y Sir oddeutu 1721ha o goetir hynafol (ASG) a gorchudd canopi uwch na'r cyfartaledd, sef 17%[19]. Mae Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Ardal Ganolog Abertawe, 2021[20], yn ceisio dyblu'r seilwaith gwyrdd yn yr ardal hon (o 13% i 26%) erbyn 2030 a chynyddu'r gorchudd canopi coed i 20-25% erbyn 2044.

3.1.6 Mae'r Sir yn cynnwys amrywiaeth o fathau o bridd, a rhai ardaloedd o fawndir (ACA Cors Crymlyn a SoDdGA/Gwarchodfa Natur Leol (GNL) Oxwich, yn fwyaf arwyddocaol). Mae Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a Natur 2022-2030 y Cyngor**[21]** yn mynnu bod '*polisi CDLl yn cael ei adolygu i warchod priddoedd tir a chynefinoedd carbon gyfoethog'*. Mae llawer o'r Sir yn amaethyddol, ond dim ond oddeutu 16% o'r tir sydd wedi'i raddio'n dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV), sef adnodd y mae pen draw iddo. Nid oes tir amaethyddol BMV Gradd 1 yn y Sir.

3.1.7 Mae'r Sir yn cynnwys nodweddion daearegol pwysig, gyda 9 Safle Daearegol o Bwys Rhanbarthol (SDBRh), 17 SDBRh posibl a 19 SoDdGA sydd o ddiddordeb daearegol.

[19] Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru (adroddiad llawn) (naturalresources.wales)
[20] https://www.swansea.gov.uk/media/2806/Swansea-Central-Area---Regenerating-Our-City-for-Wellbeing-and-Wildlife/pdf/kaSwansea_Central_Area_-_Regenerating_Our_City_for_Wellbeing_and_Wildlife.pdf?m=1630579261377
[21] Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a Natur 2022-2030 - Abertawe

**Materion Allweddol, sylwadau, nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni a'r dyfodol tebygol heb CDLl2**

| Mater allweddol (a amlygwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AIG) | Nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni | Heb CDLl2 |
|---|---|---|
| *Ymrwymiad Llywodraeth Cymru a'r Cyngor i darged bioamrywiaeth byd-eang 30 x 30 i lywio penderfyniadau.* | Ledled y Sir | Byddai'n rhaid i ddatblygiadau yn y dyfodol gydymffurfio â Chymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru a deddfwriaeth berthnasol yn ymwneud â bioamrywiaeth, safleoedd a warchodir yn statudol, priddoedd, y newid yn yr hinsawdd a seilwaith gwyrdd. Heb gynllun datblygu lleol statudol cyfredol, ni fyddai'r polisi cynllunio cenedlaethol mwyaf cyfredol mewn perthynas â seilwaith gwyrdd, y newid yn yr hinsawdd a budd net i fioamrywiaeth, wedi'i arwain gan ASG strategol, yn llywio'r fframwaith polisi lleol i arwain y broses o leoli datblygiad. Fe allai datblygiadau newydd ddigwydd mewn modd heb ei gydlynu a heb ei gynllunio, gyda phwysau ar gyfer rhyddhau tir maes glas. Ni fydd lleoliad datblygiadau'n cael ei lywio gan ASG ar gyfer y sir gyfan, nac yn ystyried effeithiau cronnol datblygiadau.<br><br>Mae angen i fframwaith polisi lleol cyfredol fod ar waith er mwyn i Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) mabwysiedig y Cyngor, gan gynnwys, er enghraifft, y rhai hynny sy'n ymwneud â Bioamrywiaeth a Choed, fod yn berthnasol i wneud penderfyniadau.<br><br>Bydd safleoedd dynodedig, a chynefinoedd a rhywogaethau a warchodir yn cael eu diogelu trwy ddeddfwriaeth. Bydd polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, er enghraifft Polisi Cynllunio Cymru, Cymru'r Dyfodol, a'r Ddyletswydd A6 yn berthnasol o hyd, ac felly hefyd y CGANLl. Fodd bynnag, byddai mesurau i gyrraedd targed y CGANLl o sicrhau bod 30% o Abertawe yn cael ei gwarchod a'i rheoli'n effeithiol ar gyfer natur erbyn 2030 yn cael eu hwyluso'n fwy effeithiol trwy fframwaith cynllunio lleol cyfredol. Byddai polisïau gwella bioamrywiaeth Polisi Cynllunio Cymru a Chymru'r Dyfodol a cheisio rheoli rhywogaethau estron goresgynnol yn berthnasol o hyd, ond ni fyddant mor effeithiol heb fframwaith cynllunio |
| *Safleoedd a ddynodwyd yn statudol i'w gwarchod rhag difrod yn unol â'r polisi cenedlaethol a deddfwriaeth berthnasol.* | Ledled y Sir a dynodiadau traws-sirol ehangach | |
| *Cyflawni gwelliannau net i fioamrywiaeth yn rhan o ddatblygiad newydd*. | Ledled y Sir | |
| *Lle bynnag y bo'n bosibl, osgoi datblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol ar safleoedd dynodedig anstatudol.* | | |
| *Hwyluso adfer a chreu cynefin a seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac amdrefol, i gynyddu mynediad cyfartal at fannau gwyrdd a glas lled-naturiol o ansawdd da a'r buddion cysylltiedig.* | Ledled y Sir | |
| *Helpu i leihau colled a chynyddu cysylltedd gymaint â phosibl mewn coridorau a* | Ledled y Sir | |

| | | |
|---|---|---|
| *rhwydweithiau bywyd gwyllt allweddol ledled Abertawe i leihau effeithiau darnio cynefin sy'n deillio o dwf trefol ac effeithiau defnydd tir hanesyddol.* | | lleol cyfredol a mesurau CCA i sicrhau gwelliannau i fioamrywiaeth ac adfer natur yn rhan o ddatblygiad.<br><br>Fe allai diffyg strategaeth ofodol gyfredol yn y CDLl arwain at ddatblygiad tameidiog heb ei gydlynu a cholli coridorau a rhwydweithiau bywyd gwyllt. Bydd y map gwytnwch ecosystemau a'r ASG yn llywio strategaeth ofodol y CDLl er mwyn sicrhau bod gwytnwch ecosystemau yn cael ei ymgorffori ym mholisïau CDLl2. Mae Datganiad Ardal De Cymru CNC yn amlygu CDLlau fel cyfle allweddol i wella bioamrywiaeth.<br><br>Byddai angen i bob cynnig ar gyfer datblygiad a allai effeithio ar safle Ewropeaidd gael Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ar wahân, y byddai angen iddo edrych ar yr holl safleoedd Ewropeaidd y gellid effeithio arnynt o bosibl a'r holl effeithiau cronnol. Byddai hyn yn achosi oedi sylweddol i'r broses cais cynllunio ac arwain at asesiadau anghyson heb ystyried effeithiau cronnol posibl yn llawn.<br><br>Ni fyddai polisi cynllunio lleol sy'n benodol yn lleol i reoli safleoedd anstatudol mewn modd cadarnhaol. Heb CDLl2, ni fydd gan yr ASG a thargedau cysylltiedig lawer o bwys perthnasol. Ni fydd strategaeth ofodol a pholisïau CDLl2 wedi cael eu llywio gan yr ASG.<br><br>Mae Polisi Cynllunio Cymru yn annog defnyddio tir llwyd yn lle tir maes glas. Mae'r CDLl yn darparu dull i asesu safleoedd ac effeithiau datblygu safleoedd mewn cyd-destun ehangach, gan sicrhau ystyriaethau creu lleoedd ehangach. |
| *Helpu i leihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol.* | Ledled y Sir | |
| *Rhoi pwys sylweddol i warchod tir amaethyddol Graddau 1-3a, sydd wedi'i leoli'n bennaf yn AHNE Gŵyr, rhag datblygiad.* | Ardaloedd o dir amaethyddol gradd 1-3a yn y Sir | |
| *Annog ailddefnyddio tir llwyd, pan fydd yn addas i'w ddatblygu, a dilyn y dilyniant chwilio ar gyfer tir datblygu newydd a amlinellir mewn polisi cynllunio cenedlaethol.* | Tir llwyd (tir a ddatblygwyd yn flaenorol) yn y Sir | |
| *Helpu i gyrraedd targed y Cyngor o ddyblu'r seilwaith gwyrdd yn Ardal Ganolog Abertawe i 26% erbyn 2030 a'r canopi coed i 20-25% erbyn 2044.* | Ardal Ganolog Abertawe ddiffiniedig | Heb CDLl2 a thystiolaeth gysylltiedig, ni fydd y broses o ddatblygu polisi seilwaith gwyrdd lleol yn cael ei llywio gan amcanion o fewn ASG Ardal Ganolog Abertawe a'r ASG ledled y sir. Bydd CDLl2 yn darparu fframwaith cynhwysfawr i asesu penderfyniadau er mwyn helpu i hwyluso cyrraedd targedau. |
| *Gwarchod coetir hynafol rhag datblygiad a fyddai'n arwain at golled/dirywiad, a chefnogi cynnydd* | Ardaloedd dynodedig o goetiroedd hynafol ledled y Sir, plannu coetir newydd ledled y Sir | Heb CDLl2 a CCA cysylltiedig a thystiolaeth fel yr ASG ledled y sir, bydd dull llai cydlynol a chynhwysfawr o warchod coetir a chynyddu gorchudd canopi ledled y Sir.<br><br>Mae angen i fframwaith polisi lleol cyfredol fod ar waith er mwyn i CCA Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd |

| | | |
|---|---|---|
| *mewn gorchudd canopi ledled y Sir.* | | mabwysiedig y Cyngor fod yn berthnasol i wneud penderfyniadau. |
| *Hwyluso defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol morol, yn enwedig o fewn yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig.* | Ardaloedd arfordirol ac alltraeth y sir, a ddylanwadir gan y system cynllunio defnydd tir. Ardaloedd Morol Gwarchodedig (ACAau, AGAau, safleoedd Ramsar, SoDdGAau) a amlygwyd yn Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. | Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ceisio sicrhau bod dulliau cynllunio defnydd tir mewn ardaloedd arfordirol yn gynaliadwy yn amgylcheddol ac yn economaidd, yn deg yn gymdeithasol ac yn cydnabod bygythiad yr argyfwng hinsawdd. Mae'n rhaid i gynlluniau datblygu gyd-fynd â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Heb CDLl2, ni fydd fframwaith penderfynu lleol i asesu datblygiadau a allai effeithio ar adnoddau naturiol morol, yn unigol ac ar y cyd.<br><br>Gall fframwaith cynllunio defnydd tir statudol roi pwys perthnasol i ddogfennau fel yr Asesiad Morwedd a'r Cynllun Rheoli Traethlin. Mae angen i fframwaith polisi lleol cyfredol fod ar waith er mwyn i'r CCA Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer AHNE Gŵyr fod o bwys perthnasol. |
| Gwarchod y morlin rhag datblygiad amhriodol ac ystyried effeithiau canlyniadol y newid yn yr hinsawdd ar y morlin ac amgylcheddau arfordirol. | Ardaloedd arfordirol y Sir | |
| Gwarchod adnoddau pridd mawn. | Ardaloedd o bridd mawn yn y Sir | Mae 'Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a Natur 2022-2030' y Cyngor yn mynnu'n benodol: '*bod polisi'r CDLl yn cael ei adolygu i warchod priddoedd tir a chynefinoedd carbon gyfoethog*'. |
| Cefnogi gwelliannau i ansawdd adnoddau aer a dŵr Abertawe (y môr a dŵr croyw). | Ledled y Sir ac yn enwedig o fewn ardaloedd yr amlygwyd bod angen eu gwella. | Fel arfer, bydd datblygiad yn cael rhywfaint o effaith (gadarnhaol neu negyddol) ar ansawdd aer ac ni chafwyd gormodiant o $NO_2$, PM10, PM2.5, $SO_2$ nac $O_3$ yn y Sir yn 2021. Mae'n bosibl na fydd modd rheoli datblygiad, ar y cyd neu'n unigol, a allai gael effaith negyddol ar yr ansawdd aer yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) y Sir, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Heb CDLl2, bydd rhaid i ddatblygiad gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol. Fodd bynnag, gall CDLl2 hyrwyddo strategaeth ddatblygu sy'n ceisio lleihau'r angen i deithio a chynyddu cerdded a beicio |

| | | |
|---|---|---|
| | | gymaint â phosibl er mwyn lleihau llygredd aer i'r eithaf, helpu i gydlynu datblygiad ac ystyried effeithiau cronnol datblygiad.<br><br>Gall datblygiad gael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar ddyfroedd wyneb a daear. |

**Sylwadau cyffredinol**:
Mae'r senario waelodlin yn debygol o waethygu o'i hystyried yn erbyn amcanion yr AIG. Gall effeithiau niweidiol tymor byr amrywio o waith clirio safle cychwynnol sy'n effeithio ar briddoedd a fflora a ffawna, llygredd aer (fel llwch) a sŵn o ddatblygiad. Mae hyn yn wir hefyd am safleoedd tir llwyd a allai fod yn ecolegol gyfoethog. Heb strategaeth ofodol, mae'n bosibl na fydd datblygiadau heb eu cydlynu yn y lleoedd mwyaf cysylltiedig a chynaliadwy sy'n hyrwyddo'r amcan o leihau'r angen i deithio, a phan fyddant wedi'u hadeiladu fe allent arwain yn anuniongyrchol at gynyddu traffig yn yr ARhAA yn y tymor canolig a'r tymor hir. Fe allai fod yn anodd cyrraedd targedau tymor canolig (fel 30 erbyn 30) os nad yw datblygiad yn cael ei gydlynu. Bydd buddion ecolegol ac iechyd a lles tymor hir posibl yn cael eu gwireddu os caiff mwy o seilwaith gwyrdd ei ymgorffori yn y dirwedd, ond bydd angen cynnal a chadw yn y tymor hir. Heb ddull cydlynol o hwyluso gwelliannau i gysylltedd ecolegol strategol ledled y Sir, mae buddion tymor hir yn annhebygol o fod mor effeithiol â'r rhai a danategir gan strategaeth ofodol sy'n canolbwyntio ar seilwaith gwyrdd. Heb CDLl2 a datblygiad wedi'i gydlynu, fe allai fod pwysau tymor byr a thymor canolig ar safleoedd maes glas, gan arwain at ddatblygiadau heb eu cydlynu a allai gael effaith ar y cyd ar rwydweithiau natur a llwybrau/cysylltiadau seilwaith gwyrdd yn y tymor hir. Dylai gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) fod yn fuddiol ar unwaith o ran dŵr wyneb ffo, gan arwain at welliannau tymor hir i ddraenio dŵr wyneb a chyflwr dyfroedd wyneb a daear.

## 3.2 Y BOBLOGAETH (GAN GYNNWYS Cydraddoldeb, Tai ac Addysg) (Crynodeb a diweddariad ers mis Ebrill 2024)

Y Boblogaeth

3.2.1 Amcangyfrifodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) fod 246,700 o bobl yn Abertawe yn 2023[22], sef 4,700 (1.9%) yn fwy nag yn 2022, sy'n cynnwys 124,100 o fenywod a 122,600 o ddynion. Dywedodd oddeutu 0.4% o boblogaeth y Sir sy'n 16 oed a hŷn nad yw'r rhywedd maen nhw'n uniaethu ag ef yr un fath â hwnnw a gofrestrwyd ar adeg eu geni (Cyfrifiad 2021). Mae'r cynnydd yn y boblogaeth o ganlyniad i fudo mewnol (mudo yn y Deyrnas Unedig) a rhyngwladol[23]. Ers 2013, mae poblogaeth y Sir wedi bod yn heneiddio ac mae dros 20% o'r bobl sy'n byw yn y Sir yn hŷn na 65 oed bellach (10% yn fwy nag yn 2013). Ar yr un pryd, mae cyfanswm y boblogaeth oedran gweithio (16-64) yn Abertawe wedi cynyddu 1.7% yn unig. Mae'r boblogaeth 0-5 oed wedi lleihau, sy'n adlewyrchu cyfraddau cenhedlu, cyfraddau genedigaethau byw a chyfraddau ffrwythlondeb is.

[22] https://www.swansea.gov.uk/media/3252/Swansea-Population-2023/pdf/soSwansea_Population_2023_Jul-24.pdf?m=1721836599843
[23] https://www.swansea.gov.uk/media/3270/Recent-Population-Change-in-Swansea-to-2023/pdf/1eRecent_Population_Change_in_Swansea_to_2023.pdf?m=1722261786867


3.2.2 Dangosodd Cyfrifiad 2021 fod ychydig dros 41% o boblogaeth y Sir yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig. Yn yr un modd â llawer o ardaloedd trefol a dinasoedd prifysgol, mae gan Abertawe gyfran uwch o oedolion sengl (39.9%) (erioed wedi priodi neu fod mewn partneriaeth sifil gofrestredig â rhywun o'r un rhyw) na chyfartaledd cyfatebol Cymru (37.2%). Mae oddeutu 3.4% o breswylwyr y Sir sy'n 16 oed neu'n hŷn yn uniaethu fel LHDTC+ o gymharu â 2.7% yng Nghymru (Cyfrifiad 2021).

3.2.3 Roedd ychydig dros 40% o boblogaeth Abertawe yn uniaethu fel Cristnogion (Cyfrifiad 2021) a chynyddodd nifer y bobl a oedd yn gysylltiedig â chrefydd arall rhwng 2011 a 2021; y mwyaf oedd Mwslimaidd, Bwdhaidd a Hindŵaidd, yn y drefn honno. Cynyddodd nifer y bobl a ddatganodd nad oedd ganddynt grefydd yn sylweddol rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021 (+39%). Mae gan y Sir gyfran uwch o bobl sy'n perthyn i grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn (8.6%) na chyfartaledd Cymru, a'r grŵp mwyaf yw 'Bangladeshaidd' (oddeutu 2,900 o bobl neu 1.2%, Cyfrifiad 2021).

Tai ac aelwydydd

3.2.4 Roedd 105,000 o aelwydydd yn Abertawe (7.8% o gyfanswm yr aelwydydd yng Nghymru) ym mis Mawrth 2021 (Cyfrifiad 2021), sef 1.5% yn fwy na'r 103,500 yng Nghyfrifiad 2011. Mae gan y CDLl saith parth Polisi Tai Strategol diffiniedig (Ffigur 4), yn seiliedig ar Ardaloedd Marchnad Dai (AMDau) diffiniedig. Mae'r nifer fwyaf o aelwydydd yn yr AMD Ganolog (24,500) ac mae'r nifer leiaf yng Ngŵyr (oddeutu 2,600). Roedd yr aelwyd gyffredin yn Abertawe yn cynnwys tua 2.22 o breswylwyr.

**Ffigur 4: Map o Barthau Polisi Tai Strategol (SHPZ) yn y Sir**



Yr Angen am Dai

3.2.5 Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol drafft 2023 yn amcangyfrif bod angen 5,355 o dai fforddiadwy ychwanegol yn gyffredinol yn ystod cyfnod 15 mlynedd y cynllun. Mae angen tai rhent cymdeithasol gan mwyaf (82%) ac mae'r angen sy'n weddill (18%) ar gyfer tai canolradd. Mae angen sylweddol am gartrefi ag un ystafell wely.

3.2.6 Mae dros hanner y bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain mewn tai'r farchnad agored yn Abertawe yn byw mewn tŷ sydd â *thair* ystafell wely o leiaf (Cyfrifiad 2021). Dim ond 13% sy'n byw mewn eiddo ag un ystafell wely. Os bydd y tueddiadau presennol o ran meddiannaeth yn parhau, mae'n bosibl y bydd angen i 57% o bobl sy'n byw yn nhai'r farchnad agored gael o leiaf dair ystafell wely, bydd angen i 32% gael dwy ystafell wely a bydd angen i 10% gael anheddau ag un ystafell wely.

3.2.7 Yn ôl Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr 2022[24], bydd y gofynion llety ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn (fel y'u hamlygir yn yr Asesiad) yn cael eu bodloni trwy ddarparu lleiniau ychwanegol ar safleoedd sydd â chydsyniadau cynllunio perthnasol a/neu ddefnydd cyfreithlon priodol ar gyfer datblygiad o'r fath. Nid oes angen heb ei fodloni am leiniau sy'n golygu bod angen dyrannu tir ychwanegol. Mae'r safle cyfreithlon presennol ar gyfer Siewmyn Teithiol yng Ngorseinon yn cynnwys digon o le ar gyfer unrhyw leiniau ychwanegol sy'n angenrheidiol.

Deiliadaeth

3.2.8 Mae dros 87.3% o bobl yng Ngŵyr yn berchen ar eu cartrefi'n gyfan gwbl neu'n berchen ar ran ohonynt. Credir bod hyn oherwydd bod y bobl sy'n byw yno'n hŷn. Mae Gŵyr, ynghyd â Chyrion Gŵyr, hefyd yn cynnwys y nifer leiaf o anheddau sydd ar gael ar gyfer rhent preifat (a'r prisiau rhent uchaf) a'r nifer leiaf o anheddau rhent cymdeithasol. Mae nifer fawr o fyfyrwyr yn byw yn yr ardal Ganolog, ac mae'r ardal yn cynnwys y gyfradd isaf o berchentyaeth (42.4%), ond y nifer fwyaf o dai rhent preifat.

3.2.9 Mae oddeutu 20,050 o aelwydydd yn y Sir yn byw yn y sector tai rhent cymdeithasol (Cyfrifiad 2021). Mae'r galw am dai cymdeithasol yn uchel o hyd ac mae'r cyflenwad yn annigonol, ond bu cynnydd graddol yn eiddo'r Cyngor sydd ar gael i'w rentu (13,766 o dai'r Cyngor ym mis Mawrth 2024, o gymharu â 13,530 ym mis Mawrth 2020). Mae gan y Cyngor, ar y cyd â Landlord Cymdeithasol Cofrestredig partner, dargedau i ddatblygu 5,000 o unedau tai fforddiadwy newydd yn Abertawe dros gyfnod o 10 mlynedd (1,000 i'w darparu gan y Cyngor trwy'r rhaglen adeiladu uniongyrchol, a 4,000 i'w darparu gan Gymdeithasau Tai).

Tai Amlfeddiannaeth

3.2.10 Amcangyfrifir bod oddeutu 2,000 o dai amlfeddiannaeth yn Abertawe, nad ydynt i gyd wedi'u trwyddedu[25]. Yn yr Ardal Rheoli Tai Amlfeddiannaeth, mae 24.1% o'r holl dai'n dai amlfeddiannaeth, sydd ychydig o dan y trothwy 25%.

---

[24] Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr

[25] https://www.abertawe.gov.uk/cofrestrhmo

Digartrefedd

3.2.11 Yn ystod y 4 blynedd diwethaf, mae nifer y bobl ddigartref yn Abertawe wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, gan gyrraedd brig o ychydig o dan 4,500 yn 2023/24. Mae hyn yn gynnydd 50% yn fras o gymharu â 5 mlynedd yn ôl.

Prisiau Gwerthiannau

3.2.12 Ym mis Mai 2024[26], roedd tai yn y Sir yn gwerthu am £202,116 ar gyfartaledd (o gymharu â £202,940 ym mis Tachwedd 2022, sef y pris cyfartalog uchaf erioed yn y Sir). Mae tueddiadau tymor hir yn dangos bod y pris cyfartalog wedi cynyddu 67% yng Nghyrion Gŵyr a 65% yn yr ardal Ogleddol rhwng 2012 a 2022. Bu'r cynnydd lleiaf yng nghanol y Ddinas a'r ardal o'i hamgylch, sef 36%. Mae'r prisiau cyfartalog uchaf wedi bod yng Ngŵyr yn gyson yn ystod y deng mlynedd diwethaf, o £350,000 yn 2016 i £450,000 yn 2022.

Cysylltiadau ag Awdurdodau Lleol Cyfagos

3.2.13 Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod mwyafrif y bobl (68%) a brynodd dŷ yn y Sir yn 2020 eisoes yn byw yno ac yn symud cartref o fewn y Sir. Roedd pobl yn symud o Gastell-nedd Port Talbot (7%) a Sir Gaerfyrddin (5%) hefyd.

Darparu Tai

3.2.14 Mae Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y CDLl[27] yn dangos faint o anheddau a adeiladwyd fesul blwyddyn yn y Sir ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu (384 yn 2023/24; 363 yn 2022/23; 374 yn 2021/2022; 446 yn 2020/21; a 397 yn 2019/20). Mae mwyafrif y cartrefi newydd wedi cael eu hadeiladu yng ngogledd, gogledd-orllewin a gorllewin y Sir (Papur Dadansoddi'r Cyflenwad Tai, 2024)[28]. Adeiladwyd oddeutu 243 o gartrefi fforddiadwy yn 2023/24, y mae'r mwyafrif ohonynt yn gartrefi rhent cymdeithasol.

3.2.15 Mae'r 'banc tir' ar gyfer tai yn cynnwys safleoedd tai o 10 neu fwy o dai sydd â chaniatâd cynllunio ac nad ydynt wedi cael eu hadeiladu'n llwyr. Ar yr adeg ysgrifennu, nid oedd 5,520 o gartrefi â chaniatâd cynllunio wedi cael eu hadeiladu eto. Yn ogystal, roedd 53 o dai yn aros i'r datblygwr lofnodi cytundebau cyfreithiol cyn y gellid eu hadeiladu. Os ystyrir oedi a datblygwyr nad ydynt yn adeiladu safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio, ystyrir bod cyfanswm y banc tir ar gyfer tai yn 4,947 o anheddau (Papur Dadansoddi'r Cyflenwad Tai, 2024).

Eiddo Gwag Hirdymor

3.2.16 Mae adeiladau sy'n wag am fwy na chwe mis (hirdymor) yn llai tebygol o gael eu dychwelyd i fod yn dai yn gyflym ac nid ydynt ar gael i fodloni anghenion pobl am dai. Roedd 2,052 o eiddo gwag hirdymor yn y sector preifat yn Abertawe yn 2023-24 o gymharu â 2,700 yn 2019.

Hapsafleoedd

3.2.17 Adeiladwyd ychydig yn llai na 2,000 o anheddau newydd (40%) rhwng 2011/12 a 2023/24 ar safleoedd nad oeddent wedi'u dyrannu mewn gwirionedd yn y cynllun datblygu. Ers 2019, adeiladwyd 324 o anheddau newydd ar safleoedd sy'n cynnwys llai na 10 o dai.

---

[26] https://www.swansea.gov.uk/media/15958/Table-13-House-prices/doc/4hTable_13.docx?m=1722953374347

[27] Cyflwyno a monitro cynllunio - Abertawe

[28] Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2023-2038 (CDLl2) - Abertawe

Darpariaeth Dai Amcangyfrifedig yn CDLl2

3.2.18 Mae'r Papur Dadansoddi'r Cyflenwad Tai, 2024, gan y Cyngor yn amcangyfrif y bydd y CDLl yn darparu **9,510** o anheddau newydd yn ystod cyfnod y cynllun, sy'n cyfateb i **634 o anheddau y flwyddyn**. Mae cynnwys lwfans hyblygrwydd 20% yn cynyddu'r ffigur i 11,412 o anheddau (Papur Cefndir Dadansoddi'r Cyflenwad Tai).

Addysg, Cymwysterau a Sgiliau

3.2.19 Rhagfynegir y bydd niferoedd disgyblion ysgol yn lleihau yn y Sir yn y dyfodol, yn unol â'r gyfradd genedigaethau sy'n lleihau. Mae gan wardiau De Cilâ, Gogledd Cilâ[29], Mawr, Mayals a Phennard y nifer leiaf o blant oed ysgol preswyl, ac mae gan Benderi, Llansamlet, Treforys, y Cocyd a Townhill y nifer fwyaf o blant oed ysgol.

3.2.20 Mae mwyafrif y disgyblion ysgolion gwladol yn mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg, ac yna ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion ffydd ac ysgolion anghenion arbennig. Mae'r CDLl presennol yn cynnwys cynlluniau ar gyfer pedair ysgol wladol newydd yn: Garden Village, Penlle'r-gaer, Cefngyfelach a Phontarddulais. Mae'r Cyngor yn bwriadu cynyddu nifer y disgyblion blwyddyn 1 sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg[30] i fwy na 23% erbyn 2032. Ystyrir bod diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd canlynol[31]:

a. Gorseinon/Penlle'r-gaer
b. Sgeti/Dyfnant/Cilâ
c. Townhill/Mayhill/Waun Wen/Plasmarl
ch. St Thomas/Port Tennant.

3.2.21 Mae gan y Sir ddau goleg chweched dosbarth sy'n cynnig addysg ôl-16 a dwy brifysgol. Roedd oddeutu 28,985 o fyfyrwyr (amser llawn a rhan-amser) yn mynd i'r ddwy brifysgol yn 2020/21. Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod oddeutu 22,678 o fyfyrwyr 16 oed neu'n hŷn (17,954 yn 18+ oed) yn byw yn y Sir, a bod dros hanner y myfyrwyr 18 oed a hŷn yn byw yn yr Ardal Marchnad Dai Ganolog.

Lefelau Cymwysterau a Sgiliau

3.2.22 Roedd gan bum deg un y cant o breswylwyr y Sir gymwysterau **Lefel 3 neu uwch** (dwy Safon Uwch neu fwy neu gymwysterau cyfwerth ac uwch), tra bod gan 32.8% o breswylwyr gymwysterau **Lefel 4** neu uwch (e.e., Tystysgrif Genedlaethol Uwch, Diploma Cenedlaethol Uwch, Gradd neu gymwysterau ôl-raddedig), sydd ychydig yn uwch na Chymru (31.5%) ac yn is na Chymru a Lloegr (33.8%). Roedd nifer y bobl â **phrentisiaethau** fel eu cymhwyster uchaf wedi cynyddu oddeutu 3,000 neu 36%. Adroddodd bron un o bob pump o bobl 16 oed a hŷn (18.9% neu 37,300) fod ganddynt **ddim cymwysterau**, ond mae'r ffigur hwn wedi gostwng oddeutu 10,000 (21%) ers Cyfrifiad 2011 (Cyfrifiad 2021).

---

[29] Ers mis Mai 2022, mae'r ddwy yn rhan o ward newydd Dynfant a Chilâ

[30] https://www.swansea.gov.uk/media/1966/Swansea-WESP-2022--2032-final/pdf/diWESP_2022_2032_FINAL.pdf?m=1709890075437

[31] Agenda ar gyfer y Cabinet ddydd Iau, 15 Chwefror 2024, 10.00 am - Abertawe

**Materion Allweddol, sylwadau, nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni a'r dyfodol tebygol heb CDLl2**

| Mater allweddol (a amlygwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AIG) | Nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni | Heb CDLl2 |
|---|---|---|
| Amlygu'r data diweddaraf a mwyaf cywir am amcanestyniadau demograffig a newidiadau i'r boblogaeth (e.e. cyfraddau genedigaethau sy'n gostwng, gostyngiad yn y boblogaeth 0-5 a 15-29 oed, a phoblogaeth sy'n heneiddio) a rhagolygon economaidd ar gyfer y dyfodol, a fydd, ynghyd â thystiolaeth arall berthnasol, yn llywio nifer y bobl, cartrefi a swyddi y bydd angen cynllunio ar eu cyfer yn CDLl2.<br>Ymateb i'r angen am dai ledled y Sir a amlygwyd trwy Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wedi'i ddiweddaru.<br>Helpu i gyrraedd targed y Cyngor o ddarparu 5,000 o gartrefi fforddiadwy rhwng 2021 a 2031, gan gynnwys 1,000 o dai Cyngor newydd yn rhan o'r Rhaglen Mwy o Gartrefi. | Rhanbarthol a ledled y sir | Heb CDLl2, bydd yn anodd sicrhau bod anghenion tai poblogaeth y Sir yn cael eu bodloni o ran mathau o dai a lleoliadau angen, fel y dangoswyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, y Rhaglen Mwy o Gartrefi a rhagolygon diweddaraf y boblogaeth. Bydd hyn yn effeithio ar faterion cydraddoldeb ac iechyd a lles, e.e. mae'n bosibl y bydd gan boblogaeth y Sir sy'n heneiddio wahanol anghenion tai ac ystyriaethau creu lleoedd. Fe allai datblygiad tai heb ei gydlynu roi pwysau ar addysg a gwasanaethau gofal iechyd ac ni fydd datblygiadau'n gallu cyflawni amcanion creu lleoedd, e.e., gan nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan gyfleusterau cymunedol a darpariaeth cyflogaeth, manwerthu a masnachol digonol.<br>Bydd Strategaeth Tai a Chyflogaeth integredig yn sicrhau bod twf yn gynaliadwy, h.y. bydd sicrhau bod tai a chyflogaeth yn cyd-fynd yn fras yn sicrhau bod anghenion cyflogaeth a thai yn cael eu bodloni heb fod angen cymudo allan mewn modd anghynaliadwy. |
| Amlygu a monitro crynodiadau tai amlfeddiannaeth a chynhyrchu fframwaith polisi priodol | Mewn ardaloedd o'r Sir yr amlygwyd bod ganddynt grynodiadau uchel o dai amlfeddiannaeth. | Mae'r ardaloedd lle y ceir crynodiad o dai amlfeddiannaeth wedi'u diffinio ym mholisi'r CDLl. Nid yw CDLl a thystiolaeth sylfaenol sydd wedi dod i ben yn caniatáu ar gyfer diweddaru'r polisi cynllunio lleol i fynd i'r afael â materion presennol yn ymwneud â thai amlfeddiannaeth. |
| Adolygu'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd ynglŷn ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn erbyn y cyflenwad a chynhyrchu fframwaith polisi priodol | Ledled y sir | Ni fydd CDLl sydd wedi dod i ben yn caniatáu ar gyfer diweddaru'r cyd-destun polisi cynllunio lleol i sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â'r angen diweddaraf y mae tystiolaeth ohono. |

| | | |
|---|---|---|
| Coladu ac adolygu tystiolaeth ynglŷn ag unrhyw faterion a achosir gan lety gwyliau/ail gartrefi/llety gosod tymor byr a chynhyrchu fframwaith polisi priodol | | Mae nifer yr anheddau preswyl sy'n cael eu defnyddio fel llety gwyliau tymor byr yn hytrach nag anheddau preswyl parhaol wedi cynyddu'n sylweddol ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, ac ni fydd effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach yn derbyn sylw heb fframwaith polisi lleol priodol wedi'i ddiweddaru sy'n mynd i'r afael â materion presennol. |
| **Sylwadau cyffredinol:**<br>Mae'r senario waelodlin yn debygol o waethygu o'i hystyried yn erbyn amcanion yr AIG.<br><br>Heb fframwaith cynllunio i osod targedau ar gyfer tai newydd, sy'n ystyried rhagolygon twf a newidiadau demograffig, mae'n bosibl na fydd y system gynllunio'n gallu bodloni anghenion tymor hir poblogaeth y Sir ac fe allai gynyddu nifer y bobl sy'n cymudo i'r sir ar gyfer gwaith o awdurdodau cyfagos. Ni fydd cyflenwad annigonol o dai i bobl hŷn neu dai fforddiadwy yn bodloni'r galw presennol am dai a bydd yn gwaethygu'r sefyllfa tymor hir oherwydd bydd llai o bobl yn gallu bodloni eu hanghenion tai. Os na fydd penderfyniadau strategol yn cael eu gwneud am ddarpariaeth addysg, fe allai fod pwysau tymor byr ar ysgolion, gan gynyddu'r angen i gludo disgyblion ac felly pwysau ar rwydweithiau priffyrdd ac adnoddau ariannol ac analluï i fodloni anghenion plant. Mae mynediad at dai a chyflogaeth yn allweddol i iechyd a lles pobl, ac os na eir i'r afael â'r materion, bydd tueddiadau tymor hir o ran allgáu cymdeithasol ac anghydraddoldeb, iechyd a lles yn parhau. | | |

## 3.3 YR ECONOMI (Crynodeb a Diweddariad ers mis Ebrill 2024)

3.3.1 Mae Cymru'r Dyfodol yn amlygu Ardal Dwf Genedlaethol 'Bae Abertawe a Llanelli' fel y canolbwynt rhanbarthol ar gyfer twf economaidd a thai strategol; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; trafnidiaeth; seilwaith digidol; a buddsoddi. Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn ceisio annog hyd at £1.3 biliwn o fuddsoddiad a chreu dros 9,000 o swyddi yn y rhanbarth. Mae Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru 2022 yn amcangyfrif y bydd yn arwain at 16,000 o swyddi net ychwanegol, gan gynyddu gwerth ychwanegol gros bron £1.6 biliwn hyd at 2035. Mae gan y Sir berthynas economaidd gref ag awdurdodau lleol cyfagos, ac mae traean o'r bobl sy'n gweithio yn y Sir yn cymudo i mewn, o Gastell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin yn bennaf. Mae'r patrwm cymudo hwn yn dylanwadu ar y farchnad dai, ac mae'n gysylltiedig hefyd â phynciau ansawdd aer, y newid yn yr hinsawdd a seilwaith.

3.3.2 Mae Abertawe'n ganolfan wasanaeth ranbarthol, ac mae cyfrannau uwch (na Chymru a'r Deyrnas Unedig) o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector gwasanaeth. O'r 110,000 o bobl a oedd yn cael eu cyflogi yn y Sir yn 2022, roedd 89.1% (98,000) yn gweithio yn y sectorau gwasanaeth ac o'r rheiny, roedd 29.5% (32,400) yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Mae gan y Sir weithlu a phoblogaeth gwledig hefyd a chynyddodd nifer y busnesau fferm yn y Sir rhwng 2011 a 2017, yn enwedig ffermydd dofednod arbenigol a mathau 'eraill' o ffermydd.

Mae'r economi ymwelwyr yn elfen allweddol o economi'r Sir o hyd. Ymwelodd 4.7 miliwn o bobl â Bae Abertawe yn 2023 gan arwain at effaith economaidd o £609miliwn a chefnogi 5,470 o swyddi[32]. Amlygwyd bod angen o leiaf 3 gwesty newydd yn ardaloedd Canol y Ddinas, y Gwaith Copr ac SA1 erbyn 2026[33]. Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr anheddau a ddefnyddir fel llety gwyliau tymor byr, yn enwedig yng Ngŵyr, y Mwmbwls a'r Marina. Trwy gyd-ddigwyddiad, mae gan Orllewin Abertawe a Gŵyr y prisiau tai uchaf yn y Sir, gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn prisiau tai yno yn y blynyddoedd diwethaf ac nid oes digon o dai fforddiadwy yno. Mae'n rhaid ystyried yr effaith gronnol ar y dirwedd yn sgil cynyddu nifer yr unedau llety gwyliau tymor byr sy'n cael eu hadeiladu'n bwrpasol, yn enwedig o fewn Ardal Tirwedd Naturiol Eithriadol Gŵyr.

3.3.3 Roedd oddeutu 23.7% o boblogaeth y Sir yn economaidd anweithgar ym mis Mawrth 2023, sef 17.7% yn fwy nag ym mis Mawrth 2023. Roedd y ffigur diweithdra'n is ym mis Mawrth 2024 na mis Mawrth 2023, ac roedd gan wardiau Townhill, y Castell, Penderi a Glandŵr ffigurau hawlwyr diweithdra sylweddol uwch na chyfartaledd Abertawe, tra bod gan Mayals y gyfradd isaf. Mae'n nodedig bod Townhill, Penderi a'r Castell i gyd yn cynnwys Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd wedi'u dosbarthu ymhlith y mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae oddeutu 76.3% o bobl yn economaidd anweithgar, ond mae hyn 4% yn llai nag ym mis Mawrth 2023.

3.3.4 Cyflog blynyddol amser llawn canolrifol pobl yn Abertawe ym mis Mawrth 2023 oedd £32,734 a gwerth ychwanegol gros amcangyfrifedig y Sir yn 2022 oedd oddeutu £5,800 miliwn, sef £23,929 y pen (3.5% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol), sy'n uwch na'r ffigur y pen ar gyfer Cymru (£23,804) ond yn is na ffigur y Deyrnas Unedig (£32,996).[34]

3.3.5 Mae Adroddiad Asesiad Twf Economaidd a Thai CDLl2, 2024[35], yn amlinellu ystod o senarios twf a arweinir gan ddemograffeg a swyddi a aseswyd i lywio'r lefelau twf dewisedig yn y Strategaeth a Ffefrir, sy'n amrywio o 7875 o swyddi newydd i 10238 o swyddi newydd rhwng 2023 a 2038. Mae'r ystod o opsiynau twf yn creu ystod bosibl o ofynion am dir ychwanegol ar gyfer cyflogaeth o rhwng 11 a 25ha o fewn CDLl2 er mwyn cynnal y swyddi newydd sy'n dibynnu ar y lefel dwf a geisir. Disgwylir swyddi newydd yn y sectorau cyllid a busnes tra bydd gweithgynhyrchu'n parhau i leihau.

**Materion Allweddol, sylwadau, nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni a'r dyfodol tebygol heb CDLl2**

| Mater allweddol (a amlygwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AIG) | Nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni | Heb CDLl2 |
|---|---|---|
| Helpu i gynyddu buddion economaidd-gymdeithasol a | Rhanbarthol a ledled y sir | Mae Cymru'r Dyfodol yn amlinellu'r Ardal Dwf |

[32] Ymchwil i dwristiaeth ac ystadegau - Abertawe
[33] https://www.swansea.gov.uk/media/16508/Swansea-Hotel-Demand-Study---Executive-Summary/pdf/d3Swansea_Hotel_Study_2023_-_Executive_Summary.pdf?m=1710329174573
[34] https://www.swansea.gov.uk/media/3294/Swansea-Economic-Profile-January-2024/pdf/75Swansea_Economic_Profile_January_2024.pdf?m=1707124546403
[35] Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2023-2038 (CDLl2) - Abertawe

| | | |
|---|---|---|
| photensial Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli a'r Fargen Ddinesig i'r eithaf. | | Genedlaethol, ond mae angen gweledigaeth leol ar gyfer pob dinas a/neu dref a gefnogir gan fframwaith gofodol sy'n arwain twf ac adfywio. Heb CDLl2, ni fydd hyn yn cael ei gyflawni. |
| Hwyluso adfywio Ardal Ganolog Abertawe ar y cyd â phartneriaid datblygu, gan ganolbwyntio ar ddarparu safleoedd allweddol. | Ardal Ganolog Abertawe, canolfannau rhanbarthol a lleol ledled y Sir a buddion ehangach ledled y Sir | Bydd rhaid i ddatblygiadau hamdden a manwerthu yn y dyfodol gydymffurfio â dull Canol Trefi yn Gyntaf Cymru'r Dyfodol a defnyddio profion dilyniannol, ond byddai diffyg strategaeth leol a chydlyniad heb CDLl2. Ni fyddai datblygiadau'n cael eu llywio gan sylfaen dystiolaeth gyfredol o ran canolfannau trefol, rhanbarthol a lleol. |
| Deall tueddiadau manwerthu ac effeithiau a brofir gan ganolfannau manwerthu yn y Sir a hwyluso prosiectau adfywio a mesurau eraill i gefnogi eu bywiogrwydd a'u hyfywedd yn y dyfodol. | | |
| Mae gan Abertawe gyfran gymharol uchel o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Cefnogi twf economaidd a chyfleoedd cyflogaeth, a mesurau i fynd i'r afael ag amddifadedd a mynediad anghyfartal at gyflogaeth, addysg a hyfforddiant. | Pwyslais rhanbarthol, ledled y sir a lleol. | Ni fydd y CDLl yn cael ei lywio gan astudiaeth gyfredol o dir ar gyfer cyflogaeth na strategaethau adfywio rhanbarthol a lleol cysylltiedig. Mae tystiolaeth ategol ar gyfer Strategaeth a Ffefrir CDLl2 yn cyfiawnhau'r angen am oddeutu 25.2ha o dir ychwanegol ar gyfer cyflogaeth er mwyn cynnal y twf amcangyfrifedig mewn cyflogaeth.<br><br>Bydd cynllun gofodol wedi'i gydlynu yn helpu i hwyluso'r newid i economi carbon isel, gan ddarparu fframwaith ar gyfer cynhyrchu ynni, storio a seilwaith cyflenwi. |
| Sicrhau cyflenwad digonol o safleoedd ac adeiladau masnachol a diwydiannol deniadol sy'n addas i'r diben ledled Abertawe i annog busnesau i fuddsoddi a darparu cyfleoedd i dyfu'r sylfaen fusnes trwy gyfleoedd cyflogaeth newydd o ansawdd da. Bydd angen deall yr angen a'r galw am dir masnachol (defnyddiau B), gan gynnwys y dystiolaeth a'r tueddiadau diweddaraf sy'n dylanwadu ar y gofyniad am dir ar gyfer defnyddiau o'r fath, e.e. y cynnydd mewn gweithio gartref. | | |
| Mae cyfran uchel o breswylwyr yn gweithio yn y sector gwasanaeth a'r sector cyhoeddus. Cefnogi twf y sectorau cyflogaeth â blaenoriaeth a amlygwyd. | | |

<table>
<tr><td>Y gydberthynas rhwng ansawdd yr amgylchedd naturiol (yn enwedig y dirwedd a thraethau) a'r atyniad i ymwelwyr.</td><td rowspan="3">Ledled y sir</td><td rowspan="3">Mae'n rhaid ystyried y gydberthynas rhwng yr economi ymwelwyr a harddwch naturiol y Sir trwy gynllunio defnydd tir gofodol, sy'n gallu ystyried effeithiau cronnol a materion ehangach sy'n gysylltiedig â'r economi ymwelwyr, gan gynnwys a oes unrhyw effaith ar y farchnad dai.<br><br>Bydd y strategaethau twristiaeth diweddaraf yn llywio CDLl2.</td></tr>
<tr><td>Pwysigrwydd cerdded, beicio a gweithgareddau eraill yn rhan o'r economi ymwelwyr a'r gydberthynas â llwybrau teithio llesol, iechyd a lles a seilwaith gwyrdd.</td></tr>
<tr><td>Coladu ac adolygu tystiolaeth ynglŷn ag unrhyw faterion a achosir gan lety gwyliau, e.e. yn AHNE Gŵyr. Coladu ac adolygu tystiolaeth ynglŷn â defnyddio eiddo fel llety gosod tymor byr (e.e. Airbnb) sy'n ychwanegu at y pwysau ar y farchnad rent tymor hir a diffyg eiddo sydd ar gael i breswylwyr lleol.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Sylwadau Cyffredinol:<br>Heb CDLl2, fe allai'r senario waelodlin waethygu o'i hystyried yn erbyn amcanion yr AIG, er y bydd yr Ardal Dwf Genedlaethol yng Nghymru'r Dyfodol a'r Fargen Ddinesig yn dylanwadu ar gyfleoedd datblygu rhanbarthol a lleol.<br>Fe allai datblygiadau gael effaith tymor byr ar fioamrywiaeth a buddion tymor hir os ymgorfforir mesurau lliniaru effeithiol. Effeithiau posibl o ran sterileiddio adnoddau pridd yn barhaol os bydd datblygiad newydd yn cael ei leoli ar safleoedd maes glas. Cynnydd tymor canolig a thymor hir yn nifer y swyddi yn y Sir, gan gynyddu ffyniant a buddion economaidd-gymdeithasol. Yn dibynnu ar y math o ddiwydiannau a ddenir, fe allai fod yn bosibl cefnogi'r newid tymor hir i economi carbon isel.</td></tr>
</table>

## 3.4 IECHYD (YN CYNNWYS AER) (Crynodeb a Diweddariad ers mis Ebrill 2024)

3.4.1 Mae cyflawni iechyd a lles da, sydd wedi'i ymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a gwella iechyd yn un o amcanion Cymru'r Dyfodol ac un o themâu Datganiad Ardal De-orllewin Cymru CNC. Llofnododd y Cyngor Ddatganiad Dulyn ynghylch "Dinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar" yn 2014, gan addo i '*ddatblygu mannau cyhoeddus diogel a chynhwysol, tai o'r ansawdd uchaf, cymunedau i bobl o bob oedran, trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael ac yn fforddiadwy, ac ati'.*

3.4.2 Mae'r Sir o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac mae ei Strategaeth Iechyd y Boblogaeth ar gyfer Bae Abertawe[36] yn ceisio lleihau anghydraddoldeb, creu mannau a chymunedau cynaliadwy iach a chydnabod y cysylltiad rhwng polisïau cynllunio ac iechyd. Un o'r nodau datganedig yw '*creu cymunedau iach a chynaliadwy trwy greu lleoedd*'.

[36] https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/board-papers/board-papers-march-2023/32-appendix-1-population-health-strategypdf/#:~:text=The%20Strategy%20will%20set%20out,causes'%20of%20ill%2Dhealth.

3.4.3 Mae 4 ysbyty yn y Sir ac mae'r CDLl presennol yn cynnwys polisïau penodol yn ymwneud â safleoedd ysbytai Treforys a Chefn Coed. Mae 5 Clwstwr Iechyd yn y Sir, y mae gan bob un ohonynt ystod o feddygfeydd, deintyddion, optometryddion, fferyllwyr cymunedol, a chartrefi gofal. Mae'r Bwrdd Iechyd yn creu y gall fferyllfeydd presennol fodloni'r cynnydd amcangyfrifedig yn y boblogaeth a amlinellir yn y CDLl presennol[37].

3.4.5 Mae gan oddeutu 47% o boblogaeth y Sir '**iechyd da** iawn' ac mae gan 30.9% 'iechyd da' (Cyfrifiad 2021). Fodd bynnag, mae gan 7.3% (17,500 o bobl) **iechyd gwael** neu wael iawn, sy'n uwch na Chymru (6.9%) a Chymru a Lloegr (5.2%). Cyfran y **bobl anabl** (a ddiffinnir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb) oedd 22.4% (53,500), sy'n uwch na Chymru (21.6%) a Chymru a Lloegr (17.5%)[38]. Mae iechyd a lles plant oed ysgol gynradd wedi dirywio rhwng 2014 a 2022[39], gan gynnwys iechyd corfforol, arferion deietegol, cynnydd mewn unigrwydd a phroblemau iechyd meddwl. Mae angen i gyrhaeddiad addysgol gael ei ystyried yng nghyd-destun iechyd a lles[40].

3.4.6 Mae troseddu a diogelwch yn effeithio ar les pobl. Rhwng mis Mai 2020 a mis Mehefin 2021, roedd 18,240 o droseddau cofnodedig yn Abertawe, sef 1,101 yn llai (-5.7%) na'r 12 mis blaenorol. Roedd y cynnydd mwyaf (dros +10%) yn y categorïau meddu ar gyffuriau a throseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus[41].

3.4.7 Mae'r Sir yn cynnwys sawl Ardal Dawel ddynodedig[42] – mannau llonydd o fewn ardaloedd trefol yr ystyrir bod y gymuned leol yn eu gwerthfawrogi.

3.4.8 Datganodd y Sir Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) yn 2001 ac fe'i hadolygwyd yn 2010 o ganlyniad i ormodiant o ran y safon ansawdd aer gymedrig flynyddol ar gyfer nitrogen deuocsid. Mae pob rhan o'r ARhAA yn cydymffurfio bellach ac ni fu gormodiant o ran safonau ansawdd aer yn y Sir yn 2023[43]. Mae CNC wedi amlygu'r Castell, Townhill, Glandŵr, Penderi a Threforys fel ardaloedd lle y ceir y galw mwyaf am ymyriadau mannau gwyrdd i leihau llygredd aer yn y Sir.[44]

3.4.9 Mae Ardal Tirwedd Naturiol Eithriadol Gŵyr yn Gymuned Awyr Dywyll Ryngwladol ddynodedig[45]. Ers 2019, mae llygredd golau wedi bod yn cynyddu ar hyd arfordir Gŵyr (Bae Breichled tua'r gorllewin). Un o'r achosion yw goleuadau a ddyluniwyd yn wael o fewn ac o amgylch datblygiadau a gollyngiad golau o ddatblygiadau newydd.

3.4.10 O ganlyniad i hanes hir yr ardal o fwyngloddio a chwarela, mae gan rai rhannau o'r Sir weithfeydd tanddaear hanesyddol a phentyrrau sborion ar yr wyneb. Ceir un ardal slip ddiffiniedig yn unig, sydd wedi'i lleoli yng Ngraig Trewyddfa.

---

[37] https://sbuhb.nhs.wales/files/pna-documents/sbuhb-pna-final-0-3-pdf/
[38] Cyfrifiad 2021: nodweddion poblogaeth - Abertawe
[39]Gan ddefnyddio data o arolygon blynyddol HAPPEN-Cymru https://happen-wales.co.uk/
[40] https://popdatasci.swan.ac.uk/cy/centres-of-excellence/ncphwr/
[41] Asesiad o Les Lleol Abertawe 2022
[42] Cynlluniau Gweithredu ynghylch Sŵn Amgylcheddol a Mannau Tawel - Abertawe
[43] https://www.swansea.gov.uk/media/15782/Progress-report-2023/pdf/foSwansea_Council_2023_APR_v3.0.pdf?m=1705915908787
[44] Gwybodaeth ar gyfer Atebion seiliedig ar Natur elsh Information for Nature-based Solutions (WINS)
[45] Awyr dywyll hudol Gŵyr yn derbyn canmoliaeth ryngwladol - Abertawe

**<u>Materion Allweddol, sylwadau, nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni a'r dyfodol tebygol heb CDLl2</u>**

| Mater allweddol (a amlygwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AIG) | Nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni | Heb CDLl2 |
|---|---|---|
| Hyrwyddo dull Creu Lleoedd sy'n golygu y gellir lleoli datblygiadau newydd yn gynaliadwy gyda mynediad at ystod o wasanaethau trwy ddulliau teithio llesol, gan leihau'r angen i deithio mewn ceir preifat, ac annog cymdogaethau cynaliadwy. | Ledled y sir | Mae iechyd yn brif elfen sydd wedi'i hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hyn yn rhoi pwyslais ar ddefnyddio dull cyfannol, tymor hir a chydweithredol o gyflawni lles trwy greu lleoedd, ac mae gwella iechyd yn un o amcanion Cymru'r Dyfodol. Bydd rhaid i ddatblygiad gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol yn ymwneud ag ansawdd aer, seinweddau, sŵn a llygredd golau, hyd yn oed heb CDLl2.<br><br>Heb gynllun datblygu statudol cyfredol, ni ellir integreiddio'r dystiolaeth a'r asesiadau diweddaraf i bolisïau a strategaethau'r cynllun datblygu. Bydd CDLl2 yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Iechyd a chyrff statudol eraill i sicrhau bod iechyd a lles yn cael ei integreiddio'n llwyr drwyddo draw ac yn mynd i'r afael â materion ar lefel leol, fel dinasoedd sy'n ystyriol o ddementia.<br><br>Bydd gan CCAau mabwysiedig yn ymwneud â Chreu Lleoedd lai o bwys o dan gynllun datblygu sydd wedi dod i ben. |
| Integreiddio iechyd a lles drwy gydol polisïau perthnasol. | | |
| Mae gan y Sir boblogaeth sy'n heneiddio, felly mae angen ystyried hyn wrth ddatblygu polisïau a strategaethau yn y dyfodol. | | |
| Ymgynghori â'r Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy gydol y broses o baratoi CDLl2. | | |
| Gwarchod a gwella cyfleusterau cymunedol gwerthfawr i hybu lles cymunedol-gymdeithasol. | | |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o seinwedd a llonyddwch ar gyfer iechyd a lles. | Ledled y sir, gan gynnwys canol y ddinas ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr yn benodol | Bydd rhaid i ddatblygiad gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol o ran ansawdd aer, seinweddau, sŵn a llygredd golau, hyd yn oed heb CDLl2. Fodd bynnag, ni fydd tystiolaeth, TANau newydd a pholisïau yn cael eu hintegreiddio i gynllun datblygu statudol newydd ar lefel leol. |
| Helpu i leihau llygredd golau, er mwyn awyr dywyll, llonyddwch, ecoleg ac iechyd a lles, yn enwedig yn AHNE | | |

| | | |
|---|---|---|
| Gŵyr, ac yn enwedig o ran gollyngiad golau o ddatblygiad newydd. | | Ni fydd egwyddorion a pholisïau Creu Lleoedd a Dylunio lleol yn gallu canolbwyntio'n uniongyrchol ar seinweddau ac effaith llygredd golau ar lonyddwch ac iechyd a lles. |
| Cynyddu ymyriadau seilwaith gwyrdd i helpu i liniaru llygredd aer; sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn diraddio ansawdd aer yn sylweddol, a lleihau derbynyddion sensitif newydd a gyflwynir heb fesurau lliniaru mewn ardaloedd lle mae ansawdd aer eisoes yn wael. | | Bydd rhaid i ddatblygiad gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol yn ymwneud ag ansawdd aer, hyd yn oed heb CDLl2. Mae datblygiad o fewn ARhAA y Sir yn cael ei reoli. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ddatblygiad gael ei ystyried mewn perthynas â'r effaith ar ansawdd aer. Fodd bynnag, gall CDLl2 helpu i gydlynu datblygiad, hyrwyddo strategaeth twf cynaliadwy sy'n lleihau dibyniaeth ar geir preifat ac yn annog newid dulliau teithio, ac ystyried effeithiau cronnol datblygiad.<br><br>Bydd rhaid i ddatblygiad gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol yn ymwneud ag ansawdd dŵr, hyd yn oed heb CDLl2. Gall datblygiad a pholisïau lleol gael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar ddyfroedd wyneb a daear, gan sicrhau bod effeithiau posibl ar ardaloedd penodol ac ehangach, yn ogystal ag effeithiau cronnol, yn cael eu hystyried. |
| Helpu i leihau allyriadau llygryddion aer a nifer y bobl sy'n dderbynyddion i'r eithaf. | Ledled y sir a'r ARhAA | |
| Deall unrhyw ardaloedd o dir ansefydlog wrth ystyried defnydd o ardaloedd yn y dyfodol | Ardaloedd penodol o dir ansefydlog | Bydd CDLl2 yn dangos yr ardal fel cyfyngiad. |
| Helpu i dargedu adnoddau i fynd i'r afael â diffygion mewn mannau gwyrdd. | | Heb CDLl2, byddai gan gysylltiadau â sylfaen dystiolaeth ac asesiad seilwaith gwyrdd yn y dyfodol lai o bwys ac mae'n bosibl na fyddai effeithiau cronnol ac ar y cyd polisïau a datblygiadau'n cael eu hystyried. |

**Sylwadau Cyffredinol:**
Mae iechyd yn brif elfen sydd wedi'i hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n rhoi pwyslais ar ddefnyddio dull cyfannol, tymor hir a chydweithredol o gyflawni lles trwy greu lleoedd, ac mae gwella iechyd yn un o amcanion Cymru'r Dyfodol. Er y bydd rhaid i ddatblygiad gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol hyd yn oed heb CDLl2, fe allai'r senario waelodlin waethygu yn y tymor hir o'i hystyried yn erbyn amcanion yr AIG.

Fe allai diffyg cynllun datblygu lleol statudol arwain at ddatblygiadau heb eu cydlynu, nad ydynt yn ystyried goblygiadau iechyd a lles ehangach neu gronnol datblygiad, fel y gydberthynas rhwng iechyd a lles a darparu seilwaith gwyrdd, mannau gwyrdd hygyrch, ardaloedd chwarae, cysylltiad

â natur, llwybrau teithio llesol ac yn y blaen, a fydd yn arwain at fuddion uniongyrchol i breswylwyr yn ogystal â buddion iechyd a lles tymor hir. Ni wyddys lleoliad datblygiad newydd eto, ond mae'n bosibl y bydd ansawdd aer yn parhau i wella o ganlyniad i'r newid i gerbydau trydan a dulliau eraill o drafnidiaeth a datgarboneiddio'r sectorau ynni a thai.

## 3.5 **DŴR** (Crynodeb a diweddariadau ers mis Ebrill 2024)

3.5.1 Mae'r Sir o fewn Basn Afon Gorllewin Cymru a Dalgylch Cyfle Bae Abertawe. Mae cyrff dŵr o fudd i'r amgylchedd ac i iechyd a lles, a gall ardaloedd o lystyfiant wrth ymyl afonydd a nentydd hidlo llygryddion, lleihau erydu a darparu cysgod i ostwng tymheredd dŵr. Mae natur mewn nentydd ac afonydd trefol yn gwella ansawdd dŵr a chynyddu bioamrywiaeth.

3.5.2 Mae cymharu dosbarthiad statws cyrff dŵr wyneb a daear (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) o 2015 a 2021 yn dangos bod statws un corff dŵr, sef 'blaenddyfroedd i derfynau llanw Afon Llan', wedi dirywio o dda i gymedrol. Roedd cyrff dŵr eraill wedi aros yr un fath.[46]

3.5.3 Mae Dŵr Cymru yn rhagfynegi y bydd dŵr dros ben rhwng 2020 a 2050 ar gyfer parth adnoddau dŵr De-orllewin Cymru, yn seiliedig ar dwf a amlinellir yn CDLlau cyfredol y rhanbarth. Ystyrir bod y parth hefyd yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau sychder eithafol (digwyddiad sychder 1 mewn 200 mlynedd)[47] o ganlyniad i'r adnodd sydd ar gael yn Llyn Brianne. Mae Dŵr Cymru yn bwriadu defnyddio natur i leihau perygl llifogydd a llygredd yn y Sir[48].

3.5.4 Mae mwyafrif y pibellau carthffos yn y Sir (ac yng Nghymru) yn 'garthffosydd cyfun' (sy'n golygu bod dŵr gwastraff (toiledau, sinciau, cawodydd, baddonau ac ati) a dŵr glaw glân o ffyrdd, lloriau caled, toeon ac ati yn mynd i mewn i'r un bibell garthffos). Gall glaw trwm achosi i ormod o ddŵr fynd i mewn i'r bibell garthffos, gan arwain at lifogydd posibl oni bai y caniateir iddo ollwng i rywle arall. Mae gorlifoedd storm (y cyfeirir atynt yn aml fel Gorlifoedd Carthffosydd Cyfun) yn gweithredu fel falfiau gorlif i leihau'r perygl y bydd carthion yn cronni yn ystod glawiad trwm. Mae'n bosibl bod nifer gynyddol o orlifoedd o garthffosydd cyfun yn effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi, ond datganwyd bod dyfroedd ymdrochi diffiniedig Baeau Breichled, Caswell, Langland, Oxwich, Port Einon a Rhosili yn 'rhagorol' yn 2023 a 2022; a datganwyd bod Baeau Limeslade ac Abertawe yn dda yn 2023 a 2022. Mae Gŵyr yn cynnwys ardal tynnu dŵr yfed fawr, sy'n Barth Gwarchod Ffynhonnell dynodedig er mwyn gwarchod ansawdd dŵr yfed ac atal gweithgareddau sy'n effeithio ar dynnu dŵr.

[46] Dosbarthiad Cylch 3 Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr | MapDataCymru
[47] Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol 2019 Dŵr Cymru (2019)
[48] 'Dŵr Cymru 2050: Adolygiad a Diweddariad'

**Materion Allweddol, sylwadau, nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni a'r dyfodol tebygol heb CDLl2**

<table>
<tr><th>Mater allweddol (a amlygwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AIG)</th><th>Nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni</th><th>Heb CDLl2</th></tr>
<tr><td>Mae'r cyflenwad dŵr yn fwy na'r galw, felly ni ragwelir unrhyw broblemau yn ymwneud â chynnydd yn y boblogaeth a'r galw am ddŵr gan ddiwydiant.</td><td rowspan="4">Ledled y sir</td><td>Mae hyn yn annhebygol o newid o ganlyniad i ddylanwad CDLl2 gan fod cyflenwad digonol o ddŵr yn bodoli.</td></tr>
<tr><td>Helpu i sicrhau bod datblygiad newydd yn cael ei wasanaethu gan y rhwydwaith carthffosiaeth a chyflenwi dŵr presennol neu y gellir ei gysylltu â'r rhwydwaith.</td><td rowspan="3">Mae'n rhaid cydymffurfio â rheoliadau sy'n ymwneud â seilwaith dŵr a charthffosiaeth, ansawdd dŵr, perygl llifogydd a SuDS. Fodd bynnag, gall y cynllun datblygu ddarparu dull cydlynol gyda chwmnïau dŵr i sicrhau bod seilwaith ar gyfer datblygiadau newydd yn gallu cael ei ystyried yn eu blaenraglenni a helpu i atal gollyngiadau i amgylcheddau dŵr croyw a morol, gan gynnwys dyfroedd ymdrochi.<br><br>Heb CDLl2, fe allai fod diffyg cydlynu strategol rhwng datblygwyr a darparwyr cyfleustodau. Fe allai hyn arwain at oedi wrth gyflwyno datblygiadau ac effeithiau posibl ar ansawdd dŵr.</td></tr>
<tr><td>Helpu i leihau a, lle y bo'n bosibl, dileu llygredd amgylcheddol i amgylchoedd dŵr croyw a morol (yn unol â dylanwad y system cynllunio defnydd tir).</td></tr>
<tr><td>Helpu i sicrhau bod y seilwaith a'r cyflenwad dŵr yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd; a helpu i wella ansawdd dŵr ymdrochi, ansawdd cyrff dŵr daear a dŵr wyneb, ac ansawdd afonydd.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Sylw Cyffredinol: Fe allai'r senario waelodlin waethygu o'i hystyried yn erbyn amcanion yr AIG, yn enwedig o ran seilwaith carthffosiaeth a dŵr wyneb.</td></tr>
</table>

## 3.6 FFACTORAU HINSODDOL (Crynodeb a diweddariadau ers mis Ebrill 2024)

3.6.1 Datganodd Cyngor Abertawe Argyfwng Hinsawdd yn 2019 ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030[49] ac yn Sir sero net erbyn 2050[50][51]. Mae hyn yn ategu'r amcan o gyflawni system ynni sero net erbyn 2050 a amlinellir yn Strategaeth Ynni Ranbarthol 2022[52]. Mae'r Cyngor yn awyddus i greu canolfan ynni a morlyn llanw ym Mae

[49] Siarter Newid yn yr Hinsawdd Cyngor Abertawe - Abertawe
[50] Newid yn yr hinsawdd ac adfer antur - Abertawe
[51] Cynllun Ynni Ardal Leol Abertawe 2024
[52] Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru

Abertawe (Prosiect Blue Eden) ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod manteision i Borthladd a Dociau Abertawe yn sgil cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel[53].

3.6.2 Mae'r allyriadau nwyon tŷ gwydr cyfan a fesul pen o'r boblogaeth yn y Sir wedi bod yn lleihau ers 2005 (cyfanswm o 2,214.2 a 9.6tCO2e yn 2015 i gyfanswm o 1,179.9 a 5.0tCO2e yn 2021). Y sector trafnidiaeth sy'n cynhyrchu'r allyriadau nwyon tŷ gwydr mwyaf, ac yna'r sector domestig. Mae'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yn asesu perfformiad ynni anheddau (ystyrir bod perfformiad ynni digonol yn SAP 65 neu uwch). Y sgôr SAP gyfartalog ar gyfer anheddau Cyngor Abertawe oedd 69 (band C) ac mae 100% o eiddo wedi cyrraedd y lefel hon (sy'n bodloni dangosydd cenedlaethol Llywodraeth Cymru).

3.6.3 Amcan cyffredinol Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru, 2022[54], yw system ynni ranbarthol sero net erbyn 2050 a bod y rhanbarth yn cynhyrchu'r hyn sy'n cyfateb i 147% o'r trydan y mae'n ei ddefnyddio o ynni adnewyddadwy erbyn 2035. Mae Cynllun Gweithredu Ardal Leol Abertawe 2024[55] yn amlygu newidiadau sy'n ofynnol i'r system ynni leol a'r amgylchedd adeiledig i gyflawni system ynni sero net erbyn 2050. Mae mwy o ynni a gwres carbon isel yn cael eu cynhyrchu yn y Sir (mae'r trydan a gynhyrchir wedi cynyddu o 14,733MWhe yn 2012 i 140,827MWhe yn 2020). Mae'r Sir yn cynnwys rhan o Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt, fel y'i diffinnir yng Nghymru'r Dyfodol. Llywiwyd y CDLl[56] gan Asesiad Ynni Adnewyddadwy (2018) ac mae'n amlygu un ar ddeg o Ardaloedd Chwilio Lleol solar. Y targed yw darparu hyd at 21.8MW o ynni o fewn yr Ardaloedd Chwilio Lleol solar a hyd at 40.6MW yn yr Ardal Chwilio Strategol gwynt erbyn 2025. Comisiynwyd Asesiad Ynni Adnewyddadwy Cam 1 i amcangyfrif faint o adnoddau sydd ar gael i'w defnyddio yn Abertawe, gan ddarparu cyd-destun ar gyfer gosod polisi a thargedau lleol a sut gall yr awdurdod gyfrannu at fodloni targedau ynni adnewyddadwy cenedlaethol a'r Deyrnas Unedig, amlinellu'r galw am ynni yn y dyfodol, ynghyd â chapasiti ynni adnewyddadwy presennol ac arfaethedig. Bydd Asesiad Ynni Adnewyddadwy manwl yn cael ei gynhyrchu i lywio'r Cynllun Adnau.

3.6.4 Mae amcanestyniadau yn ymwneud â'r hinsawdd yn dangos y bydd digwyddiadau tywydd eithafol yn digwydd yn amlach ac yn ddwysach, gan gynnwys digwyddiadau storm yn yr haf a chyfnodau hir o dywydd gwlyb yn y gaeaf. Mae Afon Tawe ac Afon Llwchwr yn codi'n gyflym yn ystod digwyddiadau storm ac mae rhyngweithiadau'r llanw yn effeithio ar y ddwy. Mae CNC yn amlygu cymunedau sydd yn y perygl mwyaf o lifogydd[57], a nodir bod Blackpill a Chanol Dinas Abertawe yn gymunedau sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd neu'r môr. Mae gan Ben-clawdd a Crofty Gynlluniau Llifogydd Cymunedol. Amcangyfrifodd y Cyngor[58] yn 2015 fod 879 o bobl, 262 o eiddo preswyl, 96 o eiddo dibreswyl, 1km o brif gefnffordd, 1km o brif linell reilffordd, 7ha o barciau/gerddi a 3 adeilad rhestredig mewn perygl uchel o lifogydd. Mae gwaith amddiffyn yr arfordir yn cael ei wneud yn y Mwmbwls ar hyn o bryd[59] er mwyn gwarchod eiddo rhag digwyddiadau llifogydd llanw yn y dyfodol o ganlyniad i

[53] gov.wales/sites/default/files/publications/2019-11/welsh-national-marine-plan-document_0.pdf
[54] Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru
[55] Cynllun Ynni Ardal Leol Abertawe 2024
[56] Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010-2025 (CDLl) - Abertawe
[57] Cofrestr Cymunedau mewn Perygl (CaRR) | MapDataCymru (llyw.cymru)
[58] Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd 2015 - Abertawe
[59] Prosiect amddiffyn arfordir y Mwmbwls - Abertawe

lefelau uwch y môr a mwy o ddigwyddiadau storm yn sgil y newid yn yr hinsawdd. Bydd saith deg naw eiddo sydd â thebygolrwydd o fwy nag un mewn 10 o lifogydd llanw yn cael eu hamddiffyn.

**<u>Materion Allweddol, sylwadau, nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni a'r dyfodol tebygol heb CDLl2</u>**

| Mater allweddol (a amlygwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AIG) | Nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni | Heb CDLl2 |
|---|---|---|
| Mae'n rhaid i'r amgylchedd adeiledig a seilwaith fod yn gydnerth a gallu addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn awr ac yn y dyfodol, yn enwedig o ran llifogydd o'r môr ac afonydd. | Ledled y sir, yn genedlaethol ac efallai'n fyd-eang | Heb CDLl2, byddai'n rhaid i ddatblygiad gydymffurfio â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol a Chymru'r Dyfodol o hyd o ran lleoli datblygiad mewn perthynas â pherygl llifogydd, rheoli'r draethlin a chynigion ynni adnewyddadwy/carbon isel. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd datblygiad yn cael ei gydlynu nac yn defnyddio dull creu lleoedd ehangach, gan gynnwys seilwaith gwyrdd, addasiadau i'r newid yn yr hinsawdd a chynigion ar gyfer mesurau lliniaru.<br><br>Mae'n bosibl y bydd gan ddogfennau cysylltiedig, fel y Cynllun Rheoli Traethlin a CCAau mabwysiedig, lai o bwys os na chyfeirir atynt o fewn cynllun datblygu cyfredol.<br>Bydd Strategaeth Tai a Chyflogaeth integredig yn sicrhau bod twf yn gynaliadwy, h.y. bydd sicrhau bod tai a chyflogaeth yn cyd-fynd yn fras yn sicrhau bod anghenion cyflogaeth a thai yn cael eu bodloni heb fod angen cymudo allan mewn modd anghynaliadwy. |
| Mae'n rhaid i'r strategaeth ofodol defnydd tir a lleoliad datblygiad newydd ddefnyddio dull rhagofalus o ran perygl llifogydd yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. | | |
| Gwarchod y morlin rhag datblygiad amhriodol ac ystyried effeithiau canlyniadol y newid yn yr hinsawdd ar y morlin ac amgylcheddau arfordirol. | Ledled y sir | |
| Hwyluso'r nod o sicrhau bod ecosystemau a'r amgylchedd naturiol yn gydnerth ac yn gallu addasu i'r newid yn yr hinsawdd. | | |
| Hwyluso datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy a/neu garbon isel priodol yn y Sir, wedi'u llywio gan Asesiad Ynni Adnewyddadwy cyfredol | | Ni fyddai cynigion ar gyfer ynni adnewyddadwy/carbon isel yn cael eu llywio gan Asesiad Ynni Adnewyddadwy cyfredol. Bydd asesiad cyfredol sy'n amlygu ardaloedd cyfle posibl yn hwyluso cynnydd posibl o ran darparu cynlluniau ynni adnewyddadwy trwy roi arweiniad i'r diwydiant ar ardaloedd yn Abertawe a allai fod yn dderbyniol i'w hystyried a'u hasesu ymhellach. Mae'n bosibl na fydd y |

| | | |
|---|---|---|
| | | cysylltiadau rhwng cynhyrchu ynni a seilwaith cyflenwi, fel capasiti'r grid neu fatris storio, yn cael eu hystyried ar ddechrau cynigion mewn modd strategol. |
| **Sylwadau cyffredinol:** Mae Abertawe yn bwriadu bod yn Gyngor sero net erbyn 2030 ac yn Sir sero net erbyn 2050. Fe allai'r senario waelodlin waethygu o'i hystyried yn erbyn amcanion yr AIG, yn enwedig o ran y newid yn yr hinsawdd, targedau sero net, llifogydd a chynhyrchu carbon isel, os nad oes cynllun strategol ar waith. | | |

## 3.7 ASEDAU MATEROL (Crynodeb a diweddariadau ers mis Ebrill 2024)

3.7.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cefnogi rôl y system gynllunio wrth alluogi datblygiad i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio cymdeithas a datblygu economi gylchol er budd yr amgylcheddau adeiledig a naturiol ac i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Mae economi gylchol yn ceisio sicrhau bod deunyddiau, cynhyrchion a chydrannau'n cael eu defnyddio am gyn hired â phosibl. Mae Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 CNC yn cynnwys nod tymor hir ar gyfer Economi Atgynhyrchiol.

3.7.2 Mae strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru, sef 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', yn mynnu gostyngiad o oddeutu 1.5% (o linell sylfaen 2006-7) bob blwyddyn ar draws pob sector, gan gynnwys gwastraff domestig. Mae swm y gwastraff sy'n cael ei gasglu a'i waredu gan y Cyngor (Gwastraff a Gesglir gan Awdurdod Lleol (gwastraff domestig ac annomestig sy'n cael ei gasglu a'i waredu gan awdurdodau lleol)) yn lleihau, oherwydd casglwyd 104,939 o dunelli yn 2023/24, o gymharu â 106,858 o dunelli yn 2022/23[60]. Adlewyrchir hyn gan y ffaith bod symiau gwastraff gweddilliol (bagiau du) o bob annedd wedi lleihau o 317kg yn 2022/23 i 305kg yn 2023/24, sydd islaw cyfartaledd Cymru o 360kg fesul annedd yn 2023/24[61]. Mae gan y Cyngor 5 canolfan ailgylchu gwastraff cartref hefyd.

3.7.3 Mae strategaeth 'Mwy nag Ailgylchu' Llywodraeth Cymru, 2021[62], yn strategaeth deng mlynedd i symud tuag at economi gylchol[63] a thuag at dargedau di-wastraff a di-garbon 2050. Cyrhaeddodd y Cyngor darged statudol y strategaeth o ailgylchu lleiafswm o 70% o wastraff erbyn 2024-25 (ailddefnyddiwyd/ailgylchwyd/compostiwyd 70.4% o wastraff yn 2023/24)[64]. Mae llai o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yng Nghymru, a chaeodd safle tirlenwi Tir John yn 2021, ond mae'n aros yn weithredol tan 2024 er mwyn mewngludo pridd a gwastraff i adfer y safle. Bydd angen cadw capasiti tirlenwi bach yng Nghymru, o ran gwastraff gweddilliol, ac mae Llywodraeth Cymru[65] yn gosod sbardunau gwagle tirlenwi 7 a 5 mlynedd er mwyn galluogi'r farchnad i gynnig datrysiad i'r diffyg capasiti tirlenwi. Mae gan ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru oddeutu 5.5 mlynedd o gapasiti tirlenwi ar ôl,

[60] Rheolaeth ar wastraff blynyddol yn ôl dull rheoli (tunelli)
[61] Swm blynyddol o wastraff cartref gweddilliol a gynhyrchir fesul annedd (cilogramau) yn ôl awdurdod lleol
[62] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/beyond-recycling-strategy-document.pdf
[63] Mae economi gylchol yn ceisio sicrhau bod deunyddiau, cynhyrchion a chydrannau'n cael eu defnyddio am gyn hired â phosibl
[64] Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio blynyddol yn ôl awdurdod lleol
[65] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/tan21-waste.pdf

sydd felly'n uwch na'r sbardun a nodir yn TAN 21 (Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff Canolbarth a De-orllewin Cymru 2022/2023).

3.7.4 Mae moratoriwm ar ddatblygiadau ynni o wastraff ar raddfa fawr (10MW neu fwy) yng Nghymru a bydd gweithfeydd ynni o wastraff ar raddfa fach (<10MW) yn cael eu caniatáu dim ond os gall yr ymgeisydd ddangos bod angen cyfleuster o'r fath ar gyfer y gwastraff nad yw'n ailgylchadwy yn y rhanbarth. Mae'n rhaid i unrhyw gyfleusterau newydd ar raddfa fach hefyd gyflenwi gwres a, lle y bo'n ymarferol, gallu dal a storio carbon neu fod yn barod i wneud hynny.

3.7.5 Mae adnoddau mwynau lleol wedi bod yn bwysig iawn i'r Sir yn hanesyddol, ond dibynnir bellach ar chwarelau mewn awdurdodau cyfagos, yn ogystal â thywod a garthwyd o'r môr, i ddarparu ar gyfer anghenion agregau'r Sir. Mae bron holl adnoddau calchfaen carbonifferaidd y Sir o fewn Ardal Tirwedd Naturiol Eithriadol Gŵyr ac ni ellir eu gweithio, ond fe'u diogelir ar gyfer defnydd yn y dyfodol. Mae'r adnoddau hyn a ddiogelir, ynghyd ag ardaloedd tywodfaen a thywod a graean ar y tir (yn unol â mapiau diogelu Arolwg Daearegol Prydain) wedi'u diffinio ar Fap Cynigion y CDLl a disgwylir y byddant hefyd yn cael eu dangos ar Fap Cynigion CDLl2 (oni bai bod y gofyniad polisi cenedlaethol i wneud hynny yn newid).

3.7.6 Mae'r Sir yn cynnwys nifer o byllau glo nas defnyddir. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn awdurdodi trwyddedau gweithredu mwynglawdd newydd yr Awdurdod Glo nac amrywiadau i drwyddedau presennol[66]. Mae'r rhagdybiaeth yn erbyn codi glo wedi'i chynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru hefyd.

3.7.7 Mewngludwyd agregau eilaidd (ar y ffyrdd) o waith dur Port Talbot (bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus tra bod y gwaith dur yn ailstrwythuro), ac mae'n debygol y bydd digon o gyflenwadau agregau a ailgylchwyd o wastraff adeiladu, dymchwel a chloddio ar gael o fewn ardaloedd trefol Abertawe ei hun. Mae agregau lleol wedi'u hailgylchu yn bwysig er mwyn gwrthbwyso cludo agregau crai ac eilaidd o ffynonellau eraill.

3.7.8 Mae'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod 0.305 miliwn o dunelli o Dywodfaen agregau manyleb uchel (HAS) Carbonifferaidd y flwyddyn ar gael ar gyfer y dyfodol tan ddiwedd cyfnod y CDLl presennol ac am 10 mlynedd wedi hynny[67]. Nid oes gan y Sir unrhyw fanciau tir o gronfeydd a ganiateir, felly bydd angen amlygu dyraniadau sy'n dod i gyfanswm o 7.636 miliwn o dunelli o leiaf yn CDLl2. Lluniodd y Cyngor Ddatganiad Cydweithio Is-ranbarthol [68] yn 2021 gyda chynghorau yn yr is-ranbarth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a rhan o Gyngor Sir Caerfyrddin). Mae'r Datganiad Cydweithio Is-ranbarthol yn cadarnhau bod pob Cyngor yn derbyn y dosraniadau unigol ar gyfer agregau, y bydd y gofyniad is-ranbarthol yn cael ei fodloni ac y bydd Castell-nedd Port Talbot yn darparu dosraniad Abertawe hyd nes bod CDLl2 yn cael ei gynhyrchu. Dylai unrhyw ddyraniadau yn y dyfodol gael eu hamlygu fel Safleoedd Penodol. Os nad oes unrhyw safleoedd, dylid amlygu Ardaloedd a Ffefrir ac Ardaloedd Chwilio eang yn CDLl2 neu dylid parhau â'r Datganiad Cydweithio Is-ranbarthol.

---

[66] Datganiad polisi glo [HTML] | LLYW.CYMRU
[67] https://www.abertawe.gov.uk/datganiadtechnegolrhanbarthol
[68] https://democracy.swansea.gov.uk/documents/s71203/07%201%20of%202%20Aggregates%20report.pdf?LLL=0

3.7.9 Mae'n debygol y bydd prosiectau seilwaith mawr posibl yn galw am lawer o agregau. Dylid osgoi colli seilwaith mwynau ac mae'r polisi cenedlaethol yn datgan y dylai'r holl seidins a rheilffyrdd nas defnyddir gael eu diogelu fel y gellir eu hailddefnyddio yn y dyfodol ac y dylai seilwaith trafnidiaeth presennol gael ei warchod rhag tresmasu gan fathau eraill o ddatblygiad. Mae'r Cynllun Morol Cenedlaethol, 2019, yn ceisio cefnogi datblygiad cynaliadwy seilwaith porthladd, harbwr a marina a diogelu'r Sector Porthladdoedd a Morgludiant. Cymdeithas Porthladdoedd Prydain (ABP) sy'n berchen ar Borthladd Abertawe ac mae'n rhychwantu oddeutu 521 erw. Ynghyd â phorthladd ABP ym Mhort Talbot, mae'r porthladd yn cyfrannu £670 miliwn at yr economi, yn cynnal bron 10,000 o swyddi ac yn cynnig potensial sylweddol i hwyluso cynlluniau adfywio trawsnewidiol sy'n dod i'r amlwg yn yr ardal hon yn y dyfodol. Yn 2023, dynododd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y Porthladd Rhydd Celtaidd ym Mhort Talbot. Mae ABP yn disgwyl i hyn arwain at fwy o weithgarwch ym Mhorthladd Abertawe.

3.7.10 Nodir bregusrwydd asedau seilwaith i'r newid yn yr hinsawdd yn y Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru (2024)[69]. Mae llawer o wasanaethau a'u seilwaith sylfaenol yn dibynnu ar gysylltedd digidol i weithredu'n effeithiol, gan gynnwys seilwaith dŵr, trydan a nwy.

3.7.11 Mae'r Hierarchaeth Drafnidiaeth ar gyfer Cynllunio (Polisi Cynllunio Cymru) yn cefnogi'r nodau o wella opsiynau teithio cynaliadwy a lleihau'r ddibyniaeth ar deithio mewn ceir trwy ddod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio. Mae Map Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor[70], 2022, yn dangos y llwybrau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu darparu hyd at 2033. Yn ogystal, mae 650km (oddeutu 400 milltir) o hawliau tramwy cyhoeddus yn y Sir, y mae bron 515km ohonynt yn llwybrau troed cyhoeddus ac oddeutu 136km yn llwybrau ceffylau cyhoeddus. Yn y pen draw, bydd y cynllun sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru yn darparu cyfres o systemau trafnidiaeth integredig rhanbarthol ledled Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe.

3.7.12 Mae'r Papur Dadansoddi'r Cyflenwad Tai, 2024, gan y Cyngor yn blaenoriaethu defnyddio tir addas a chynaliadwy a ddatblygwyd yn flaenorol, a/neu safleoedd na wneir digon o ddefnydd ohonynt, ar gyfer datblygiad tai yn y dyfodol ar hyd cyfnod CDLl2. Mae hyn yn sicrhau defnydd effeithlon o dir trwy ddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol i'r eithaf, a sicrhau bod datblygiad yn cael ei leoli'n agos i seilwaith a gwasanaethau presennol lle mae capasiti'n bodoli.

**<u>Materion Allweddol, sylwadau, nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni a'r dyfodol tebygol heb CDLl2</u>**

| Mater allweddol (a amlygwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AIG) | Nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni | Heb CDLl |
|---|---|---|
| Cynyddu defnydd effeithlon o dir i'r eithaf, gan ddilyn y | Ledled y sir | Byddai'n rhaid i ddatblygiad gydymffurfio â'r polisi cenedlaethol, ond ni fyddai cynllun |

[69] https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2024-10/climate-adaptation-strategy-for-wales-2024.pdf
[70] https://www.abertawe.gov.uk/deddfteithiollesol

| | | |
|---|---|---|
| dilyniant chwilio ar gyfer safleoedd newydd a amlinellir yn y polisi cenedlaethol, wedi'i lywio gan astudiaeth o gapasiti defnydd tir. | | strategol wedi'i gydlynu ar gyfer datblygiad yn y dyfodol sy'n cynyddu cyfleoedd i'r eithaf i ailddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol a blaenoriaethu lleoliadau cynaliadwy ar gyfer twf yn y dyfodol wedi'i lywio gan dystiolaeth leol. |
| Mae'n rhaid ystyried capasiti safleoedd tirlenwi yn y rhanbarth.<br><br>Sicrhau bod digon o adnoddau mwynau ar gael i hwyluso prosiectau seilwaith allweddol.<br><br>Yr angen posibl am seilwaith trydan newydd er mwyn gwella capasiti a chysylltiadau'r rhwydwaith (llawer o faterion trawsbynciol fel goblygiadau i'r dirwedd ac amwynder cyhoeddus)<br><br>Mae llwybrau blaenoriaeth y rhwydwaith teithio llesol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu CDLl2<br><br>Dylai'r strategaeth ofodol defnydd tir roi ystyriaeth briodol i gynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Metro De Cymru<br><br>Ystyried goblygiadau posibl datblygiad y Porthladd Rhydd ym Mhort Talbot mewn perthynas â Dociau a Phorthladd Abertawe. | Ledled y sir ac yn rhanbarthol | Bydd rhaid i ddatblygiad yn y dyfodol gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a pholisïau Cymru'r Dyfodol yn ymwneud â datblygiadau gwastraff, seilwaith priffyrdd, rheilffyrdd, seilwaith cyfleustodau a theithio llesol. Heb CDLl2, ni fyddai polisi lleol wedi'i lywio gan y dystiolaeth ranbarthol ddiweddaraf ar gyfer adnoddau a seilwaith mwynau a seilwaith gwastraff i fodloni gofynion y dyfodol a gwasanaethu datblygiadau yn y dyfodol.<br><br>Mae llwybrau teithio llesol yn elfen o greu lleoedd a seilwaith gwyrdd, ac mae'n bosibl na fydd dull strategol o hwyluso cysylltiadau a gwelliannau i lwybrau neu gyfrannu at ddarparu llwybrau newydd yn bosibl heb gynllun datblygu cyfredol.<br><br>Mae'n bosibl na fydd potensial Metro De Cymru, y Porthladd Rhydd a datblygiadau ym Mhorthladd a Dociau Abertawe yn y dyfodol yn cael ei ystyried yn strategol heb CDLl cyfredol a strategaeth a pholisïau twf a gofodol cysylltiedig. Mae'n rhaid i opsiynau trafnidiaeth a thwf sy'n dod i'r amlwg gael eu hystyried yn strategol er mwyn creu lleoedd yn effeithiol a chyflawni cymunedau cynaliadwy.<br><br>Bydd Strategaeth Tai a Chyflogaeth integredig yn sicrhau bod twf yn gynaliadwy, h.y. bydd sicrhau bod tai a chyflogaeth yn cyd-fynd yn fras yn sicrhau bod anghenion cyflogaeth a thai yn cael eu bodloni heb fod angen cymudo allan mewn modd anghynaliadwy. |
| Ystyried ôl troed ecolegol datblygiad a'i effeithiau ar y newid yn yr hinsawdd trwy ystyried cylchred oes gyfan | Ledled y sir, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang | Dim fframwaith polisi lleol i annog economïau cylchol ac atgynhyrchiol. |

| | | |
|---|---|---|
| datblygiad, yn enwedig o ran deunyddiau. | | |
| **Sylwadau Cyffredinol:**<br>Fe allai'r senario waelodlin waethygu o'i hystyried yn erbyn amcanion yr AIG, yn enwedig mewn perthynas â datblygu seilwaith yn gydlynol a chyflenwi a rheoli mwynau a gwastraff. | | |

## 3.8 TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL (Crynodeb a diweddariadau ers mis Ebrill 2024)

3.8.1 Mae 500+ o adeiladau rhestredig o fewn ffiniau Dinas a Sir Abertawe[71]. Mae oddeutu 2% yn rhai Gradd I rhestredig, mae 4% yn rhai Gradd II* ac mae 94% yn rhai Gradd II. Mae'r Sir hefyd yn cynnwys adeiladau nad ydynt yn cyrraedd y trothwy cenedlaethol ar gyfer eu dynodi'n Adeiladau Rhestredig, ond y maent yn adeiladau hanesyddol o arwyddocâd lleol. Mae'r Cyngor yn bwriadu sefydlu proses gynhwysol ar gyfer amlygu lleoedd, strwythurau ac adeiladau o ddiddordeb lleol arbennig, a bydd hyn yn llywio CDLl2. Mae 31 o ardaloedd cadwraeth yn y Sir, 120 o Henebion, 5 Ardal Archaeolegol Sensitif a 2 gamlas.

**<u>Materion Allweddol, sylwadau, nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni a'r dyfodol tebygol heb CDLl2</u>**

<table>
<tr><th>Mater allweddol (a amlygwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AIG)</th><th>Nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni</th><th>Heb CDLl</th></tr>
<tr><td>Cyfrannu at yr amcan o warchod, amddiffyn a gwella asedau diwylliannol a'u lleoliadau.</td><td rowspan="4">Ledled y sir ac ardaloedd diffiniedig penodol fel ardaloedd cadwraeth.</td><td rowspan="4">Mae llawer o asedau treftadaeth yn cael eu hamddiffyn trwy ddeddfwriaeth ar wahân i'r system cynllunio defnydd tir. Fodd bynnag, mae cynnwys polisïau sy'n ymwneud â threftadaeth adeiledig, archaeoleg a'r dirwedd yn golygu y gellir rhoi sylw i ystyriaethau ehangach yn ymwneud â chreu lleoedd ac adfywio.<br><br>Rhoddir pwys i ddynodiadau anstatudol fel Ardaloedd Archaeolegol Sensitif ac Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig trwy eu cynnwys yn CDLl2.</td></tr>
<tr><td>Deall yr adeiladau a'r asedau eraill yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd lleol arbennig a'r dulliau sydd ar gael trwy CDLl2 i ddiogelu'r rhain</td></tr>
<tr><td>Ystyried Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 drwy gydol proses CDLl2</td></tr>
<tr><td>Hwyluso ailddefnydd buddiol o adeiladau hanesyddol na wneir digon o ddefnydd ohonynt</td></tr>
<tr><td colspan="3">Sylwadau Cyffredinol:<br>Fe allai'r senario waelodlin waethygu o'i hystyried yn erbyn amcanion yr AIG.</td></tr>
</table>

[71] Listed buildings - Swansea

## 3.9 Y DIRWEDD A'R MORWEDD (Crynodeb a diweddariadau ers mis Ebrill 2024)

3.9.1 Mae gan y Sir ardaloedd helaeth o dirweddau a warchodir yn statudol ac yn anstatudol. Mae cymeriad unigryw a harddwch naturiol **Ardal Tirwedd Naturiol Eithriadol Gŵyr** (a adwaenwyd gynt fel AHNE Gŵyr), sy'n rhychwantu oddeutu 188km$^2$ (73 m$^2$) o'r Sir, wedi cael eu gwarchod er budd y genedl ers 1956. Mae oddeutu 33 milltir o'r Dirwedd Genedlaethol yn **Arfordir Treftadaeth** dynodedig sy'n ceisio gwarchod y morlin rhag datblygiadau anystyriol. Nid oes ffin fewndirol ddiffiniedig. Mae Cynllun Rheoli AHNE Gŵyr yn cynnwys yr Arfordir Treftadaeth o fewn ei gwmpas.

3.9.2 Mae 41 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACTau) (yn seiliedig ar LANDMAP) o fewn ac yn ffinio ag AHNE Gŵyr[72]. Roedd Astudiaeth Sensitifrwydd a Gallu Tirwedd Gŵyr ar gyfer Safleoedd Carafannau a Gwersylla[73] wedi ychwanegu at ACT Gŵyr ac mae'n amlygu pa ardaloedd o AHNE Gŵyr sydd wedi cyrraedd capasiti tirwedd, o ran safleoedd carafannau a gwersylla, a pha ardaloedd y gellid ymestyn cyfleusterau ynddynt mewn modd wedi'i drefnu, o bosibl, ar yr un pryd ag ystyried capasiti ac addasrwydd yr ardal i ymdopi ag estyniad o'r fath. Mae'r dogfennau'n darparu tystiolaeth sylfaenol ac yn sail i rai o bolisïau'r CDLl.

3.9.3 Mae Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Bae Caerfyrddin, Gŵyr a Bae Abertawe, 2017[74], yn amlygu 8 Ardal Cymeriad Morwedd (ACM) sy'n ffinio â morlin y Sir a nifer o ACMau alltraeth eraill o amgylch y Sir.

3.9.4 Mae'r Sir yn cynnwys 13 o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig, 2 Dirwedd Hanesyddol (y mae'r ddwy ohonynt yn yr AHNE) a Pharc Gwledig, 11 o Feysydd Pentref dynodedig a 49 o ardaloedd cofrestredig o Dir Comin, sydd wedi'u lleoli yng Ngŵyr a Mawr yn bennaf.

3.9.5 Dynododd y CDLl 4 Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) anstatudol y tu allan i'r AHNE, yr ystyrir eu bod o werth tirwedd uchel, a 9 lletem las. Bydd ffiniau pob un o'r rhain yn cael eu hadolygu yn rhan o baratoi CDLl2.

**<u>Materion Allweddol, sylwadau, nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni a'r dyfodol tebygol heb CDLl2</u>**

| Mater allweddol (a amlygwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AIG) | Nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni | Heb CDLl |
|---|---|---|
| Cyfrannu at yr amcan o warchod a gwella tirweddau a warchodir, yn enwedig AHNE Gŵyr a'i lleoliad | AHNE Gŵyr a'i lleoliad | Byddai AHNE Tirwedd Genedlaethol Gŵyr yn parhau i gael ei gwarchod trwy ddeddfwriaeth statudol. Fodd bynnag, ni fyddai fframwaith cynllunio lleol cyfredol i ddynodi'r ATA a |

[72] https://www.swansea.gov.uk/media/3663/Gower-Landscape-Character-Assessment-2013/pdf/smGower_Landscape_Character_Assessment_2013.pdf?m=1632999476570
[73] https://www.abertawe.gov.uk/astudiaethgallutirweddgwyr
[74] https://www.abertawe.gov.uk/sca

<table>
<tr><td>Adolygu ffiniau'r ATA, y Lletem Las ac aneddiadau.</td><td>ATAau a lletemau glas</td><td>Lletemau Glas, ac felly ni fyddai ardaloedd o dir yr effeithir arnynt yn elwa o bolisi cynllunio lleol i warchod cymeriad arbennig na mesurau i reoli cyfuno rhwng aneddiadau.</td></tr>
<tr><td>Cydbwyso'r pwysau a'r angen am ddatblygiad â'r angen i warchod cyfanrwydd tirweddau a warchodir</td><td rowspan="3">Ledled y sir</td><td>NI fyddai unrhyw bolisïau lleol sy'n mynnu bod effeithiau cronnol yn cael eu hystyried. Byddai gan ddogfennau sylfaenol a CCAau presennol lai o bwys wrth wneud penderfyniadau.</td></tr>
<tr><td>Darparu digon o ardaloedd ffurfiol ac anffurfiol diogel a phriodol i blant a phobl ifanc chwarae</td><td>Ni fyddai fframwaith cynllunio a strategaeth A106 cyfredol ar gyfer datblygwyr mewn perthynas â'r angen i ddarparu mannau chwarae, na sicrhau gwelliannau i rai sydd eisoes yn bodoli, mewn datblygiadau newydd</td></tr>
<tr><td>Defnyddio Asesiad a Strategaeth Seilwaith Gwyrdd i lywio CDLl2, pan fydd ar gael</td><td rowspan="3">Ni fyddai buddion amlswyddogaethol y seilwaith gwyrdd ehangach a'i gysylltedd yn cael eu cydnabod na'u diogelu o reidrwydd heb CDLl2. Fe allai hyn achosi canlyniadau arwyddocaol trwy beryglu'r gallu i reoli effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn effeithiol ac arwain at ddarnio cynefinoedd.<br><br>Mae'n bosibl na fydd dylanwad datblygiadau ar y morwedd, yn ogystal ag effeithiau cronnol datblygiadau, yn cael eu hystyried heb CDLl2 a pholisïau lleol.</td></tr>
<tr><td>Sensitifrwydd y morwedd a'r arfordir heb ei ddatblygu i ddatblygiadau ar y tir ac ar y môr i'w ystyried yn CDLl2</td><td></td></tr>
<tr><td>Dylanwadau'r newid yn yr hinsawdd ar y dirwedd, y morwedd a'r morlin i'w hystyried yn CDLl2.</td><td>Y morlin ac ardaloedd dylanwad ar y tir</td></tr>
<tr><td colspan="3">Sylwadau Cyffredinol:<br>Fe allai'r senario waelodlin waethygu o'i hystyried yn erbyn amcanion yr AIG, yn enwedig heb ddynodiadau tirwedd lleol a pholisïau creu lleoedd i sicrhau bod lleoliad a dyluniad datblygiad newydd yn ystyriol o gymeriad y dirwedd.</td></tr>
</table>

## 3.10 Y GYMRAEG (Crynodeb a diweddariadau ers mis Ebrill 2024)

3.10.1 Mae'r wybodaeth a'r ystadegau canlynol sy'n ymwneud â sgiliau Cymraeg yn y Sir wedi'u cynnwys ym Mhroffil Iaith Gymraeg cyhoeddedig y Cyngor, 2024[75]. Yng Nghymru gyfan, roedd oddeutu 538,296 o breswylwyr arferol 3 oed neu hŷn (17.8%) yn gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2021), sy'n ostyngiad o 562,000 neu 19% yn 2011, neu finws 1.2%. Yn 2021, roedd oddeutu 25,986 o bobl 3 oed neu hŷn yn Abertawe yn gallu siarad Cymraeg (11.2%) o gymharu ag 11.4% yn 2011 (oddeutu 350 yn llai o siaradwyr Cymraeg (dros 3 oed) yn Abertawe yn 2021, a 1,100 yn fwy o bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg). Er bod hyn yn ostyngiad 0.2%, mae'n llai na'r gostyngiad a welwyd yng Nghymru.

3.10.2 Mae canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth diweddaraf ar gyfer Abertawe, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023, yn awgrymu bod 47,100 o bobl (19.6% o

[75] https://www.abertawe.gov.uk/iaithgymraegabertawe

bobl 3 oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg, sy'n sylweddol fwy na ffigur Cyfrifiad 2021, ond yn is na chyfartaledd Cymru, sef 29.2%.

3.10.3 Mae'r canrannau mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn y Sir yn byw yn wardiau Pontarddulais (25.9%), Clydach (20.1%) a Phont-lliw a Thir-coed (19.4%) (Cyfrifiad 2021). Mae'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg yn wardiau Townhill (5.6%), Cwmbwrla (6.6%), a'r Castell (6.8%). Er mwyn helpu i gymharu newidiadau rhwng dyddiadau'r Cyfrifiad ac adlewyrchu'r newidiadau i ffiniau wardiau yn 2022, trefnir wardiau mewn grwpiau i adlewyrchu ffiniau wardiau blaenorol. Dangosodd 10 o'r 24 o grwpiau ardaloedd wardiau gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a dangosodd 14 ardal ostyngiad. Cofnodwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg (oddeutu 170-180) yn wardiau'r Mwmbwls a Sgeti. Roedd y cynnydd canrannol mwyaf yn ward Glandŵr (+35%), er ei fod yn is mewn termau absoliwt (oddeutu +130). Mewn mannau eraill, cofnodwyd cynnydd canrannol mwy mewn wardiau i'r de a'r gorllewin o ganol Abertawe gan mwyaf. Dangosodd pedair ardal ostyngiad o fwy na 10% rhwng Cyfrifiadau, gyda'r mwyaf yn ward Pen-clawdd (-20% neu oddeutu 100 o bobl). Roedd gostyngiadau nodedig eraill yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd gogleddol mwy gwledig y sir gan mwyaf, gan gynnwys ardaloedd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn hanesyddol (ac o hyd).

3.10.4 Mae Cyfrifiad 2021 yn amcangyfrif bod 25.8% o blant 5-15 oed yn Abertawe a 17.7% o'r rhai 16-19 oed yn gallu siarad Cymraeg, sy'n uwch na'r cyfartaledd cyffredinol, sef 11.2%. Bydd y ffigurau hyn yn adlewyrchu dylanwad y system addysg ar sgiliau iaith Gymraeg a'r defnydd ohoni ymhlith plant oed ysgol. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg 16-19 oed yn Abertawe wedi cynyddu 12.8% (240 o bobl) rhwng Cyfrifiadau. Mewn cyferbyniad, gostyngodd y ffigur hwn 11.1% ledled Cymru. Cofnodwyd cynnydd canrannol tebyg ar gyfer y grŵp oedran 20-44 yn Abertawe, sef +12.8% (+2.0% yng Nghymru). Roedd oddeutu 15.4% o ddisgyblion y Sir yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2019/2020 ac mae'r Cyngor[76] wedi gosod Gweledigaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf i gynyddu nifer y disgyblion blwyddyn 1 sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg rhwng 23% a 27% erbyn 2032. Rhan o'r Weledigaeth yw '*sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael at addysg cyfrwng Cymraeg o fewn pellter rhesymol o'i gartref*', a nodir bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ddiffygiol yn yr ardaloedd canlynol:

a. Gorseinon/Penlle'r-gaer
b. Sgeti/Dyfnant/Cilâ
c. Townhill/Mayhill/Waun Wen/Plasmarl
ch. St Thomas/Port Tennant[77]

3.10.5 Mae'r CDLl presennol yn diffinio Ardal Sensitif o ran y Gymraeg, y bydd ei ffin yn cael ei hadolygu yn rhan o baratoi CDLl2.

---

[76] https://www.swansea.gov.uk/media/1966/Swansea-WESP-2022--2032-final/pdf/diWESP_2022_2032_FINAL.pdf?m=1709890075437
[77] Agenda ar gyfer y Cabinet ddydd Iau, 15 Chwefror 2024, 10.00 am - Abertawe

| Mater allweddol (a amlygwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AIG) | Nodweddion yr ardal y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arni | Heb CDLl |
|---|---|---|
| Helpu i ddiogelu a chefnogi twf yn y defnydd o'r Gymraeg fel rhan annatod o fywyd cymdeithasol a chymunedol. | Ledled y sir | Amlygir pwysigrwydd y Gymraeg gan darged Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu yn un o'r saith nod llesiant sydd wedi'u hamlygu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'u hymgorffori ym Mholisi Cynllunio Cymru. Nid yw'r system cynllunio defnydd tir yn effeithio'n uniongyrchol ar y Gymraeg, ond fe all fod yn fodd o hwyluso ac annog twf a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hintegreiddio i wead cymdeithasol a diwylliannol cymuned trwy, er enghraifft, gyfleusterau addysg cyfrwng Cymraeg newydd, a pholisïau i liniaru effaith datblygiad newydd ar gymunedau Cymraeg eu hiaith. Heb CDLl cyfredol, ni fyddai polisïau ar waith i sicrhau bod datblygiadau newydd yn lliniaru effeithiau ar y Gymraeg, a hyrwyddo negeseuon i gyfrannu at wella'r defnydd ohoni, yn enwedig lle mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o'r gwead cymdeithasol. Bydd rhaid i CDLl2 sicrhau bod anghenion addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu bodloni, o ran lleoliad ysgolion. |

## 4.0 FERSIWN MAI 2024 O WELEDIGAETH AC AMCANION CDLl2

### GWELEDIGAETH

4.0.1 Mae'r Weledigaeth yn nodi nod cyffredinol CDLl2 a sut y rhagwelir y bydd yr ardal yn datblygu, yn newid, yn cael ei gwella ac yn cael ei ffurfio o flaenoriaethau cynllunio cenedlaethol a strategaethau lleol a Materion Allweddol ar gyfer y Sir (a nodwyd yn Adroddiad Cwmpasu yr AIG). Cyflwynwyd Gweledigaeth ddrafft ar gyfer CDLl2 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a rhanddeiliaid ym mis Mai 2024[78][79].

> "Bydd Abertawe'n ffynnu fel **dinas arloesi** arfordirol yng nghanol Rhanbarth De-orllewin Cymru, lle mae **creu lleoedd a lles** yn egwyddorion sylfaenol ar gyfer datblygu. Bydd preswylwyr ac ymwelwyr yn mwynhau **ansawdd bywyd uchel** ac **amgylcheddau naturiol ac adeiledig rhagorol** ar draws **ardaloedd trefol, gwledig, traeth a glannau** Abertawe. Bydd **cymdogaethau o gymeriad unigryw** yn cynnig amrywiaeth a dewis o **gartrefi o safon**, wedi'u cysylltu'n dda â gwasanaethau a chyfleusterau o ddydd i ddydd, er mwyn galluogi bywyd cymunedol i ffynnu a chyfrannu tuag at **ganlyniadau iechyd da.** Bydd yr **amgylchedd naturiol** yn cael ei wella'n sylweddol a fydd, ochr yn ochr â **lefelau cynaliadwy o weithgarwch economaidd a masnachol**, yn cyfrannu at Abertawe yn symud tuag at bontio cyfiawn i **sero net erbyn 2050**."

4.0.2 Aseswyd y Weledigaeth yn erbyn amcanion yr AIG (Tabl 5) a oedd yn awgrymu gwelliannau i gyfeirio at ddiwylliant a threftadaeth (a fyddai'n cwmpasu'r Gymraeg), newid yn yr hinsawdd a chydnerthedd ecosystemau. Ceir rhagor o fanylion yn Adroddiad llawn yr AIG.

**Tabl 5: Sgoriau AIG Gweledigaeth ddrafft Mai 2024**

| | Amcanion yr AIG | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| **Gweledigaeth Ddrafft Mai 2024** | | | | | | | | | | | | | | | |

Sgorio:

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Alinio cadarnhaol rhwng amcan CDLl2 ac amcan AIG | | Dim cysylltiad uniongyrchol rhwng aliniad rhwng amcan CDLl2 ac amcan AIG |
| ? | Aliniad anhysbys rhwng amcan CDLl2 ac amcan AIG | | Gwrthdaro posibl rhwng amcan CDLl2 ac amcan AIG |

### AMCANION

4.0.3 Mae Amcanion y CDLl yn canolbwyntio ar sut y bydd Gweledigaeth y CDLl yn cael ei chyflawni ac yn nodi'r egwyddorion arweiniol cyffredinol ar gyfer y CDLl, yn gosod y cyd-destun ar gyfer y Dewisiadau Twf Strategol a Gofodol a fframwaith ar gyfer Polisïau Strategol a Manwl. Cyflwynwyd deunaw amcan ochr yn ochr â'r Weledigaeth ym mis Mai 2024 a chyflwynir crynodeb o ganfyddiadau'r asesiad yn Nhabl 6.

[78] https://swansea.oc2.uk/document/10
[79] https://swansea.oc2.uk/docfiles/11/KiVO_SwanseaLDP2_May2024_f.pdf

**Tabl 6: Crynodeb o'r asesiad o amcanion drafft CDLl2 Mai 2024 ac amcanion yr AIG**

| Amcanion CDLl 2 | Amcanion yr AIG | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| 1 | blue | green | green | green | green | amber | blue | blue | green | blue | amber | amber | amber | green | green |
| 2 | blue | amber | green | green | green | green | amber | blue | green | blue | amber | amber | amber | blue | blue |
| 3 | amber | amber | green | green | green | green | amber | green | blue | amber | green | blue | blue | amber | amber |
| 4 | amber | amber | amber | green | amber | red | blue | amber | amber | amber | amber | amber | amber | blue | red |
| 5 | green | green | green | blue | green | amber | amber | amber | amber | green | green | green | amber | amber | amber |
| 6 | green | blue | amber | amber | green | green | green | green | green | green | red | amber | amber | amber | green |
| 7 | red | amber | amber | amber | amber | red | amber | green | amber | green | green | green | blue | amber | red |
| 8 | green | green | green | amber | green | green | amber | amber | green | amber | amber | amber | green | green | green |
| 9 | amber | blue | amber | blue | amber | amber | amber | amber | amber | amber | amber | green | green | amber | amber |
| 10 | blue | blue | amber | blue | amber | blue | amber | amber | amber | amber | amber | green | green | amber | amber |
| 11 | blue | amber | amber | amber | green | red | amber | amber | green | green | green | amber | amber | green | amber |
| 12 | blue | green | green | amber | green | amber | amber | amber | green | green | amber | amber | amber | green | green |
| 13 | green | green | green | amber | green | amber | amber | green | green | amber | amber | amber | amber | amber | amber |
| 14 | green | green | green | green | green | amber | amber | amber | green | green | green | green | green | amber | green |
| 15 | green | amber | amber | amber | amber | amber | amber | amber | amber | amber | amber | amber | amber | green | green |
| 16 | amber | green | green | blue | amber | amber | amber | amber | amber | amber | amber | amber | amber | green | amber |
| 17 | amber | green | green | amber | green | amber | green | green | green | green | amber | amber | amber | amber | amber |
| 18 | green | amber | amber | green | green | green | amber | amber | amber | green | amber | amber | amber | amber | amber |

| | | | |
|---|---|---|---|
| green | Alinio cadarnhaol rhwng amcan CDLl2 ac amcan AIG | amber | Dim cysylltiad uniongyrchol rhwng aliniad rhwng amcan CDLl2 ac amcan AIG |
| blue | Aliniad anhysbys rhwng amcan CDLl2 ac amcan AIG | red | Gwrthdaro posibl rhwng amcan CDLl2 ac amcan AIG |

## 5.0 OPSIYNAU TWF AMGEN CDLl2 A STRATEGAETHAU GOFODOL

5.0.1 Mae'r Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol (12(2)b ac Atodlen 2(8)) yn ei gwneud yn ofynnol ystyried dewisiadau amgen 'rhesymol', y rhesymau dros eu dewis, disgrifiad o sut y cynhaliwyd yr asesiad a nodi unrhyw anawsterau a wynebwyd. Ystyriwyd Dulliau Gofodol a Senarios Twf Amgen[80][81] fel y nodir isod. Mae gwybodaeth gefndirol sy'n esbonio'r dewisiadau amgen wedi'i chynnwys yn y Papur Cefndir Senarios Twf a Dulliau Gofodol[82].

### 5.1 SENARIOS TWF AMGEN

5.1.1 Mae Cymru'r Dyfodol yn amcangyfrif bod angen 25,600 o gartrefi ychwanegol yn rhanbarth y De-orllewin tan 2039. Mae'r amcangyfrif hwn yn darparu rhan o'r dystiolaeth i lywio gosod lefelau twf mewn cynlluniau datblygu priodol yn y rhanbarth. Mae *Asesiad Twf Economaidd a Thai 2024* y Cyngor yn amlinellu amrywiaeth o senarios twf demograffig ac a arweinir gan swyddi ar gyfer CDLl2 a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o '*Dechrau'r Sgwrs ar Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau ar gyfer Twf'* rhwng mis Ebrill a mis Mehefin

[80] https://swansea.oc2.uk/document/10 Dogfen ymgynghoriad gweledigaeth, amcanion ac opsiynau ar gyfer twf
[81] https://swansea.oc2.uk/document/12 Senarios twf a dulliau gofodol
[82] https://swansea.oc2.uk/document/12

2024. Mae'r lefel arfaethedig o gartrefi ym mhob senario yn is na'r hyn a fabwysiadwyd yn y CDLl presennol. Mae dau o'r senarios (2 a 3) yn seiliedig ar ragolygon demograffig (poblogaeth) a dau (1 a 4) ar ragolygon economaidd a arweinir gan swyddi. Ystyriodd yr Asesiad hefyd at ddibenion cymharu 'Cyflenwi tai cyfartalog (2010-23)', 'Gofyniad CDLl mabwysiedig' (2010-2025) a . , dau senario amgen ychwanegol yn seiliedig ar amcanestyniadau demograffig amrywiolyn isel Llywodraeth Cymru (LlC) ac amcanestyniadau demograffig amrywiolyn uchel. Cyflwynir pob un o'r wyth senario twf amgen yn Nhabl 7. Mae papur cefndir, *Opsiynau ar gyfer Twf a Dulliau Gofodol, Rhagfyr 2024* yn manylu ar yr ystod lawn o opsiynau a dulliau a ystyriwyd. Mae senarios twf 1-4 yn gofyn am rhwng 11 a 25.2 hectar o dir dosbarth B ychwanegol er mwyn darparu ar gyfer twf swyddi yn y dyfodol (a eglurir yn yr Asesiad Twf Economaidd a Thai Gorffennaf 2024)[83]).

**Tabl 7: Senarios Twf Amgen**

| Senario yn seiliedig ar ... | Cartrefi y flwyddyn | Cartrefi 2023-38 | Cyflogaeth 2023-38 |
|---|---|---|---|
| 1. Rhagolwg economaidd sylfaenol | 514 | 7,710 | 7,875 |
| 2. Tueddiad twf poblogaeth hirdymor | 562 | 8,430 | 8,085 |
| 3. Prif amcanestyniad poblogaeth LlC | 634 | 9,510 | 8,415 |
| 4. Twf economaidd uwch | 634 | 9,510 | 10,238 |
| *Cymariaethau...* | | | |
| *Cyflenwi tai cyfartalog (2010-23)* | *485* | *7,275* | *6,480* |
| *Amcanestyniad demograffig amrywiolyn isel LlC* | *416* | *6,240* | *6,480* |
| *Amcanestyniad demograffig amrywiolyn uchel LlC* | *801* | *12,015* | *10,350* |
| *Gofyniad CDLl mabwysiedig* | *1,040* | *15,600* | *13,600* |

5.1.2 Mae'r angen i gynyddu lefelau tai fforddiadwy yn y Sir yn fater allweddol a amlygwyd yn Adroddiad Cwmpasu'r AIG. Ystyriwyd **senario a arweinir gan dai fforddiadwy**[84] ond oherwydd cymhlethdod modelu'r gydberthynas rhwng yr angen am dai a'r angen am dai fforddiadwy yn benodol y gellir ei seilio eisoes ar y senarios demograffig, ni chafodd ei ddatblygu. Fodd bynnag, mae senarios 1-4 yn ystyried effaith gwell ffurfiant aelwyd mewn grwpiau oedran iau yn cyfrif am ganlyniadau posibl gwaethygu fforddiadwyedd tai ar y grwpiau oedran hyn dros y 15 mlynedd diwethaf.

Senarios cymharu

5.1.3 Byddai bwrw ymlaen â **chyfraddau'r CDLl mabwysiedig** (15,600 o gartrefi newydd) a rhagolwg twf cyflogaeth (13,600 o swyddi) yn parhau â'r dull 'busnes fel arfer'. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r CDLl ddefnyddio Amcanestyniadau Twf LlC fel man cychwyn sy'n is na chyfraddau'r CDLl presennol a fabwysiadwyd ar gyfer tai a thwf cyflogaeth. Felly, diystyriwyd y senario hwn fel dewis amgen realistig ac ni chafodd ei ystyried ymhellach fel rhan o'r AIG.

[83] Strategaeth a ffefrir - Abertawe
[84] *Asesiad Twf Economaidd a Thai 2023*

5.1.4 Mae’r senario Cyflenwi Tai Cyfartalog yn adlewyrchu’r gyfradd cyflenwi tai rhwng 2010 a 2023 (senario 'a arweinir gan anheddau') sef 485 o gartrefi'r flwyddyn. Mae hyn yn llai na'r twf a gyflwynwyd yn senarios twf 1-4, gan arwain at dwf poblogaeth is sydd ei angen i gefnogi lefel sylfaenol o dwf economaidd yn groes i weledigaeth ac amcanion CDLl2, Cymru’r Dyfodol ac uchelgeisiau’r Ardal Dwf Genedlaethol. Yn yr un modd, mae senario **Amcanestyniad demograffig amrywiolyn isel LlC** yn rhagweld lefel hyd yn oed is o dwf tai nad yw'n opsiwn realistig. Felly, diystyrir y ddau senario fel opsiynau amgen realistig, dichonadwy, heb eu hystyried ymhellach fel rhan o'r AIG.

5.1.5 I'r gwrthwyneb, byddai **Amcanestyniad demograffig amrywiolyn uchel LlC** yn sicrhau twf economaidd uwch ond mae angen twf tai uwchlaw tueddiadau cyflenwi’r gorffennol, nad oes modd ei gyflawni oherwydd y cyfyngiadau sy'n berthnasol. Mae'r senario yn darparu nifer debyg o swyddi newydd i'r senario twf economaidd uwch (4) ond mae angen mwy o anheddau oherwydd y gwahaniaethau ym mhroffiliau oedran y boblogaeth, felly nid yw'n cael ei ystyried yn strategaeth twf tai / cyflogaeth integredig a chynaliadwy. Diystyriwyd y senario hefyd fel opsiwn amgen ymarferol, realistig ac ni chafodd ei ystyried ymhellach trwy'r AIG.

<u>Cymharu Senarios Twf Amgen</u>

5.1.6 O ganlyniad, diystyriwyd pob un o'r pedwar senario uchod fel rhai nad oeddent yn ymarferol neu'n realistig ac ni chawsant eu hystyried ymhellach trwy'r AIG. Fel arall, ystyrir bod senarios 1-4 yn realistig a rhesymol, yn seiliedig ar senarios economaidd a demograffig, ac roeddent yn destun AIG fel yr amlinellir isod. Mae Tabl 8 yn dangos canlyniad arfarnu senarios twf 1-4 yn erbyn amcanion yr AIG.

**Tabl 8: Arfarniad o Senarios Twf Amgen 1-4 yn erbyn Amcanion yr AIG.**

| Senarios Twf Amgen (2023-2038) | Amcanion yr AIG | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 1 Rhagolwg economaidd sylfaenol (7,710 o gartrefi a 7,875 o swyddi) | ++ | -- | -- | -- | +/- | - | ? | ? | - | I | + | ? | ? | ? | + | I |
| 2 Tueddiad twf poblogaeth hirdymor (8,430 o gartrefi ac 8,085 o swyddi) | + | - | - | - | +/- | - | ? | ? | - | I | + | ? | ? | ? | + | I |
| **LLINELL SYLFAEN** 3 Prif amcanestyniad poblogaeth LlC (9,510 o gartrefi ac 8,115 o swyddi) | - | ++ | + | + | +/- | - | ? | ? | - | I | - | ? | ? | ? | - | I |
| 4 Twf economaidd uwch (9,510 o gartrefi a 10,238 o swyddi) | -- | ++ | ++ | ++ | + | -- | ? | ? | + | I | - | ? | ? | ? | -- | I |

<u>**Senarios Twf 1-4 yr AIG – Crynodeb**</u>

5.1.7 Mae'n ofynnol i'r CDLl ddefnyddio Amcanestyniadau Twf LlC fel man cychwyn ac felly 'Senario Twf 3 Amcanestyniad Poblogaeth LlC' yw'r llinell sylfaen y cymharir y senarios eraill

â hi.  Byddai pob senario yn darparu lefel o dwf tai ac economaidd dros gyfnod y cynllun.  I grynhoi, mae'r Pedwar Senario twf yn cyflwyno'r materion a'r cyfleoedd canlynol:

- Mae'n bosibl mai Senarios Twf 1 a 2 sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar fioamrywiaeth a thirwedd y Sir ac sydd efallai â'r potensial gorau i gefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel (o'u cymharu ag opsiwn 3).  Fodd bynnag, nid yw'r naill Senario na'r llall yn darparu digon o dai i ddiwallu'r anghenion a nodwyd, gan gynnwys tai fforddiadwy, ac felly maent yn debygol o waethygu materion economaidd-gymdeithasol a chydraddoldeb presennol yn y Sir, megis cadw pobl ifanc a mynediad at dai.  O bosibl byddai hyn yn arwain at gynnydd mewn cymudo er mwyn cyrraedd cyflogaeth.  Mae'r ddau Senario'n darparu ar gyfer llai o dwf cyflogaeth na Senario 3 ond maent yn darparu digon o gyfleoedd cyflogaeth sy'n adlewyrchu uchelgeisiau'r Ardal Dwf Genedlaethol. Mae lefel y twf o dan Opsiynau 3 a 4 yn fwy tebygol o gyflawni'r manteision cymdeithasol ac economaidd hyn.

- Mae gan Senario 3 effeithiau negyddol posibl ar fioamrywiaeth, tirwedd a phriddoedd. Gallai hefyd arwain at yr angen mwyaf i deithio, oherwydd nad oes digon o dai wedi'u hadeiladu i gydredeg â thwf swyddi, gydag effeithiau negyddol posibl wedyn ar ansawdd aer y gellir eu lliniaru gan leoliad safle cynaliadwy a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol a darparu mwy o wybodaeth ddaearyddol.  Fodd bynnag, mae'n darparu lefel ddigonol o dai a lefel o dwf economaidd.

- Mae Senario 4 yn darparu'r un lefel o dwf tai â Senario 3, ynghyd â lefel uwch o dwf cyflogaeth felly mae'n cael effeithiau cadarnhaol posibl ar dai, yr economi, a chydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol ac yn bodloni amcanion yr Ardal Dwf Genedlaethol.  Ar y llaw arall, os oes mwy o swyddi wedi'u creu na thai a ddarperir, efallai y bydd cynnydd mewn cymudo am nad yw lefel y tai'n cynhyrchu gweithlu digonol i ddiwallu anghenion. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai dyma'r effeithiau mwyaf negyddol ar fioamrywiaeth a thirwedd o gymharu â Senarios eraill. Gellid osgoi'r rhain neu eu lliniaru trwy ddewis safle cynaliadwy gan ystyried effeithiau ecolegol a thirwedd.  Gallai'r senario arwain at y golled fwyaf o bridd (tir glas), oherwydd lefelau twf, y gellir ei lliniaru'n rhannol trwy ddefnyddio cymaint â phosibl o dir a ddatblygwyd yn flaenorol.

5.1.8 Nid yw effeithiau'r senarios ar ansawdd a chyflenwad dŵr, gwastraff, yr amgylchedd hanesyddol, adnoddau naturiol yn hysbys ar hyn o bryd, ond gellid lliniaru eu heffeithiau posibl trwy dechnegau dewis a dylunio ac adeiladu gofalus sy'n ceisio lleihau defnydd.   Bydd yr effeithiau posibl ar y Gymraeg yn dibynnu rhywfaint ar leoliad a lefelau twf yn ogystal â'r effeithiau posibl yn erbyn amcan newid hinsawdd yr AIG.

5.1.9 Mae'r senarios twf yn cael eu hystyried heb wybodaeth am leoliad gofodol twf ac roedd yn anodd gwneud y senarios twf yn destun asesiad AIG cadarn oherwydd lefel y rhagdybiaeth dan sylw.  Er enghraifft, effaith y senarios ar lawer o amcanion yr AIG, megis ar ddŵr, ansawdd aer neu dirwedd.

## 5.2 DULLIAU GOFODOL AMGEN

5.2.1 Mae'r dulliau gofodol yn ystyried ymhle gellid lleoli'r angen a nodwyd am dir tai a chyflogaeth (rhwng 7,710 a 9,510 o gartrefi newydd a rhwng 11 hectar a 25ha o dir cyflogaeth) yn y Sir.  Ni fydd y ddarpariaeth tai i gyd ar ddyraniadau safle newydd gan fod

safleoedd presennol sydd â chaniatâd cynllunio lle na ddechreuwyd adeiladu eto a hap-safleoedd anhysbys yn y dyfodol a fydd yn cyfrannu at ddarparu cartrefi newydd a datblygu cyflogaeth.

5.2.2 Nodir saith Parth Polisi Tai Strategol (SHPZ) yn y CDLl presennol yn seiliedig ar grwpiau o wardiau sydd â nodweddion tebyg a elwir yn 'ardaloedd marchnad dai' (HMA) ac mae'r ffiniau SHPZ wedi'u diwygio i adlewyrchu newidiadau yn ffiniau wardiau (Ffigur 4). Mae tua 23% o'r preswylwyr yn byw yn yr HMA Canolog ac 21% yn byw yn HMA y Gogledd. Mae'r Gogledd-orllewin Fwyaf a'r Gorllewin yn cynnwys 17% a'r Dwyrain yn cynnwys 16% o'r trigolion. Mae Ymylon Gŵyr a Gŵyr yn llai poblog, gan gynnwys 3-4% yn unig yr un o gyfanswm y boblogaeth.

5.2.3 Ystyriwyd pum dull gofodol amgen rhesymol a realistig i ddarparu twf yn y dyfodol a buont yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024[85][86], gan gynnwys ystyried parhad y strategaeth ofodol bresennol (sy'n cynrychioli busnes fel arfer):

1 **Tir Llwyd Trefol**: datblygu sy'n canolbwyntio ar ganolfannau trefol, ar dir llwyd ac ymrwymiadau maes glas presennol. Cyfleoedd twf posibl ar safleoedd tir llwyd hyfyw a chyflawnadwy o fewn y prif ganolfannau trefol ac aneddiadau o fewn ffiniau trefol a phentrefi presennol. Cyfleoedd sy'n debygol o fodoli ym Mharthau SPHZ y Canol, Dwyrain, Gogledd, Gorllewin, Gogledd-orllewin Fwyaf, ond cyfleoedd cyfyngedig yn Ymylon Gŵyr a Gŵyr

2. **Creu Lleoedd Strategol**: Dyma strategaeth bresennol y CDLl (yr ystyrir felly ei bod yn cynrychioli '*busnes fel arfer')* sy'n canolbwyntio ar nifer sylweddol o safleoedd strategol mewn lleoliadau allweddol gan gynnwys ar ymyl yr ardal drefol ar gyfer datblygiad preswyl a defnydd cymysg. Cyfleoedd twf posibl ar safleoedd hyfyw a chyflawnadwy mewn lleoliadau strategol gyda mynediad da at wasanaethau sy'n gallu Creu Lleoedd ar raddfa strategol. Cyfleoedd o fewn Parthau SHPZ y Dwyrain, Canol, Gogledd-orllewin Fwyaf, ond llai o gyfleoedd o fewn y Gorllewin, Ymylon Gŵyr a Gŵyr.

3. **Gwasgariad:** yn canolbwyntio ar nifer uwch o safleoedd ar raddfa lai ac ymagwedd lawer mwy gwasgaredig at dwf ledled y Sir gyda chyfleoedd twf posibl ar safleoedd hyfyw a chyflawnadwy ym mhob anheddiad ym mhob SHPZ

4. **Cymunedau o Gysylltiadau Gwych:** datblygiad yn canolbwyntio ar safleoedd cynaliadwy o gysylltiadau gwych a fyddai'n hyrwyddo defnyddio llai o geir. Cyfleoedd twf posibl ar safleoedd hyfyw a chyflawnadwy sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan wasanaethau a rhwydweithiau trafnidiaeth neu sydd â'r arbedion maint i greu cymdogaethau cynaliadwy 15/20 munud. Mae cyfleoedd ym mhob SHPZ ar wahân i Ymylon Gŵyr a Gŵyr

5. **Clystyru Angen Tai:** Datblygu sy'n canolbwyntio ar ardaloedd sydd â'r angen tai mwyaf a nodwyd fel y diffinnir gan yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA). Mae cyfleoedd twf posibl ar safleoedd hyfyw a chyflawnadwy a all ddarparu'r tai fforddiadwy mwyaf

[85] https://swansea.oc2.uk/docfiles/12/GSA_SwanseaLDP2_May2024.pdf
[86] https://swansea.oc2.uk/document/10

posibl o fewn aneddiadau, ffiniau pentrefi ac aneddiadau allanol mewn lleoliadau cynaliadwy sydd wedi'u lleoli'n dda i'r ardal drefol. Mae'r LHMA yn dangos bod yr angen fforddiadwy mwyaf o fewn y Canol a'r Gogledd ac yna'r Dwyrain, Gorllewin, Gogledd-orllewin Fwyaf, Ymylon Gŵyr a Gŵyr.

**Asesu**

5.2.4 Aseswyd y pum dull gofodol ar lefel eang iawn cyn yr ymgynghoriad blaenorol. Mae Tabl 9 yn nodi eglurder pellach ynghylch effaith debygol pob un o'r Dulliau ar amcanion yr AIG. Mae'r taflenni asesu yn Atodiadau adroddiad llawn yr AIG.

**Tabl 9: Cymharu Dulliau Gofodol Amgen**

| Dull Gofodol | Amcan yr AIG | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| Tir Llwyd Trefol | + | -- | -- | - | - | + | ? | +/- | ++ | ? | I | ? | + | +/- | +/- | - |
| Creu Lleoedd Strategol (strategaeth CDLl bresennol) | -- | +/- | +/- | + | + | - | ? | ? | +/- | ? | I | ? | - | ? | - | +/- |
| Gwasgariad | -- | + | ++ | +/- | - | - | ? | ? | - | ? | I | ? | - | ? | - | + |
| Cymunedau o Gysylltiadau Gwych | - | +/- | +/- | +/- | +/- | - | ? | - | +/- | I | I | ? | - | + | - | I |
| Clystyru Angen Tai | - | + | ++ | +/- | +/- | - | ? | - | - | I | ? | ? | - | + | - | I |

5.2.5 Ystyrir bod Dull Gofodol 2 'Creu Lleoedd Strategol' yn cynrychioli'r dull gofodol presennol, ac felly fe'i hystyrir yn llinell sylfaen, gyda'r pedwar dull arall yn cael eu sgorio yn erbyn hwn, gan ystyried effeithiau posibl o'u cymharu â'r sefyllfa bresennol. Ystyrir y dulliau heb wybodaeth fanwl am leoliad gofodol twf, lefel twf neu fath o ddatblygiad a gynigir, felly roedd yn anodd eu gwneud yn destun asesiad AIG cadarn oherwydd lefel y rhagdybiaeth dan sylw. Rhoddir crynodeb o'r asesiad isod.

## 5.3 CRYNODEB O'R ASESIAD

5.3.1 Yn gyffredinol, mae **Dull gofodol 2** yn perfformio'n dda yn erbyn fframwaith yr AIG, yn enwedig o ran twf economaidd ac iechyd a lles, o'i gymharu â'r dulliau eraill. Ceir hefyd rywfaint o bositifrwydd a negyddoldeb yn erbyn amcanion bioamrywiaeth, cydraddoldeb ac allgau cymdeithasol, yr angen i deithio a'r Gymraeg. Mae angen rhagor o fanylion i sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru lle bo hynny'n bosibl, yn y Cynllun Adnau, wrth ddyrannu safleoedd ac yn y camau datblygu. Roedd Dull 1 yn cymharu'n wael â Dull 2 yn erbyn amcanion tai, cydraddoldeb ac allgau cymdeithasol a'r Gymraeg, ond mae'n perfformio'n well o ran lleihau'r angen i bobl deithio.

5.3.2 Mae **Dull 2** yn darparu cartrefi newydd a chyfleoedd cyflogaeth ar nifer fach o safleoedd mawr, a fydd yn darparu'r nifer fwyaf o dai fforddiadwy gydag *effeithiau cadarnhaol tymor*

*byr a hirdymor* ar ddiwallu anghenion tai pobl ond efallai na fyddant yn cyflawni ledled y Sir. O gymharu, mae **Dulliau 3 a 4** yn diwallu anghenion tai a chyflogaeth ar draws y Sir, gan helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol a darparu mynediad at dai fforddiadwy, ond efallai na fyddant yn darparu safleoedd digon o faint i ddarparu nifer sylweddol o dai fforddiadwy, buddion cymunedol a seilwaith eraill neu safleoedd cyflogaeth o faint digonol ac mewn lleoliadau priodol i ddiwallu anghenion, tra bod **Dull 1** yn canolbwyntio ar safleoedd o fewn ardaloedd trefol presennol.

5.3.3 Mae **Dull 4** yn ceisio datblygu o fewn ac o amgylch aneddiadau presennol, llwybrau teithio llesol a chysylltiadau trafnidiaeth sy'n lleihau'r angen i deithio (gan leihau'r defnydd o geir preifat felly) gyda rhai effeithiau cadarnhaol ar ansawdd aer ac a fyddai'n helpu i hyrwyddo ffordd o fyw egnïol ac iach. Fodd bynnag, gall dwyseddau cynyddol gael effeithiau negyddol byr a chanolig ar ansawdd aer gan ddibynnu ar gyflymder y newid moddol. Mae hyn yn debyg i **Ddull 2** a allai gynyddu teithio i ganol y ddinas a chanolfannau sefydledig eraill er mwyn cael at wasanaeth a chyflogaeth os nad ydynt yn cael eu darparu ar safleoedd. Byddai llawer yn dibynnu ar ddatblygu fesul cyfnod a newidiadau cymdeithasol mewn moddau trafnidiaeth, yn ogystal â darparu a chynnal llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus. **Dull 1** sy'n perfformio orau o ran lleihau'r angen i deithio am ei fod yn ceisio datblygu o fewn ardaloedd trefol presennol.

5.3.4 Bydd pedwar dull gofodol yn cael effaith negyddol hirdymor ar fioamrywiaeth a phridd gan y byddant yn golygu colli safleoedd maes glas a sterileiddio adnoddau pridd yn barhaol oherwydd datblygiad adeiledig. **Dull 1** yw'r mwyaf cadarnhaol, gyda ffocws ar safleoedd tir llwyd, ond mae'n debygol (ond yn anhysbys ar hyn o bryd) y gallai datblygiad safleoedd tir llwyd hefyd gael *effaith negyddol tymor byr* ar fioamrywiaeth gan fod llawer o safleoedd tir llwyd yn ecolegol gyfoethog. Byddai *effeithiau negyddol tymor byr* yn digwydd ochr yn ochr â chlirio ac adeiladu safleoedd, ond mae cyfleoedd *ar gyfer effeithiau cadarnhaol hirdymor* oherwydd gwella bioamrywiaeth a gwreiddio gwybodaeth ddaearyddol mewn datblygiad. Mae perfformiad yn erbyn yr amcan cynaliadwyedd hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar ddewis a gweithredu safle oherwydd natur leol y nodweddion hyn ac felly mae'n anodd arfarnu effaith ar y lefel strategol hon. Mae'r Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad liniaru yn erbyn colli bioamrywiaeth ac arwain at enillion net a gallai cyflwyno gwybodaeth ddaearyddol gynyddu amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau ar safle*, gan arwain at effeithiau cadarnhaol ar unwaith ac yn y tymor hir.*

5.3.5 Mae perfformiad yn erbyn amcanion cynaliadwyedd sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd ac ynni adnewyddadwy yn dibynnu i raddau helaeth ar y math o ddatblygiad a gynigir, dewis safle a gweithredu ac mae'n anodd arfarnu'r effeithiau hyn ar hyn o bryd.

5.3.6 O ran y Gymraeg, bydd Dull 2 yn arwain at nifer sylweddol o dai yn cael *effeithiau hirdymor negyddol* ar yr iaith, yn enwedig yn SHPZ y gogledd-orllewin os nad yw trigolion newydd yn siaradwyr Cymraeg. I'r gwrthwyneb, gall mwy o dai fforddiadwy, cyflogaeth leol, ysgolion a chyfleusterau cymunedol helpu i hyrwyddo a gwella'r iaith gydag *effeithiau cadarnhaol yn y tymor canolig a'r tymor hir.* O'i gymharu â Dull 2, mae Dull 3 yn caniatáu lefel resymol o dwf i gefnogi a chynnal y Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg gydag effeithiau hirdymor cadarnhaol. I'r gwrthwyneb, efallai na fydd Dull 1 yn cyflawni lefelau digonol o dai, gan

gynnwys tai fforddiadwy, mewn ardaloedd ynghyd â seilwaith ategol i helpu i gynnal y Gymraeg.

**Effeithiau Cronnus, Synergaidd ac Anuniongyrchol**

5.3.7 Mae'r rhain yn anodd eu hasesu gan fod llawer yn dibynnu ar effaith polisïau San Steffan a Llywodraeth Cymru, lefelau mudo i mewn ac allan o'r Sir, a ffactorau economaidd gan y gall mwy o swyddi ar gael ac ati gynyddu'r boblogaeth, cadw grwpiau oedran iau ac felly dros y tymor hir o bosibl effeithio ar gyfraddau geni, anghenion addysg ac yn y blaen. I'r gwrthwyneb, gall colled poblogaeth ddigwydd oherwydd dirywiad economaidd, a hynny'n fwyaf tebygol mewn grwpiau oedran iau ac ymhlith y rhai sy'n chwilio am waith, gan arwain at boblogaeth hŷn ac effeithiau cysylltiedig ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac anfanteision economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â diweithdra os bydd lefelau cyflogaeth yn gostwng. Nid yw effeithiau colli swyddi mawr yng ngwaith dur TATA yng Nghastell-nedd Port Talbot yn hysbys eto, ond disgwylir iddynt fod yn eang a chael effaith ar raddfa ranbarthol. Bydd strategaethau cynllunio defnydd tir awdurdodau cyfagos hefyd yn cael effaith ar y Sir, yn ogystal â chynlluniau a strategaethau eraill, er enghraifft Bwrdd Iechyd Bae Abertawe, y prosiect Metro rhanbarthol, neu brosiectau ynni mawr ar y môr a allai effeithio ar y dociau a'r ardaloedd cyfagos. Bydd effeithiau cymdeithasol ac ymddygiadol hefyd yn dylanwadu ar ganlyniadau'r CDLl, er enghraifft y nifer sy'n manteisio ar deithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na cheir preifat, defnyddio cerbydau trydan, manteisio ar ynni adnewyddadwy a symud tuag at sero net.

# 6.0 STRATEGAETH CREU LLEOEDD ABERTAWE 2038

## 6.1 GWELEDIGAETH STRATEGAETH A FFAFRIR

6.1.1 Diwygiwyd Gweledigaeth flaenorol CDLl2 i gynnwys sylwadau ymgyngoreion, gan gynnwys argymhellion yr AIG (Atodiad E o Adroddiad llawn yr AIG). Gwnaed gwelliannau pellach o ganlyniad i'r AIG a dyma'r Weledigaeth Strategaeth a Ffafrir:

**'Abertawe 2038'** yn ddinas arloesi a chreadigrwydd arfordirol ffyniannus yng nghanol Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli, lle gall pobl fwynhau bywyd o ansawdd uchel mewn amgylcheddau naturiol ac adeiledig rhagorol. Creu lleoedd, gwrthsefyll yr hinsawdd a gwella bioamrywiaeth fydd yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer datblygu newydd, gan helpu i greu lleoedd sy'n annog byw'n iach a gwella lles pobl. Bydd Canol Dinas Abertawe a'r ardaloedd cyfagos ar y glannau yn gyrchfannau bywiog, defnydd cymysg sy'n cynnig ystod unigryw o gyfleoedd hamdden, gwasanaethau masnachol a mannau agored ochr yn ochr â bywyd trefol dwysedd uchel. Ategir yr ardaloedd hyn gan rwydwaith o gymdogaethau o gymeriad penodol ar draws lleoliadau trefol a gwledig lle gall cymunedau ffynnu, gan gynnig ystod a dewis o gartrefi o ansawdd uchel mewn amgylcheddau diogel, wedi'u cysylltu'n dda â gwasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth o ddydd i ddydd. Bydd gan breswylwyr ac ymwelwyr fynediad da at amgylcheddau naturiol gwell, gan gynnwys arfordir ysblennydd yr ardal a'r gefnwlad wledig, ac at ystod amrywiol o asedau diwylliannol a threftadaeth Abertawe. Bydd lleoedd yn elwa ar ddigonedd o seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol ac ecosystemau gwydn o bob maint, a fydd, ochr yn ochr â mathau cynaliadwy o dwf a buddsoddiad trawsnewidiol, yn helpu i gefnogi trosglwyddiad Abertawe i sero net.

6.1.2 Cyflwynir cymhariaeth o ganlyniadau'r AIG rhwng y fersiwn ymgynghori ym mis Mai 2024 a'r fersiwn uchod yn Nhabl 10, er nad ellir eu cymharu'n uniongyrchol am fod gwahanol fatricsau sgorio wedi'u defnyddio. Daw'r AIG i'r casgliad bod y Weledigaeth yn mynd i'r afael ag agweddau ar ddatblygu cynaliadwy yn llwyddiannus, gan gynnwys buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cadarnhaol. Mynegir y Weledigaeth fel 'Abertawe 2038' i gofleidio treftadaeth ddiwylliannol y Sir ac adlewyrchu nodau ehangach i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg dros gyfnod y Cynllun a'r tu hwnt. Nid yw'r effeithiau ar adnoddau pridd, gwastraff a mwynau yn hysbys ar hyn o bryd ac mae angen manylion pellach am leoliad twf, math o dwf a pholisïau a dyraniadau safle penodol.

**Tabl 10: Sgoriau AIG Gweledigaeth ddrafft Mai 2024 a Gweledigaeth Strategaeth a Ffafrir**

| | **Amcanion yr AIG** | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 (Newydd) |
| **Gweledigaeth Ddrafft KIVO 2024** | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Gweledigaeth PS 2024** | ++ | ++ | + | + | ++ | ? | + | I | ++ | ++ | + | ? | ? | + | + | + |

Sgôr ar gyfer mis Mai 2024:

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Alinio cadarnhaol rhwng amcan CDLl2 ac amcan AIG | | Dim cysylltiad uniongyrchol rhwng aliniad rhwng amcan CDLl2 ac amcan AIG |
| ? | Aliniad anhysbys rhwng amcan CDLl2 ac amcan AIG | | Gwrthdaro posibl rhwng amcan CDLl2 ac amcan AIG |

## 6.2 AMCANION

6.2.2 Yn yr un modd, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, adolygwyd y deunaw amcan CDLl i ystyried y sylwadau a gafwyd. Ymgorfforir nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o fewn amcanion y CDLl, ac maent yn gyson â chynlluniau a strategaethau corfforaethol y Cyngor, gan adlewyrchu polisi cenedlaethol, gan gynnwys Cymru'r Dyfodol. Ceir rhagor o fanylion am amcanion y CDLl yn y Papur Dadansoddi Cydweddoldeb ac Aliniad Materion, Amcanion a Pholisïau Strategol (Rhagfyr 2024). Mae 18 Amcan y CDLl wedi'u grwpio o dan benawdau cryno pedwar amcan y Cynllun Llesiant lleol:

**Adeiladu Cymunedau Cydlynol a Gwydn**
*Amcan 1: Sicrhau newid trawsnewidiol drwy adfywio*
*Amcan 2: Blaenoriaethu Canol Trefi'n Gyntaf*
*Amcan 3: Darparu ar gyfer gweithgarwch economaidd cynaliadwy a swyddi o ansawdd da*
*Amcan 4: Gwella'r economi ymwelwyr*

**Mynd i'r Afael â Newid Hinsawdd ac Adfer Natur**
*Amcan 5: Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd*
*Amcan 6: Ymateb i'r Argyfwng Natur*
*Amcan 7: Defnyddio a chynhyrchu mwy o Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel*
*Amcan 8: Sicrhau twf aneddiadau cynaliadwy*
*Amcan 9: Hwyluso pontio i Economi Gylchol*
*Amcan 10: Sicrhau Defnydd Cynaliadwy o Adnoddau Mwynau*

**Creu Lleoedd Gwych i Fyw'n Dda ym Mhob Cyfnod o Fywyd**
*Amcan 11: Gwella darpariaeth cartrefi newydd i ddiwallu anghenion*
*Amcan 12: Ymgorffori Creu Lleoedd*
*Amcan 13: Hwyluso newid moddol i Foddau Teithio Llesol a Thrafnidiaeth Gynaliadwy*
*Amcan 14: Gwella capasiti seilwaith*
*Amcan 15: Cadw a gwella'r amgylchedd diwylliannol a hanesyddol*
*Amcan 16: Hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg*

**Galluogi bod cyfleoedd o fewn cyrraedd o gyfnodau cynharaf bywyd**
*Amcan 17: Hyrwyddo lles a chydraddoldeb*
*Amcan 18: Sicrhau cysylltedd da â gwasanaethau lleol a chyfleusterau cymunedol*

6.2.3 Aseswyd amcanion diwygiedig CDLl2 drwy amcanion yr AIG a dangosir crynodeb yn Nhabl 11. Ar hyn o bryd, mae llawer o ganlyniadau amcanion CDLl2 yn anhysbys ac yn dibynnu ar ffactorau eraill megis polisïau yn y CDLl2 Adnau, dyraniadau safle, math o ddatblygiad neu leoliad. Ar y cyfan, mae'r 18 Amcan yn sgorio'n gadarnhaol yn erbyn amcanion yr AIG gyda dim ond pum sgôr negyddol bosibl wedi'u hamlygu. Felly mae'r agweddau amrywiol ar gynaliadwyedd fel y'u cyflwynwyd o fewn amcanion yr AIG wedi cael sylw a'u hystyried o fewn amcanion CDLl2.

**Tabl 11: Amcanion CDLl2 y Strategaeth a Ffafrir yn erbyn amcanion yr AIG**

| Amcanion CDLl 2 | Amcanion yr AIG | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 1 | I | I | ++ | ++ | I | I | I | I | + | - | ? | ? | ? | ++ | ++ | +/- |
| 2 | I | I | +/- | ++ | + | + | I | I | ++ | - | ? | ? | ? | ? | ? | +/- |
| 3 | I | I | ++ | ++ | I | I | I | I | +/- | I | I | I | ? | I | ? | + |
| 4 | I | +/- | +/- | + | I | I | I | I | - | I | I | x | ? | +/- | +/- | +/- |
| 5 | ++ | + | + | I | + | I | I | ? | I | ++ | ++ | + | + | ? | + | x |
| 6 | ++ | +/- | + | I | + | + | ++ | ++ | I | + | I | I | +/- | + | ++ | x |
| 7 | ? | I | + | I | X | I | I | ++ | I | ++ | ++ | + | I | +/- | - | X |
| 8 | I | ++ | + | ++ | I | + | I | I | + | I | I | x | I | I | I | I |
| 9 | I | x | X | I | X | I | + | x | X | ++ | + | ++ | + | + | ? | x |
| 10 | I | + | X | + | x | ? | I | ? | ? | ? | + | ++ | ++ | + | - | x |
| 11 | I | ++ | ++ | + | ++ | I | I | I | ++ | | + | I | I | +/- | ? | +/- |
| 12 | I | + | + | I | ++ | 0 | I | + | + | I | I | I | I | I | ? | x |
| 13 | I | x | ++ | I | + | ? | X | ++ | ++ | ++ | x | X | I | 0 | ? | x |
| 14 | I | ++ | ++ | ++ | I | I | ++ | x | ++ | + | ++ | ++ | I | 0 | ? | x |
| 15 | I | +/- | + | + | I | 0 | ? | I | +/- | I | +/- | + | 0 | ++ | ++ | ++ |
| 16 | x | +/- | + | + | x | x | x | x | x | x | X | x | x | ++ | X | ++ |
| 17 | + | ++ | ++ | ++ | ++ | 0 | ++ | ++ | ++ | I | ++ | + | I | + | + | ++ |
| 18 | + | ++ | ++ | + | ++ | I | I | + | ++ | ? | X | + | I | ++ | ? | ++ |

- Mae Amcanion 1-4 CDLl2 wedi'u grwpio o dan *'adeiladu cymunedau cydlynol a gwydn'* yn sgorio'n gadarnhaol yn erbyn amcanion economaidd. Mae'r asesiad yn adlewyrchu'r ffaith bod rhan o ganol y ddinas o fewn ardal perygl llifogydd a bod angen rhagor o fanylion i hysbysu CDLl2. Gall cynyddu nifer yr ymwelwyr a'r preswylwyr gynyddu'r pwysau ar y Dirwedd Genedlaethol gydag effeithiau niweidiol o ganlyniad, a rhaid cymryd gofal i sicrhau bod capasiti a sensitifrwydd y dirwedd naturiol yn cael eu parchu.

- Mae Amcanion 5 – 10 CDLl2 wedi'u grwpio o dan *'Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur*' yn sgorio'n gadarnhaol yn erbyn amcanion bioamrywiaeth, iechyd a lles, newid yn yr hinsawdd ac ansawdd aer yr AIG. Mae effeithiau negyddol posibl ar dirwedd, morlun a treflun o ganlyniad i seilwaith ynni adnewyddadwy neu garbon isel newydd, gweithfeydd mwynau a phwysau hamdden cynyddol gan drigolion ac ymwelwyr.

- Mae Amcanion 11-16 CDLl2 wedi'u grwpio o dan '*Creu lleoedd gwych i fyw'n dda ym mhob cyfnod o fywyd."* yn gadarnhaol mewn perthynas ag amcanion yr AIG ar gyfer tai, cyflogaeth a thwf economaidd, cynhwysiant cymdeithasol a chydraddoldeb, ansawdd aer, dŵr a newid yn yr hinsawdd. Mae Amcanion 17 a 18, wedi'u grwpio o dan '*Sicrhau bod cyfleoedd gwych o fewn cyrraedd pawb o gyfnodau cynharaf bywyd'* yn sgorio'n dda yn erbyn mwyafrif amcanion yr ISA, heb unrhyw sgoriau negyddol posibl.

- Mae amcan 8 yr AIG yn sgorio'n dda yn erbyn hanner amcanion CDLl2, gyda 6 arall yn gofyn am ragor o wybodaeth fel math o ddatblygiad, sut y bydd yn cael ei weithredu ac ati. Felly, amlygir bod ystyriaeth o gydraddoldeb, iechyd a lles yn rhan annatod o amcanion y CDLl.

- O ystyried y Gymraeg, nid yw llawer o amcanion CDLl2 yn uniongyrchol berthnasol ac, yn yr un modd, nid yw llawer o amcanion yr AIG yn uniongyrchol berthnasol i amcan 16 CDLl2. Sgoriodd amcanion CDLl2 yn gadarnhaol mewn perthynas â diwylliant a threftadaeth. Gall adfywio a datblygu newydd helpu i gadw pobl mewn cymuned, ond nid yw amcan 1 y CDLl yn sôn am dai, felly byddai'n dibynnu ar y math o ddatblygiad a'i leoliad. Gall gormod o ddatblygiadau newydd lethu cymuned, ond i'r gwrthwyneb, gall gynnig cyfleoedd ar gyfer seilwaith cymdeithasol fel ysgolion, canolfannau cymunedol newydd ac ati.

**Tabl 12: Cydnawsedd Amcanion CDLl2**

| Amcan CDLl | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 7 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 8 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 9 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 10 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 11 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 12 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 13 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 14 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 15 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 16 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 17 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 18 | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cydnawsedd cryf | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Niwtral/dim cysylltiad clir | | Anghydnawsedd posibl – ystyried lliniaru (e.e. trwy bolisi) |

6.2.4 Cynhaliwyd asesiad o gydnawsedd y deunaw amcan CDLl2 yn y man hwn a chyflwynir crynodeb o sgorio'r amcanion a nodir uchod yn Nhabl 12. Yn gyffredinol, mae'r amcanion yn gydnaws â'i gilydd. Mae rhai materion anghydnawsedd posibl cynhenid, megis twf a datblygiad yn erbyn gwarchod tirwedd a bioamrywiaeth; neu leihau'r angen i deithio a lleihau allyriadau carbon drwy annog a thyfu'r economi ymwelwyr (a fydd yn annog teithio). Fodd bynnag, heb fanylion pellach ynghylch lleoliad a math o dwf a mesurau lliniaru nid yw'r effeithiau'n hysbys ar hyn o bryd.

## 6.3 STRATEGAETH A FFAFRIR CDLl2

Senario Twf

6.3.1 O ganlyniad i senarios twf amgen yr AIG ac ystyried cynlluniau a strategaethau eraill, bydd y Strategaeth a Ffafrir yn dilyn **Senario Twf 4: Twf Economaidd Uwch,** gan hwyluso cyflenwi **11,410** o gartrefi newydd hyd at 2038 (gan gynnwys 20% o lwfans hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer rhai safleoedd yn peidio â chael eu datblygu yn ôl y disgwyl a ffactorau annisgwyl eraill sy'n effeithio ar y ddarpariaeth) a chreu **10,238** o swyddi net, ochr yn ochr â dyrannu 25ha o dir cyflogaeth. Mae hyn yn adlewyrchu lleoliad y Sir o fewn yr Ardal Dwf Genedlaethol ac fel gyrrwr economaidd ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Dull Gofodol

6.3.2 O ganlyniad i AIG y dulliau gofodol amgen, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ystyried strategaeth ofodol y CDLl presennol, argymhellir ystyried opsiwn hybrid fel y dull gofodol a ffafrir ar gyfer CDLl2, sy'n cynnwys yn bennaf **Ddull 2: Creu Lleoedd Strategol a Dull 4: Cymunedau o Gysylltiadau Gwych**, ynghyd ag elfennau cryfaf y tri dull arall (Tabl 13). Roedd y ffaith bod strategaeth ofodol bresennol y CDLl presennol yn gadarn hefyd yn ystyriaeth allweddol a bydd parhad yn sicrhau cysondeb i ddatblygwyr a sicrwydd i breswylwyr. Mae gan rai safleoedd ganiatâd cynllunio llawn neu amlinellol tra bod ceisiadau cynllunio eraill yn mynd rhagddynt gyda hyder y byddant yn cael eu datblygu. Bydd y dull gweithredu hefyd yn galluogi darparu 25 hectar o dir cyflogaeth drwy ystod a dewis o safleoedd cyflogaeth mewn lleoliadau strategol ledled y Sir i gefnogi twf economaidd cynaliadwy.

6.3.3 Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod twf yn gynaliadwy ledled y Sir, ni fydd pob twf ar safleoedd strategol newydd (neu safleoedd sy'n bodoli'n barod). Dulliau 2 a 4 ardal wedi'i hategu gan elfennau o Ddull 1 tir llwyd trefol, Dull 3: Gwasgariad a Dull 5: Angen Tai er mwyn sicrhau bod anghenion tai a chyflogaeth yn cael eu diwallu ledled y Sir ac mewn ardaloedd gwledig a lled-wledig.

6.3.4 Y dull gofodol hybrid:

- Ardaloedd datblygu a arweinir gan ddatblygiad defnydd cymysg a phreswyl strategol mawr a gefnogir gan ddatblygiadau yn y cylch a (gan gynnwys ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol) mewn cymdogaethau a chanolfannau trefol presennol gyda gwasanaethau, cyfleusterau a chysylltiadau thrafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol da (dull 2 a 4)

- Blaenoriaethu ailddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol, gan gynnwys gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer ailddatblygu o fewn canolfannau diffiniedig, er enghraifft trwy gyfleoedd ailddatblygu mewnlenwi ac addasiadau uwchlaw siopau, ond cefnogi cyfleoedd maes glas lle bo angen y rhain i gyflawni'r strategaeth;
- Ceisio darparu ystod a chymysgedd o feintiau safleoedd sy'n adlewyrchu strategaeth anheddu a rôl a swyddogaeth lleoedd, gyda safleoedd yn cael eu rhyddhau ar raddfa strategol yn ogystal â safleoedd a all fod yn ddeniadol i ddatblygwyr ar raddfa BBaCh,
- Darparu datblygiad ar raddfa fach mewn ardaloedd lled-wledig a gwledig drwy ddarparu cyfleoedd mewn safleoedd priodol mewn aneddiadau sefydledig â gwasanaeth da yn unol â'r Strategaeth Anheddu a fydd yn darparu cyfran uchel o dai fforddiadwy ac yn diwallu'r angen a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), (dull 3)
- Oherwydd hyfywedd, y gallu i wneud y mwyaf o dai fforddiadwy mewn Ardaloedd Creu Lleoedd ac Adfywio Strategol (SPRA), tra'n darparu tai fforddiadwy i ardaloedd lled-wledig a gwledig i ateb y galw (dull 5).

**Tabl 13: Cymharu'r Dulliau Gofodol Amgen gan gynnwys Dull Hybrid**

| Dull Gofodol | Amcan yr AIG | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| Tir Llwyd Trefol | + | -- | -- | - | - | + | ? | +/- | ++ | ? | I | ? | + | +/- | +/- | - |
| Creu Lleoedd Strategol (strategaeth CDLl bresennol) | -- | +/- | +/- | + | + | - | ? | ? | +/- | ? | I | ? | - | ? | - | +/- |
| Gwasgariad | -- | + | + | +/- | - | - | ? | ? | - | ? | I | ? | - | ? | - | + |
| Cymunedau o Gysylltiadau Gwych | - | +/- | +/- | +/- | +/- | - | ? | - | +/- | I | I | ? | - | + | - | I |
| Clystyru Angen Tai | - | + | ++ | +/- | +/- | - | ? | - | - | I | ? | ? | - | + | - | I |
| Dull Hybrid (PS) | +/- | ++ | ++ | ++ | + | - | ? | I | ++ | ? | I | ? | +/- | + | +/- | +/- |


## Crynodeb

6.3.5 Nid oedd un Senario neu Ddull unigol yn darparu'r strategaeth twf a gofodol a oedd yn bodloni blaenoriaethau ac uchelgeisiau'r Cyngor, neu rai Cymru'r Dyfodol. Mae'r ***Strategaeth Creu Lleoedd ar gyfer Abertawe 2038'*** yn ddull hybrid gyda'r dulliau Cymunedau Cysylltiedig a Chreu Lleoedd Strategol yn brif ffocws ac fe'i hystyrir y dull mwyaf priodol i gyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol cyffredinol y cynllun. Mae Ffigur 5: y Diagram Allweddol yn dangos y Strategaeth a Ffafrir.

6.3.6 Mae Senario Twf (4) Twf Economaidd Uwch yn cyflawni'r un lefel o dai â Senario Twf 3 gyda lefel uwch o dwf cyflogaeth, felly mae'n cael effeithiau cadarnhaol posibl ar amcanion tai, yr economi, lles, cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol yr AIG ac yn bodloni amcanion yr Ardal Dwf Genedlaethol a'r Fargen Ddinesig. Nod y Strategaeth yw datblygu safleoedd strategol sydd â'r potensial i gynnwys tai fforddiadwy a seilwaith cymdeithasol a chymunedol newydd ynghyd ag ystod a dewis o feintiau safle mewn ardaloedd sydd â

chysylltiadau da â gwasanaethau a chyfleusterau yn yr ardal drefol ac ar gyrion lleoliadau aneddiadau sy'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth aneddiadau ac yn creu a gwella amgylcheddau iach.  Mae'r AIG yn nodi y gallai hygyrchedd i wasanaethau, a diwallu anghenion tai fforddiadwy fod yn broblemus mewn ardaloedd gwledig a allai effeithio ar les preswylwyr a chydraddoldeb gwasanaethau y mae'n rhaid eu hystyried yn y fframwaith polisi yn y Cynllun Adnau.  Mae'n debygol y bydd effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth a thirwedd o gymharu â senarios eraill, y gellir eu hosgoi neu eu lliniaru trwy ddewis safle cynaliadwy gan ystyried effeithiau ecolegol a thirweddol.  Gallai arwain at golli'r pridd mwyaf (tir maes glas) a allai gael ei liniaru'n rhannol trwy wneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd yn flaenorol.  Ceir buddion economaidd-gymdeithasol, er enghraifft drwy gadw carfannau iau efallai y bydd effeithiau cadarnhaol tebygol ar y Gymraeg gan fod y grwpiau oedran hyn yn dangos cynnydd yn y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021 (grwpiau oedran 16-44).  Hefyd potensial i 'ddenu/apelio' at y rhai a allai fod wedi symud i ffwrdd e.e. Prifysgol/gyrfa gynnar ond sydd bellach yn edrych i ddychwelyd i'r Sir – gan nodi'r duedd grŵp oedran 20/44.

**Ffigur 5: Y Diagram Allweddol**




6.3.7 Bydd angen i fframwaith polisi'r Cynllun hefyd fynd i'r afael â materion nad oes digon o wybodaeth wedi'i darparu ar eu cyfer ar y lefel strategol hon er mwyn asesu'n llawn yn erbyn amcanion canlynol yr AIG:

- Newid Hinsawdd
- Ynni Adnewyddadwy;
- Gwastraff a'r economi gylchol;
- Aer
- Adnoddau Mwynol, a
- Dŵr

6.3.8 Mae hefyd yn anodd pennu a rhagweld pa effeithiau sy'n cael eu priodoli i ansicrwydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, ochr yn ochr â ffactorau megis newidiadau i bolisi lefel genedlaethol yn y cam strategol hwn.

**DYRANIADAU SAFLE ALLWEDDOL**

6.3.9 Mae'r strategaeth ar gyfer dosbarthu twf yn cynnwys ymrwymiadau creu lleoedd strategol presennol o fewn SHPZ y Gogledd-orllewin Fwyaf, SHPZ y Gogledd ac Ardal Ganolog Abertawe, nad ydynt wedi'u hasesu fel rhan o'r AIG hwn gan fod ganddynt ganiatâd cynllunio eisoes.

6.3.10 Nid oes unrhyw safleoedd ymgeisio wedi'u hasesu ar hyn o bryd. Dangosir ardaloedd o 'gyfleoedd datblygu strategol posibl' (Ardaloedd Adfywio Strategol a Chreu Lleoedd) (ardaloedd heb ffin glir) ar y diagram allweddol ond ni fuont yn destun AIG ar hyn o bryd.

## 7.0 POLISÏAU STRATEGOL

7.0.1 Arfarnwyd tua 19 o Bolisïau Strategol drafft yn erbyn fframwaith yr AIG i ystyried a fyddent yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol (Tabl 14). Mae'r polisïau a'r matricsau arfarnu o fewn Atodiadau Adroddiad llawn yr AIG.

**Tabl 14: Asesu Polisïau Strategol drafft gwreiddiol yn erbyn Amcanion yr AIG**

| Polisïau Strategol | Amcanion AIG | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 1 | -- | ++ | ++ | + | + | -- | I | I | ++ | + | x | x | - | x | - | +/- |
| 2 | - | ? | ? | ? | x | - | I | I | I | x | x | x | - | x | ? | ? |
| 3 | - | + | + | + | ++ | - | I | I | I | x | x | x | - | ? | - | ++ |
| 4 | + | ++ | ++ | I | ++ | x | I | I | I | + | x | x | x | x | + | x |
| 5 | + | ++ | + | I | ++ | - | x | I | ++ | + | x | x | - | x | + | I |
| 6 | ? | ? | + | x | + | x | + | x | ? | ++ | x | x | x | x | x | + |
| 7 | -- | ++ | +/- | ++ | ++ | __ | I | I | I | + | ++ | x | -- | x | - | +/- |
| 8 | + | + | + | ++ | +/- | + | - | I | ++ | - | x | x | x | I | I | ? |
| 9 | x | x | + | ++ | I | + | - | ? | + | - | x | x | x | I | I | ? |
| 10 | + | x | + | ++ | x | ? | ? | x | + | + | + | x | ? | x | + | x |
| 11 | +/- | x | + | ++ | x | - | x | x | +/- | - | x | x | x | +/- | ++ | +/- |
| 12 | ++ | + | + | ? | + | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | + | ++ | ? | x |
| 13 | ? | + | + | x | + | x | x+ | + | x | + | + | x | x | x | ? | x |
| 14 | ++ | + | + | I | ++ | + | ++ | + | x | ++ | x | x | x | + | + | x |
| 15 | ++ | ? | + | + | ++ | + | + | + | x | ++ | x | x | x | + | ++ | x |
| 16 | x | x | + | + | x | x | x | x | x | + | + | x | x | ++ | + | x |
| 17 | x | x | ++ | x | + | x | x | x | x | x | X | x | x | ++ | x | ++ |
| 18 | + | x | x | + | ++ | + | x | x | x | ++ | x | ++ | ++ | x | + | x |
| 19 | + | x | x | + | ++ | +/- | ++ | ++ | ++ | + | x | ++ | ++ | ++ | ++ | x |

7.0.2 Arweiniodd yr arfarniad at welliannau i'r polisïau, er enghraifft mân newidiadau geiriad i wneud y polisïau'n fwy dealladwy. Roedd eraill yn fwy sylweddol, megis ychwanegu dau bolisi pellach: Diogelu Tirwedd y Sir (gan nad oedd cyfeiriad penodol at Ardal o Dirwedd Naturiol Eithriadol Gŵyr) ac Uwchgynllunio a Datblygu Preswyl. Mae'r 21 Polisi Strategol diwygiedig a newydd wedi'u nodi yn Atodiadau Adroddiad llawn yr AIG, ynghyd â matricsau

eu hailasesiad yn erbyn Fframwaith yr AIG. Mae Tabl 15 yn crynhoi sgoriau'r polisïau ar ôl ailasesu, lle bo angen. Mae Tabl 16 yn darparu sylwadau, gan gynnwys esboniad byr o'r prif newidiadau i'r polisïau strategol sy'n deillio o broses yr AIG.

7.0.3 Wrth weithredu CDLl2, dylid darllen pob polisi ar y cyd ac ni ddylid ystyried unrhyw bolisi ar wahân. Am y rheswm hwn, oherwydd natur 'amddiffynnol' a rhagnodol rhai polisïau, gallant liniaru effeithiau negyddol posibl wrth weithredu polisïau eraill.

**Tabl 15: Asesiadau Polisi Strategol Terfynol**

| Polisi Strategol | Amcanion AIG | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 1 | -- | ++ | ++ | ++ | + | -- | l | l | ++ | + | x | x | - | x | - | +/- |
| 2 | - | + | + | + | x | - | l | l | + | x | x | x | - | x | l | +/- |
| 3 | - | ++ | ++ | + | ++ | - | l | l | l | x | x | x | - | ? | - | ++ |
| 4 | ++ | ++ | ++ | l | ++ | l | l | l | + | ++ | + | ++ | ++ | + | ++ | + |
| 5 | ++ | ++ | + | l | ++ | - | x | l | ++ | + | x | x | - | + | + | x |
| 6 | l | l | + | x | + | x | + | x | l | + | x | x | x | x | x | + |
| 7 | x | x | ++ | x | + | x | x | x | x | x | x | x | x | ++ | x | ++ |
| 8 | -- | ++ | +/- | ++ | ++ | -- | l | l | l | + | ++ | x | -- | l | - | +/- |
| 9 | + | ++ | ++ | ++ | + | + | - | + | ++ | - | x | x | x | + | l | ? |
| 10 | x | x | + | ++ | l | + | - | ? | + | - | x | x | x | l | l | ? |
| 11 | +/- | x | ++ | ++ | + | - | x | x | +/- | - | x | x | x | ++ | ++ | + |
| 13 | ++ | + | ++ | + | ++ | - | ++ | ++ | ++ | x | x | x | - | x | + | l |
| 14 | x | + | +/- | x | + | x | x | + | ++ | + | + | x | x | x | ? | x |
| 15 | ++ | + | + | ? | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | + | ++ | ? | x |
| 16 | ++ | + | + | l | ++ | + | ++ | + | x | ++ | x | x | x | + | + | x |
| 17 | ++ | ? | + | + | ++ | + | + | + | x | ++ | x | x | x | + | ++ | x |
| 18 | ++ | x | x | x | + | ++ | x | x | x | + | l | x | l | ++ | ++ | x |
| 19 | x | + | ++ | + | x | x | x | x | x | + | + | x | x | ++ | + | ++ |
| 20 | + | x | x | + | ++ | + | x | x | x | ++ | x | ++ | ++ | x | + | x |
| 21 | + | x | x | + | ++ | +/- | ++ | ++ | ++ | + | x | ++ | ++ | ++ | ++ | x |

**Tabl 16: Sylwadau ar Bolisïau Strategol, gan gynnwys Diwygiadau i'r Polisi o Ganlyniad i'r AIG**

| **SP1 Strategaeth Twf** |
|---|
| Mae'r polisi bellach yn cynnwys cyfeiriad at strategaeth anheddu a hierarchaeth canolfannau o fewn yr adran cyflogaeth, felly mae effaith debygol gadarnhaol yn erbyn amcan cyflogaeth yr AIG yn fwy. Mân newidiadau gramadegol i'r polisi, ond nid ydynt yn effeithio ar ganlyniad polisi, felly mae sgorio yr un fath, gydag effeithiau tebygol cadarnhaol yn erbyn Amcanion yr AIG sy'n ymwneud â chyflenwad tai, iechyd a lles, cydraddoldeb ac allgáu cymdeithasol, gan leihau'r angen i deithio a newid yn yr hinsawdd am ei fod yn canolbwyntio ar ddarparu tai a chyflogaeth mewn ardaloedd hygyrch sy'n cydymffurfio â'r strategaeth anheddu. Bydd datblygiad tir maes glas ychwanegol yn cael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, pridd, tirweddau ac adnoddau naturiol oherwydd sterileiddio mwynau posibl. Bydd creu swyddi a chartrefi fforddiadwy yn helpu i gadw grwpiau oedran iau - a fu'n destun cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg yn ogystal â denu grwpiau oedran gweithio posibl yn ôl i'r Sir. Mae darparu tai fforddiadwy ac ati yn gadarnhaol, ond bydd |

| |
|---|
| angen ystyried pryderon y gallai datblygiad mawr gael effeithiau negyddol ar yr iaith os nad oes camau lliniaru e.e. cyflwyno’n raddol, amodau cynllunio ac ati. |
| Lliniaru: SP2-SP8, SP12-14, SP16-18, SP21 |
| **SP2 Strategaeth Anheddu Cynaliadwy** |
| Mae'r polisi bellach yn cynnwys mwy o eglurder ynghylch ardaloedd datblygu drwy nodi lleoliadau ac haenau ac mae mân newidiadau gramadegol yn egluro ei fod yn ymwneud â'r holl ddatblygiad, felly bydd yn cael effaith gadarnhaol yn erbyn amcan 4 yr AIG. Fel arall, mae sgorio yn debyg i'r fersiwn polisi blaenorol ond mae strategaeth gliriach yn arwain at effeithiau tebygol cadarnhaol yn erbyn Amcanion yr AIG sy'n ymwneud â chyflenwad tai, cydraddoldeb ac allgáu cymdeithasol a lleihau'r angen i deithio am ei bod yn canolbwyntio ar leoliad strategol datblygiad. Bydd datblygiad maes glas ychwanegol yn cael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, pridd ac adnoddau naturiol oherwydd posibilrwydd sterileiddio mwynau. Mae darparu tai fforddiadwy ac ati yn gadarnhaol, ond bydd angen ystyried pryderon y gallai datblygiad mawr gael effeithiau negyddol ar yr iaith os nad oes camau lliniaru e.e. datblygu graddol, amod(au) cynllunio ac ati. Bydd yr effeithiau ar dirwedd, aer a dŵr yn dibynnu ar sut mae'r polisi'n cael ei weithredu a ffactorau megis lleoliad datblygiad neu fath o ddatblygiad. |
| Lliniaru: SP1; SP3-SP11; SP13, SP14; SP18; SP21 |
| **SP3: Cartrefi Fforddiadwy a Thai Arbenigol** |
| Mae polisi diwygiedig yn cyfeirio at dai amlfeddiannaeth, Rhaglen Mwy o Gartrefi a'r asesiad o’r farchnad dai leol, gan ddarparu mwy o eglurder a chael mwy o effeithiau cadarnhaol tebygol yn erbyn Amcanion yr AIG sy'n ymwneud â chyflenwi tai, cydraddoldeb ac allgáu cymdeithasol ac iechyd a lles. Bydd datblygiad maes glas ychwanegol yn cael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, pridd ac adnoddau naturiol oherwydd posibilrwydd sterileiddio mwynau. Mae darparu tai fforddiadwy ac ati yn gadarnhaol, ond bydd angen ystyried pryderon y gallai datblygiad mawr gael effeithiau negyddol ar yr iaith os nad oes camau lliniaru e.e. datblygu graddol, amodau cynllunio ac ati. Bydd yr effeithiau ar dirwedd, aer a dŵr yn dibynnu ar sut mae'r polisi'n cael ei weithredu a ffactorau megis lleoliad datblygiad neu fath o ddatblygiad. |
| Lliniaru: SP14; SP18; SP19; SP21 |
| **SP4 Egwyddorion Creu Lleoedd** |
| Diwygiwyd y polisi i ddarparu mwy o fanylion am ofynion datblygu. Dilëwyd cyfeiriad at ddatblygiadau o 100+ o gartrefi. Mae cynnwys cyfeiriad at yr argyfwng natur, cydnerthedd ecosystemau, newid yn yr hinsawdd, economi gylchol, tirwedd, ymdeimlad o le, treftadaeth a lleihau angen i deithio wedi gwella sgoriau yn erbyn y rhan fwyaf o amcanion yr AIG. Gall dwyseddau cynyddol mewn ardaloedd trefol roi pwysau ar seilwaith ac adnoddau sy'n bodoli eisoes a chael effeithiau niweidiol ar ansawdd aer os nad ydynt yn cyd-daro â gostyngiad mewn llygredd aer. Yn yr un modd, gall cymdogaethau 15-20 munud gynyddu'r pwysau i ddatblygu tir maes glas o fewn y 'parth' hwn. Yn gyffredinol, bydd yn dibynnu ar sut mae'r polisi yn cael ei weithredu a'r gallu i sicrhau lliniaru priodol. |
| Lliniaru: SP5; SP13; SP14; SP17; SP20; SP21 |
| **SP5 Uwchgynllunio Datblygiad Preswyl** |
| Polisi newydd, heb ei asesu o'r blaen. Yn ymwneud â datblygiadau o 50 annedd neu ragor. Effeithiau cadarnhaol tebygol yn erbyn Amcanion yr AIG sy'n ymwneud â chyflenwad tai, cydraddoldeb ac allgáu cymdeithasol, iechyd a lles a lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Effeithiau cadarnhaol tebygol yn erbyn Amcan bioamrywiaeth yr AIG am ei fod yn ceisio budd net bioamrywiaeth a gwella gwybodaeth ddaearyddol. Effeithiau negyddol posibl yn erbyn amcanion yr AIG sy'n ymwneud â phridd ac adnoddau naturiol oherwydd datblygiad posibl safleoedd maes glas. |

| |
|---|
| Lliniaru: SP4; SP16: SP17; SP20; SP21 |
| **SP6 Rhwymedigaethau Cynllunio ar gyfer Seilwaith a Mesurau Eraill** |
| Mae'r polisi yn debyg iawn i'r hyn a aseswyd yn flaenorol, ond mae'r gair 'mesurau' wedi'i gynnwys yn y teitl i egluro nad yw'n ymwneud â seilwaith yn unig. Gall mesurau gynnwys gwella bioamrywiaeth, tai fforddiadwy ac ati, felly mae effeithiau tebygol yn erbyn nifer o amcanion yr AIG yn dibynnu ar y math o ddatblygiad ac a oes angen y mesurau penodol hynny fel rhan o A106 yn hytrach nag amodau er enghraifft. Mae polisi'n ceisio mynd i'r afael â diffygion mewn seilwaith a chyfleusterau cymunedol, felly effeithiau cadarnhaol yn erbyn amcanion yr AIG sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac allgáu cymdeithasol, iechyd a lles, gallu seilwaith (dŵr) a'r Gymraeg. Mae asesu'n adlewyrchu bod y polisi bellach yn cyfeirio at seilwaith 'gwydn', ond nid gwydn rhag yr hinsawdd fel o'r blaen. |
| Lliniaru: SP3; SP6; Sp13; SP16; SP17 |
| **SP7: Diogelu a Hyrwyddo'r Gymraeg** |
| Mae'r polisi yr un fath â'r hyn a aseswyd yn flaenorol. Effeithiau cadarnhaol tebygol ar y Gymraeg, diwylliant a threftadaeth, cydraddoldeb ac allgáu cymdeithasol ac iechyd a lles. |
| Lliniaru: SP2; SP3; SP6 |
| **SP8: Ardaloedd Creu Lleoedd ac Adfywio Strategol** |
| Diwygiwyd y polisi i gynnwys cyfeiriad at Ardaloedd Creu Lleoedd ac Adfywio Strategol (SPRA) a arweinir gan Iechyd ac mae'n darparu 'lleoliadau' SPRA, ond nid ardaloedd safle penodol. Mae'r cynllun yn trafod tuag 13 SPRA, rhai ohonynt sydd eisoes â chaniatâd cynllunio. Fodd bynnag, bydd y safleoedd unigol hyn yn parhau i gael eu hasesu drwy broses AIG ailadroddol wrth i'r broses gynllunio fynd yn ei blaen ochr yn ochr â'r asesiad manwl parhaus o safleoedd ymgeisiol. Bydd yr effeithiau o ganlyniad i ddatblygu safleoedd unigol, yn gronnol o fewn ac ar draws SHPZ ac, mewn rhai achosion, ar draws ffiniau'r Sir. Bydd angen lliniaru yn ôl yr angen. Mae'r polisi yn trafod potensial tua 3000 o anheddau ym mharthau polisi tai'r Gogledd-orllewin Fwyaf a'r Gogledd (a chaniatâd cynllunio eisoes gan rai o'r rhain), 600 o anheddau yn y parth canolog a 200 annedd yn y parth gorllewinol. Mae'r asesiad o'r polisi yn erbyn Amcanion yr AIG yn nodi effeithiau tebygol cadarnhaol yn erbyn Amcanion yr AIG sy'n ymwneud â chyflenwad tai, twf economaidd, iechyd a lles, cydraddoldeb ac allgáu cymdeithasol, newid yn yr hinsawdd ac ynni adnewyddadwy a charbon isel. Bydd asesu effeithiau yn erbyn amcan treftadaeth ddiwylliannol yr AIG yn dibynnu ar leoliad manwl cynllun a sut y caiff ei weithredu gan ei fod yn cyfeirio at fuddion diwylliannol newydd ar gyfer SPRA defnydd cymysg, ond nid yw'n sôn am ddiogelu a gwella asedau presennol. Mae dibyniaeth debyg ar weithredu ar gyfer amcanion yr AIG mewn perthynas â dŵr, aer a lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo teithio llesol/trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r polisi yn ceisio hyrwyddo teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus a gallai maint safleoedd olygu bod modd lleihau'r angen i deithio, ond i'r gwrthwyneb os na ddarperir cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a chyflogaeth, gallai hyn gynyddu'r angen i deithio i leoliadau cyflogaeth ac ati. Bydd datblygiadau maes glas ychwanegol yn cael effeithiau negyddol tebygol posibl ar fioamrywiaeth, pridd a thirwedd. Hefyd, gallai fod effeithiau niweidiol tebygol posibl ar adnoddau naturiol oherwydd posibilrwydd sterileiddio mwynau. Mae effeithiau cadarnhaol a negyddol yn debygol ar amcanion yr AIG sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac allgáu cymdeithasol a'r Gymraeg, gan nad yw SPRA yn cael eu dosbarthu'n gyfartal ledled y Sir a bydd angen ystyried pryderon y gallai datblygiad mawr gael effeithiau negyddol ar yr iaith os nad oes unrhyw gamau lliniaru e.e. datblygu graddol, amod(au) cynllunio ac ati, a hefyd os na ddarperir lefelau isel o dai mewn ardaloedd gwledig i gynnal y Gymraeg. |
| Lliniaru: SP3, SP7, SP14 -SP18, SP21 |
| **SP9: Ardal Ganolog Abertawe a Glannau'r Ddinas** |

| |
|---|
| Diwygiwyd y polisi i gynnwys cyfeiriad at lannau'r ddinas a dileu cyfeiriad at fathau penodol o ddatblygiadau – fel hamdden a manwerthu, er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro â pholisi cenedlaethol ac SP10 o ran dull 'canol trefi'n gyntaf'. Effeithiau tebygol cadarnhaol yn erbyn mwyafrif amcanion yr AIG. Mae cyfeiriad at 'ddwysedd uchel' ac 'amrywiaeth o ddwysedd a math', wedi'i ddileu er eglurder, felly bellach mae'n cyfeirio at amrywiaeth o ddwysedd a math. Gwell effeithiau cadarnhaol tebygol ar amcanion AIG iechyd a lles ac ansawdd aer drwy gynnwys cyfeiriad at 'ddinasoedd iach' nad oedd yn y fersiwn flaenorol. Diwygiwyd y polisi i gynnwys cyfeiriad at gyfleusterau diwylliannol, ond nid yw'n sôn am ystyried effeithiau ar asedau/amgylchedd hanesyddol, treflun neu forlun, felly mae angen lliniaru trwy bolisïau eraill. Gan fod y polisi bellach yn cynnwys glannau'r ddinas, gall fod effeithiau niweidiol ar ddŵr mewn perthynas â dŵr wyneb ffo ac ati i'r môr/afonydd, yn ogystal â'r ffaith bod llawer o'r ardal o fewn parth llifogydd dynodedig, sydd hefyd yn cael effeithiau negyddol yn erbyn amcan yr AIG newid hinsawdd. |
| Lliniaru: Aralleiriwyd y polisi i ddileu cyfeiriad at fathau penodol o ddatblygiad sy'n destun prawf dilyniannol a dull Canol Trefi'n Gyntaf. Rhaid ei ddarllen mewn cysylltiad â Cymru'r Dyfodol, SP2, SP8, SP10, SP12 ac SP15. |
| **SP10: Canol Trefi'n Gyntaf** |
| Diwygiwyd y polisi ychydig er mwyn egluro terminoleg a lleoliadau ac mae bellach yn cyfeirio at graidd manwerthu a hamdden canol y ddinas yn hytrach nag ardal ganolog Abertawe fel yn SP9. Mae'r diwygiad yn egluro bod yn rhaid i ddefnyddiau manwerthu, hamdden a masnachol ddilyn egwyddor Canol Trefi'n Gyntaf. Fel arall, mae sgoriau'r un peth â'r fersiwn drafft. Mae rhan o ganol y ddinas o fewn parth llifogydd dynodedig, sy'n cael effeithiau negyddol mewn perthynas ag amcanion newid hinsawdd a dŵr yr AIG. Byddai egluro'r hyn a olygir wrth hamdden yn helpu sgorio yn erbyn yr amcan iechyd a lles. Dim cyfeiriad at bynciau eraill felly methu â sgorio yn erbyn amcanion yr AIG fel bioamrywiaeth, tai neu ynni adnewyddadwy. Disgwylir eglurhad mewn cyfiawnhad rhesymegol i esbonio defnyddio 'Cymdogaethau' yn hytrach na Chanolfannau Ardal a Lleol fel ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r CDLl presennol ac a oes unrhyw wahaniaethau i gynorthwyo dealltwriaeth y cyhoedd. |
| Lliniaru: Cymru'r Dyfodol, SP2, SP8, SP9, SP12 a SP15. |
| **SP11: Porthladd Dociau Abertawe ac Adfywio** |
| Mae'r polisi'n debyg i'r fersiwn drafft, ond mae'n cynnwys cyfeiriad at gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ogystal â diwydiannau di-garbon, felly mae posibilrwydd mwy o effaith fuddiol yn erbyn amcanion 10 ac 11 yr AIG – newid hinsawdd ac ynni adnewyddadwy. Nid yw'n sôn am asedau hanesyddol, felly ni ellir asesu effaith bosibl ar asedau hanesyddol, morlun a treflun. |
| Lliniaru: SP1; SP14; SP18; SP19; SP21 |
| **SP12: Twristiaeth a'r Economi Ymwelwyr** |
| Mae polisi'n debyg i'r fersiwn flaenorol, ond mae'n cynnwys cyfeiriad at fuddsoddiad, cydnabod bod cyfleusterau twristiaeth o fudd i drigolion y sir, ac ychwanegu diwylliant ac Abertawe fel cyrchfan ar gyfer hamdden a digwyddiadau, nid dim ond 'twristiaeth'. Sgôr debyg i'r polisi blaenorol, ond effaith debygol gadarnhaol ar amcanion yr AIG sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac allgau cymdeithasol, iechyd a lles, y Gymraeg a diwylliant Cymru sydd wedi gwella oherwydd cynnwys preswylwyr a chyfeiriadau at ddiwylliant. |
| Lliniaru: SP1; SP2; SP4; SP7; SP9; SP10; SP14; SP16; SP17; SP18 |
| **SP13: Iechyd a Lles** |
| Diwygiwyd y polisi i gynnwys cyfeiriad at wybodaeth ddaearyddol tra bod cyfeiriad at 'ystod o gyfleoedd tai' wedi'i hepgor, sy'n cael ei adlewyrchu yn y sgorio yn erbyn amcan tai yr AIG. Mae ehangu Ysbyty Treforys gan gynnwys ffordd gyswllt newydd bosibl yn debygol o arwain at fwy o gyflogaeth, ond bydd yn cael effaith negyddol bosibl ar briddoedd ac adnoddau naturiol. Bydd yr |

| |
|---|
| effaith debygol bosibl ar y Gymraeg yn dibynnu ar weithredu'r polisi, e.e. posibilrwydd darparu cyfleusterau cymunedol a thai. |
| Lliniaru: SP1; SP2; SP4; SP6; SP7; SP13; SP14; SP18; SP21 |
| **SP14**: **Trafnidiaeth Gynaliadwy a Theithio Llesol** |
| Mae'r polisi wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy ar gyfer Cynllunio, darparu lleoedd parcio a dewisiadau yn lle cludiant ffordd ar gyfer cludo nwyddau trwy warchod porthladdoedd, dociau, afonydd a rheilffyrdd. Dim cyfeiriad at ecoleg, y maes awyr, tirwedd, morluniau na'r amgylchedd hanesyddol. Effaith bosibl ar forluniau, felly mae'r sgôr yn ansicr ar y pwynt hwn.  Gallai mesurau i gwtogi/cyfyngu ar ddefnyddio ceir preifat, megis darparu llai o leoedd parcio ceir, gael effeithiau negyddol posibl ar gynhwysiant cymdeithasol a chydraddoldeb i bobl na allant ddefnyddio/cael mynediad at ddewisiadau trafnidiaeth amgen a gweithwyr iechyd sy'n ymgymryd ag ymweliadau cartref. |
| Lliniaru: SP4-SP6; SP8; SP13; SP1; SP17 |
| **SP15: Newid yn yr Hinsawdd a Datgarboneiddio** |
| Polisi wedi'i ddiwygio gyda mân ddiwygiadau testun/gramadeg.  Dilëwyd cyfeiriad at faich datgarboneiddio ychwanegol ar y Sir.  Mae'n cynnwys cyfeiriad at ddal a storio carbon, blaenoriaethu ailddefnyddio, ac ychwanegwyd cyfeiriad at fannau tyfu a gorchudd coed.  Mae polisi'n cael effeithiau tebygol cadarnhaol yn erbyn mwyafrif amcanion yr AIG, heb unrhyw effeithiau niweidiol tebygol. |
| Lliniaru: SP1; SP2; SP4; SP5; SP9; -SP11; SP13; SP16; SP17; SP20 |
| **SP16: Hwyluso Adfer Natur** |
| Diwygiwyd y polisi ag addasiadau testun/gramadeg, ond mae'r sgôr yr un fath â'r polisi blaenorol. Fodd bynnag, mae'r polisi diwygiedig yn dileu'r frawddeg: *'ni chaniateir datblygiad lle bydd yn cael effaith andwyol sylweddol ar wydnwch cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir; neu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar safleoedd dynodedig statudol (rhyngwladol a chenedlaethol)***.** Roedd hyn yn darparu datganiad clir ac yn cyd-fynd â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.  Dylid ystyried ailosod y datganiad.  Mae gan y polisi effeithiau tebygol cadarnhaol posibl yn erbyn mwyafrif amcanion yr AIG, heb unrhyw effeithiau negyddol posibl.  Mae'r effaith yn erbyn amcan economaidd yr AIG yn dibynnu ar weithrediad a chanlyniad y polisi, gan ei fod yn hyrwyddo atebion sy'n seiliedig ar natur, a allai fod yn gadarnhaol ar gyfer twf yr economi werdd.  Mae'r polisi yn cyfeirio at safleoedd dynodedig, a fyddai'n cynnwys yr AHNE, parciau a gerddi hanesyddol ac ati. |
| Lliniaru: SP2; SP4 - SP6; SP8; SP13; SP15; SP17; SP18; SP19. Dylid ailosod y testun wedi'i ddileu i gydredeg â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a darparu datganiad clir i ddatblygwyr parthed gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd. |
| **SP17: Seilwaith Gwyrdd** |
| Diwygiwyd y polisi ychydig i gynnwys cyfeiriad at wytnwch ecolegol, diogelu a gwella nodweddion presennol y safle, a hyrwyddo iechyd a lles.  Mae'r sgôr yr un fath â'r fersiwn blaenorol, gydag effeithiau tebygol posibl ar y rhan fwyaf o amcanion yr AIG a dim effeithiau negyddol posibl.  Nid yw llwybrau teithio llesol yn cael eu crybwyll yn benodol, ond mae potensial i wella'r polisi os cânt eu cynnwys. |
| Lliniaru: SP2; SP4-SP6; SP13; SP14; SP15; SP16; SP18 |
| **SP18: Diogelu Tirwedd y Sir** |
| Polisi newydd felly heb ei asesu o'r blaen.  Byddai cynnal a chadw cymeriad tirwedd a morlun yn cynnal a gwella amgylcheddau ffisegol sy'n cefnogi iechyd a lles.  Mae'r effaith yn erbyn amcanion yr AIG sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy a rheoli adnoddau naturiol yn dibynnu ar y math o ddatblygiad a lleoliad.  Bydd rhai datblygiadau ynni adnewyddadwy/carbon isel, er eu bod dros dro, yn cael effeithiau hirdymor ar y dirwedd (+20 mlynedd).  Mae diogelu adnoddau mwynau ar gyfer |

| |
|---|
| cenedlaethau'r dyfodol yn cael yr effaith gyd-ddigwyddiadol o ddiogelu'r dirwedd rhag datblygiad parhaol yn ystod oes CDLl2 a'r tu hwnt. |
| Lliniaru: SP2; SP3; SP4; SP5; SP8; SP15; SP16; SP19; SP21 |
| **SP19: Asedau Hanesyddol a Diwylliannol** |
| Polisi wedi'i ddiwygio sydd bellach yn cynnwys cyfeiriad penodol at ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a chreu lleoedd – gan wella effaith gadarnhaol debygol bosibl yn erbyn amcanion y Gymraeg a thai a chreu lleoedd yr AIG. |
| Lliniaru: SP2; SP4; SP7; SP15; SP18 |
| **SP20: Hwyluso Economi Gylchol a Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy** |
| Nid yw'r polisi wedi'i ddiwygio felly mae'r asesiad yn aros yr un fath ag o'r blaen. Mae'r polisi yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol yn erbyn llawer o amcanion yr AIG, gan gynnwys bioamrywiaeth, twf economaidd, iechyd a lles ac adnoddau pridd. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol tebygol posibl. |
| Lliniaru: SP4; SP13; SP15; SP21 |
| **SP21: Darparu Mwynau yn Gynaliadwy** |
| Mae gwelliant polisi wedi arwain at aralleirio'r frawddeg olaf ychydig ynglŷn â phorthladdoedd a dociau yn ogystal â chynnwys paragraff ychwanegol yn ymwneud â chydweithio rhanbarthol, ond nid yw'n newid sgôr y polisi sy'n aros yr un fath â'r hyn a welwyd o'r blaen. Mae'r polisi yn sôn am dreftadaeth naturiol ond gellid gwella'r asesiad yn erbyn amcan bioamrywiaeth yr AIG os cyfeirir at enillion net bioamrywiaeth yn benodol. Dim cysylltiad uniongyrchol â'r economi na thai yn y polisi, ond bydd diffyg darpariaeth agregau mwynau yn effeithio ar adeiladu tai, datblygiadau eraill a datblygiad economaidd. Bydd hyrwyddo agregau eilaidd yn cael effeithiau tebygol cadarnhaol ar leihau'r angen am waith agregau crai (gan ddiogelu adnoddau pridd felly) ond mae'r polisi yn dal i ganiatáu ar gyfer gweithio mwynau. Pwysleisir rôl ranbarthol cyflenwi agregau gan dynnu sylw at natur drawsffiniol cyflenwad mwynau a'r ffaith y bydd y polisi o bosibl yn cael effeithiau hirdymor y tu hwnt i'r Sir. |
| Lliniaru: SP1; SP2; SP4; SP11; SP13; SP15; SP18; SP20 |

## 8.0 ANAWSTERAU A WYNEBIR A LLINIARU

8.0.1 Y prif anhawster a wynebir yn ystod y cam hwn o'r broses AIG yw bod ansicrwydd ynghylch union leoliad datblygiad a lefelau twf mewn ardaloedd penodol oherwydd natur strategol y Strategaeth a Ffafrir nad yw'n nodi safleoedd. Mae diffyg gwybodaeth hefyd ynghylch y lefelau twf a geisir gan awdurdodau cyfagos oherwydd amserlenni gwahanol gynlluniau, a lleoliad dyraniadau safleoedd a pha effeithiau cronnus y gallai'r rhain eu cael ar y Sir. Felly mae llawer o'r effeithiau a ragwelir yn anhysbys ac mae angen rhagor o wybodaeth, gan ddibynnu ar ddyraniadau safle a pholisïau manwl yn y Cynllun Adnau neu hyd yn oed yn ystod y cam cais cynllunio.

8.0.2 Byddai canllawiau cynllunio cenedlaethol a deddfwriaeth berthnasol yn helpu i liniaru rhai effeithiau (megis ar gynefinoedd a rhywogaethau a warchodir) ond bydd ymgorffori mesurau lliniaru drwy gydol y Cynllun Adnau yn sicrhau y rhoddir sylw i faterion megis bioamrywiaeth a cholli cynefinoedd, Creu Lleoedd, traffig a seilwaith priffyrdd, iechyd a lles, Seilwaith Gwyrdd a Llwybrau Teithio Llesol.

8.0.3 Bydd yr holl bolisïau'n cael eu hadolygu fel rhan o waith paratoi CDLl2 Adnau a byddant yn destun AIG eto.

## 9.0 COFRESTR SAFLEOEDD YMGEISIOL

9.0.1 Mae ystyried a gwerthuso 'dewisiadau rhesymol amgen' fel rhan o broses CDLl2, yn cynnwys nodi safleoedd datblygu. Gwahoddwyd tirfeddianwyr, datblygwyr a phartïon eraill a chanddynt fuddiant i enwebu 'Safleoedd Ymgeisiol' i'w cynnwys efallai o fewn CDLl2 rhwng mis Awst a mis Hydref 2023. Cyflwynwyd 132 o safleoedd yn gyffredinol (Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol, Rhagfyr 2024)[87].

9.0.2 Mae'r Cyngor wedi cwblhau asesiad safleoedd ymgeisydd Cam 1 ac wedi gwrthod 18 safle nad ystyriwyd eu bod yn 'rhesymol' e.e. y rhai sydd o dan drothwy maint safle, y rhai sydd â chyfyngiadau sylfaenol megis safleoedd preswyl ar orlifdir C2, neu'r rhai sy'n codi materion sylweddol o ran y gallu i'w cyflawni (Tabl 17). Ni fu unrhyw safleoedd ymgeisiol yn destun asesiad AIG ar hyn o bryd.

**Tabl 17: Safleoedd Ymgeisiol Cam 1 yn methu**

| Rhif adnabod y safle | Enw'r Safle | Defnydd arfaethedig | Crynodeb o Ganlyniad Asesiad Cam 1 |
|---|---|---|---|
| **95** | Tir y tu ôl i 51B Bishopston Road, Llandeilo Ferwallt, Abertawe | Preswyl | Methu. Cyfyngiadau cyflawni sylfaenol. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos na ellir sicrhau mynediad addas o ystyried perchnogaeth tir a chynllun presennol y briffordd. |
| **105** | Tir oddi ar Pwll Du Lane, Llandeilo Ferwallt, Abertawe | Preswyl | Methu. Yn sylfaenol, nid yw'n bodloni'r trothwy maint safle gofynnol ar gyfer safleoedd preswyl a nodir yn y Canllawiau. Mae'r cynnig ar gyfer annedd ar wahân. Bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o ffiniau aneddiadau sydd ar ddod. |
| **178** | Tir yn Upper Bank (Rhan 2), Nantong Way, Glandŵr, Abertawe | Preswyl | Methu. Cyfyngiad sylfaenol mewn perthynas â bodolaeth Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn ardal y safle ychwanegol sy'n gwahaniaethu'r safle hwn oddi wrth CS177. Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig wedi'u gwarchod rhag datblygiad gan bolisi cynllunio cenedlaethol. |
| **150** | Tir i'r gorllewin o Tirmynydd Road, Y Crwys, Abertawe | Preswyl | Methu. Yn sylfaenol, nid yw graddfa'r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â'r polisi cynllunio cenedlaethol o ran lleoliad y safle yn nhirwedd naturiol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE) Gŵyr. Hefyd, ni chyflwynwyd digon o dystiolaeth i ddangos y gellir cyflawni'r datblygiad. |
| **208** | Fferm Cefn Draw, Y Crwys, Abertawe | Cymysg | Methu. Yn sylfaenol, nid yw'n bodloni gofynion polisi cynllunio cenedlaethol o ran datblygu yng nghefn gwlad. |

[87] www.abertawe.gov.uk/safleoeddymgeisiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Hefyd, ni chyflwynwyd digon o dystiolaeth i ddangos y gellir cyflawni'r datblygiad. |
| **181** | Tir y tu ôl i 24 Cae Mansel Road, Tregŵyr, Abertawe | Cymysg | Methu. Nid yw'r elfen breswyl yn bodloni'r trothwy maint safle gofynnol ar gyfer defnydd preswyl fel a nodir yn y Canllawiau. Bydd y cynnig ynni adnewyddadwy'n cael ei ystyried fel rhan o asesiad ynni adnewyddadwy'r cynllun. |
| **148** | Fferm Ffynnon Fedw, Felindre, Abertawe | Cymysg | Methu. Yn sylfaenol, nid yw'n bodloni gofynion polisi cynllunio cenedlaethol o ran datblygu yng nghefn gwlad |
| **93** | Tir gerllaw byngalo Sunnyside, Heol Las, Gellifedw, Abertawe | Preswyl | Methu. Gwrthdaro sylfaenol â'r polisi cynllunio cenedlaethol o ran cyfyngiadau sylweddol a fyddai'n effeithio ar ddarparu'r safle. |
| **149** | Tir gerllaw Waun Road, Casllwchwr, Abertawe | Preswyl | Methu. Yn sylfaenol, nid yw'n bodloni gofynion polisi cynllunio cenedlaethol o ran datblygu yng nghefn gwlad. |
| **162** | Tir gerllaw Hospital Road, Gorseinon, Abertawe | Cymysg | Methu. Gwrthdaro sylfaenol â pholisi cynllunio cenedlaethol o ran cyfyngiadau sylweddol a fyddai'n effeithio ar ddarparu'r safle ac nid oes tystiolaeth wedi'i chyflwyno i ddangos mesurau lliniaru. |
| **168** | Tir i'r de o Swansea Road, Garden Village, Abertawe | Preswyl | Methu. Gwrthdaro sylfaenol â pholisi cynllunio cenedlaethol o ran cyfyngiadau sylweddol a fyddai'n effeithio ar ddarparu'r safle ac nid oes tystiolaeth wedi'i chyflwyno i ddangos mesurau lliniaru. |
| **103** | Tir i'r de o Higher Lane, Langland, Abertawe | Preswyl | Methu. Mae'r cynnig ar gyfer adolygiad o ffin anheddiad. Bydd yn cael ei ystyried fel rhan o adolygiad ffin anheddiad sydd ar ddod. |
| **163** | Comin Mynydd Cadle, Pen-lan, Abertawe | Preswyl | Methu. Gwrthdaro sylfaenol â pholisi cynllunio cenedlaethol o ran cyfyngiadau sylweddol a fyddai'n effeithio ar ddarparu'r safle ac nid oes tystiolaeth wedi'i chyflwyno i ddangos mesurau lliniaru. |
| **165** | Tir i'r gogledd o'r A484, Gorseinon, Abertawe | Preswyl | Methu. Gwrthdaro sylfaenol â pholisi cynllunio cenedlaethol o ran cyfyngiadau sylweddol a fyddai'n effeithio ar ddarparu'r safle ac nid oes tystiolaeth wedi'i chyflwyno i ddangos mesurau lliniaru. |
| **154** | Tir i'r gogledd o Pennard Road, Kittle, Abertawe | Preswyl | Methu. Yn sylfaenol, nid yw'n bodloni gofynion polisi cynllunio cenedlaethol o ran datblygu yng nghefn gwlad. |
| **205** | The Garden House, Mulberry Hill, Pen-maen, Abertawe | Preswyl | Methu. Yn sylfaenol, nid yw'n bodloni gofynion polisi cynllunio cenedlaethol o ran datblygu yng nghefn gwlad |
| **142** | Llain D5b, Langdon Road, Glannau SA1, Abertawe | Preswyl | Methu. Mae'r safle hwn yn ymrwymiad bellach. Cymeradwywyd cais cynllunio 2022/1109/RES ar 11 Gorffennaf 2024 |
| **209** | Lleiniau E7 ac E8, tir oddi ar Langdon | Preswyl | Methu. Mae'r safle hwn yn ymrwymiad bellach. Cymeradwywyd cais cynllunio 2022/1134/RES ar 14 Chwefror 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Road, Glannau SA1, Abertawe | | |

## 10.0 ASESIADAU PERTHNASOL ERAILL

### 10.1 ASESIAD O EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

10.1.1 Mae asesiadau effaith integredig (AEI) yn ofyniad cyfreithiol o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol), Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015, a Mesur y Gymraeg (Cymru). Cynhaliwyd adroddiad sgrinio AEI gan ddefnyddio templed AEI y Cyngor, sydd hefyd yn ystyried materion a blaenoriaethau allweddol eraill, megis tlodi ac allgáu cymdeithasol, cydlyniant cymunedol, gofalwyr a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'r Gymraeg. Mae'r adroddiad sgrinio AEI yn cyd-fynd â'r Adroddiad i'r Cyngor, ond mae'n cael ei grynhoi isod.

10.1.2 Mae Tabl 18 yn nodi yr ystyrir bod y Strategaeth a Ffafrir yn cael effeithiau cadarnhaol ar y bobl/cymunedau canlynol:

-Pob grŵp oedran
-Cenedlaethau'r dyfodol
-Tlodi ac allgáu cymdeithasol
-Cydlyniant cymunedol.
-Sipsiwn a theithwyr

**Tabl 18:** Asesiad o Effaith Integredig

**Yr effaith bosibl ar y canlynol: gallai'r effeithiau isod fod yn gadarnhaol (+) neu'n negyddol (-)**

| | Effaith Uchel | | Effaith Ganolig | | Effaith Isel | | Angen ymchwiliad pellach | Dim Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plant/pobl ifanc (0-18) | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Pobl hŷn (50+) | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Unrhyw grŵp oedran arall | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cenedlaethau'r Dyfodol (i'w geni) | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Anabledd | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Hil (gan gynnwys ffoaduriaid) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Ceiswyr lloches | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Sipsiwn a theithwyr | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Crefydd neu (ddiffyg) cred | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Rhyw | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Ailbennu rhywedd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Y Gymraeg | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Tlodi/allgáu cymdeithasol | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gofalwyr (gan gynnwys rhai ifanc) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cydlyniant cymunedol | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Priodas a phartneriaeth sifil | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Hawliau Dynol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ |

10.1.3 Bydd 'Strategaeth Creu Lleoedd ar gyfer Abertawe 2038' y Strategaeth a Ffafrir yn effeithio ar yr holl bobl sy'n byw yn y Sir ac yn ymweld â'r Sir. Mae'n nodi maint y twf ar gyfer tai a chyflogaeth a ddarperir dros gyfnod y cynllun 2023-2038 i ddiwallu anghenion a nodwyd ac yn nodi'n ofodol sut y darperir ar gyfer y twf hwn gan adlewyrchu hierarchaeth aneddiadau'r cynllun a'u rôl a'u swyddogaeth. Hefyd mae'n cynnwys polisïau strategol a fydd yn darparu fframwaith polisi penodol a ddefnyddir wrth ystyried ceisiadau cynllunio (pan fyddant yn cael eu mabwysiadu fel CDLl2).

10.1.4 Mae'r Strategaeth a Ffafrir yn ceisio sicrhau bod penderfynyddion ehangach iechyd a lles yn cael eu hystyried a bod iechyd a lles yn rhan annatod o'r cynllun cyfan, a hefyd ystyried gwydnwch hinsawdd a natur oherwydd newid yn yr hinsawdd. Mae polisïau strategol yn mynd i'r afael yn benodol â llygredd, perygl llifogydd, gwella Seilwaith Gwyrdd a ffyrdd egnïol o fyw, gan gynnwys tyfu bwyd cymunedol. Mae tlodi ac allgáu cymdeithasol yn cael sylw penodol drwy opsiwn twf cyflogaeth uchel, cartrefi ychwanegol, yn enwedig tai fforddiadwy, amddiffyn a gwella cyfleusterau cymunedol a chymdeithasol, adfywio ardaloedd a chyfleusterau addysg.

10.1.5 Mae gan y Strategaeth a Ffafrir (a CDLl2 Adnau dilynol) bolisïau penodol sy'n mynd i'r afael ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, wedi'u llywio gan asesiadau.

10.1.6 Mae amserlen CDLl2 (2023-2038) yn golygu y bydd polisïau a gynhwysir ynddo'n effeithio ar genedlaethau'r dyfodol, fel y bydd etifeddiaeth y Strategaeth a Ffafrir, er enghraifft o ran darparu tai a chyflogaeth.

10.1.7 Ystyrir bod y Strategaeth a Ffafrir yn cael effeithiau canolig ar y Gymraeg. Bu'r Strategaeth yn destun Asesiad Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r AIG. Mae'r Strategaeth yn cynnwys Polisi Strategol penodol ar y Gymraeg. Fodd bynnag, ni all y Strategaeth ei hun gael effaith uniongyrchol ar yr iaith a dyna pam yr ystyrir ei bod yn cael effeithiau canolig, gan ei bod yn hwyluso datblygiad a allai effeithio ar yr iaith (megis addysg cyfrwng Cymraeg neu dai ychwanegol mewn cymuned lle siaredir Cymraeg yn bennaf). Yn yr un modd, bydd yr effaith ar anableddau yn anuniongyrchol, gydag egwyddorion Creu Lleoedd yn sail i ddyluniad a chynllun datblygiadau i alluogi ardaloedd eglur, rhwyddineb symud a mynediad.

10.1.8 Mae'r system gynllunio yn gydnaws â Deddf Hawliau Dynol 1998. Efallai y bydd effeithiau posibl llygredd difrifol, er enghraifft, oherwydd datblygiad, yn torri Erthyglau 8 ac 1 o Brotocol 1. Fodd bynnag, byddai osgoi a lliniaru yn ystod y broses gynllunio yn atal digwyddiadau o'r fath felly ystyrir bod yr effaith yn isel.

**Ystyriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

10.1.9 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gorchymyn bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae'n rhaid i CDLl2 sicrhau ei fod yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

10.1.10 Mae Strategaeth Creu Lleoedd y Strategaeth a Ffafrir ar gyfer Abertawe yn amlinellu sut y bydd CDLl2 yn sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol ar draws y Sir yn cael ei gyflwyno mewn modd sy'n gyson ag egwyddorion Siarter Creu Lleoedd Cymru a dyletswyddau Deddf Llesiant

a Chenedlaethau'r Dyfodol, gan gyd-fynd â'r gofynion datblygu cynaliadwy a ddiffinnir mewn polisi cynllunio cenedlaethol.

10.1.11 Aseswyd elfennau'r Strategaeth a Ffafrir mewn perthynas â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar ben hynny, mae'r AIG yn sicrhau bod nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u hymgorffori drwy gydol y Strategaeth a Ffafrir. Mae'r Strategaeth a Ffafrir yn cyd-fynd yn llwyr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Effaith gronnol**

10.1.12 Bydd effaith gronnol â chynlluniau a strategaethau eraill y Cyngor yn gadarnhaol, gan fod y Strategaeth a Ffafrir (a CDLl2 Adnau) yn sicrhau bod eu hintegreiddio a'u cydnawsedd â CDLl2 yn fodd o gyflawni canlyniadau llawer o flaenoriaethau'r Cyngor.

10.1.13 Mae'r Strategaeth a Ffafrir yn destun AIG sy'n asesu ei heffaith gronnol gyda chynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill.

## 10.2 ASESIAD O EFFAITH AR Y GYMRAEG

10.2.1 Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar y Strategaeth a Ffafrir ac fe'i cyflwynir yn yr Atodiadau i Adroddiad llawn yr AIG. Ceir crynodeb isod.

10.2.2 Mae Gweledigaeth CDLl2 yn cyfeirio'n benodol at Abertawe 2038. O ran ystyried y Gymraeg, nid yw llawer o amcanion CDLl2 yn uniongyrchol berthnasol i'r Gymraeg ac, yn yr un modd, nid oedd llawer o amcanion yr AIG yn uniongyrchol berthnasol i amcan penodol CDLl2 sef gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir. Mae gan CDLl2 dri amcan sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Gymraeg sydd, yn annisgwyl, yn arwain at effeithiau cadarnhaol tebygol posibl yn erbyn amcanion yr AIG sy'n ymwneud â diwylliant a'r Gymraeg:

- *Amcan 15: Cadw a gwella'r amgylchedd diwylliannol a hanesyddol;*
- *Amcan 16: Hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg; a*
- *Amcan 17: Hyrwyddo lles a chydraddoldeb.*

10.2.3 Mae amcanion 1, 2, 4 ac 11 CDLl2 yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol tebygol posibl ar y Gymraeg, gan y bydd datblygiad yn cynnig cyfleoedd ar gyfer tai fforddiadwy i alluogi pobl i aros o fewn cymunedau, a darparu ysgolion cymdeithasol, cyfleusterau cymunedol a seilwaith newydd. Fodd bynnag, gall gormod o ddatblygiad arwain at orlethu cymunedau presennol ag effaith negyddol bosibl ar y Gymraeg. Bydd yn rhaid asesu polisi SP8 a dyraniadau safle dilynol yn ofalus wrth i'r cynllun fynd rhagddo yn hyn o beth.

10.2.4 Am y rheswm hwn hefyd y bydd y Strategaeth a Ffafrir a ddewiswyd '***Strategaeth Creu Lleoedd ar gyfer Abertawe 2038'*** yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar yr iaith. Dengys tystiolaeth y cafwyd twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir yn y grŵp oedran 16-44, rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021'. Mae'r Strategaeth a Ffafrir, fel yr eglurir yn adrannau 5 a 6, yn ceisio cadw carfannau oedran iau trwy gynnig mwy o gyfleoedd gwaith o fewn y Sir, a fyddai'n debygol o gael effeithiau cadarnhaol posibl ar ddefnydd a rôl y Gymraeg fel rhan o gyfansoddiad cymdeithasol cymunedau.

10.2.5 Mae Polisïau Strategol CDLl2 yn cynnwys polisi penodol mewn perthynas â'r Gymraeg – SP 7: Diogelu a Hyrwyddo'r Gymraeg. Mae hyn yn gofyn bod cynigion datblygu yn diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg ar draws y Sir, a pheidio â chaniatáu cynigion datblygu sy'n cael effaith niweidiol ar fywiogrwydd yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Polisi SP19: Diwygiwyd Asedau Hanesyddol a Diwylliannol i gynnwys cyfeiriad penodol at ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg. Fel yr amlinellwyd uchod, ar hyn o bryd, heb wybod lleoliad safleoedd datblygu, mae'n anodd rhagweld effeithiau'r polisïau ar y Gymraeg, gydag effeithiau cadarnhaol a negyddol yn debygol. Bydd creu swyddi a chartrefi fforddiadwy yn helpu i gadw grwpiau oedran iau a fu'n destun twf yn siaradwyr y Gymraeg. Mae darparu tai fforddiadwy yn gadarnhaol, ac mae'n ddigon posibl y gall helpu i liniaru effeithiau negyddol, fel yr eglurir yn TAN20: Cynllunio a'r Gymraeg, ond bydd angen ystyried pryderon y gallai datblygiad mawr gael effeithiau negyddol ar yr iaith os nad oes camau lliniaru e.e. cyflwyno graddol, amodau cynllunio.

10.2.6 Nododd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg y bydd amcanion 15, 16 ac 17 CDLl2 ynghyd â Pholisi Strategol 7: Diogelu a Hyrwyddo'r Gymraeg a Pholisi Strategol SP19: Asedau Hanesyddol a Diwylliannol yn helpu i gefnogi a gwella'r Gymraeg. Ni ragwelir y bydd y Strategaeth a Ffafrir yn debygol o gael effaith andwyol ar yr iaith yn y cyfnod hwn o ddatblygu'r Cynllun. Fodd bynnag, wrth i'r Cynllun fynd rhagddo ac wrth lunio polisïau manylach, bydd angen asesu a lliniaru effaith penderfyniadau cynllunio ar rai nodweddion lle bo hynny'n briodol. Mae'n bosibl y gellid cryfhau'r cyfeiriad at y Gymraeg ac ymwybyddiaeth ohoni drwy gydol y ddogfen, gan fod y Weledigaeth yn cyfeirio at Abertawe 2038, ond nid yw hyn yn cael ei barhau drwy'r polisïau.

10.2.7 Bydd dogfennau ymgynghori ar y Strategaeth a Ffafrir ar gael yn Gymraeg.

## 10.3 ASESIAD O'R EFFAITH AR IECHYD A'R AIG

10.3.1 Mae'r Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol (At. 2.6) yn ei gwneud yn ofynnol i iechyd pobl gael ei ystyried fel rhan o'r asesiad o effeithiau amgylcheddol a'i gynnwys mewn Adroddiadau Amgylcheddol. Y diffiniad mwyaf adnabyddus o'r model iechyd cymdeithasol yw un a gynhyrchwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ym 1948 a oedd yn nodi:

> *'Mae iechyd yn gyflwr o les corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn ac nid absenoldeb salwch neu wendid yn unig.' (WHO, 1948)*

10.3.2 Gellir ehangu elfen iechyd Asesiad Amgylcheddol Strategol i gynnwys amcanion iechyd corfforol a meddyliol Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) ac mae LlC yn hyrwyddo defnyddio proses HIA o fewn AIG a/neu fel proses annibynnol. Felly, dylid ystyried iechyd dynol yng nghyd-destun y gydberthynas rhwng yr holl ffactorau Asesu Amgylcheddol Strategol a nodir yn Atodlen 2.6 ac felly, rhaid i faterion anuniongyrchol sy'n codi o weithredu polisïau hefyd ystyried materion iechyd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd megis amlygiad i sŵn traffig, llygryddion aer, a halogi dŵr.

10.3.3 Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017[88] yn amlinellu'r amgylchiadau lle mae'n rhaid i Gorff Cyhoeddus gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA). Mae'r Ddeddf yn diffinio'r asesiad hwn fel a ganlyn:

> *"asesiad o'r effaith debygol, yn y tymor byr ac yn y tymor hir, o weithred neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol a meddyliol pobl Cymru neu rai o bobl Cymru".*

10.3.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) yn tynnu sylw at rôl asesiadau o effaith ar iechyd wrth gyfrannu tuag at lunio cynlluniau datblygu, gan nodi y '*Gall tystiolaeth ar effeithiau iechyd helpu'r system gynllunio i ddatblygu dulliau cryfach a mwy cydlynol o wneud y mwyaf o iechyd a lles.*" Mae HIA yn offeryn allweddol i hybu ymwybyddiaeth am yr effaith y mae sectorau 'heblaw iechyd' fel y'u disgrifir yn draddodiadol (megis cynllunio a thai) yn ei chael ar iechyd a lles a sut y gallant gefnogi gwella iechyd, atal ac amddiffyn. Mae'n ffordd systematig, wrthrychol, hyblyg ac ymarferol o asesu effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl cynnig ar iechyd a lles ac mae'n awgrymu ffyrdd y gellir gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ennill iechyd a lleihau risgiau i iechyd. Gall HIA hefyd fod yn ffordd o nodi a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd trwy nodi unrhyw grwpiau o fewn y boblogaeth y gallai polisi neu gynllun effeithio'n arbennig arnynt. Er enghraifft, gallai'r amgylchedd adeiledig, trwy fynediad at weithgarwch corfforol/teithio llesol/natur/siopau sy'n gwerthu bwydydd iach, fod â rôl amddiffynnol wrth leihau mynychder cyflyrau hirdymor yn y boblogaeth a manylion mewn perthynas â'r baich clefydau ar draws y boblogaeth a thueddiadau'r dyfodol (megis diabetes, gordewdra neu ddementia).

10.3.5 Trwy ymgymryd â HIA, bydd CDLl2 yn ymgorffori iechyd trwy gydol y cynllun, gan arwain at Iechyd ym mhob Polisi (HiAP). Diffinnir HiAP fel a ganlyn:

> *"Dull o ymdrin â pholisïau cyhoeddus sy'n ystyried goblygiadau iechyd penderfyniadau yn systematig, yn ceisio synergeddau ac yn osgoi effeithiau niweidiol ar iechyd, er mwyn gwella tegwch iechyd ac iechyd y boblogaeth."*
>
> (Yr 8fed Cynhadledd Fyd-eang ar Hyrwyddo Iechyd, Helsinki, 2013) (Sefydliad Iechyd y Byd, 2013)[89]

10.3.6 Mae'r Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU) yn darparu cymorth ar gyfer asesiadau effaith ar iechyd ledled Cymru. Gan ddilyn y fethodoleg yn 'Asesu'r Effaith ar Iechyd a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl): Pecyn Cymorth ar gyfer Ymarfer' (WHIASU, 2021)[90], ymgynghorwyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhanddeiliaid wrth baratoi'r Strategaeth a Ffafrir a bydd **'Asesiad Effaith ar Iechyd Cyfranogol Cyflym'** o'r Strategaeth a Ffafrir fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus a rhanddeiliaid ehangach yn cael ei gynnal. Bydd unrhyw sylwadau ac argymhellion yn cael eu hystyried a'u hymgorffori yn y CDLl2 Adnau. Bydd Asesiad Effaith ar Iechyd arall o CDLl2 Adnau yn cael ei gynnal er mwyn ymgorffori cysyniad 'Iechyd ym Mhob Polisi' (HiAP).

---

88 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (legislation.gov.uk)

89 https://www.who.int/healthpromotion/conferences/8gchp/8gchp_helsinki_statement.pdf

90 https://whocc.pobl.tech/wp-content/uploads/2021/10/HIA-and-LDPs-Toolkit-Cym-Final.pdf

## 11.0 CAMAU NESAF

**Ymgynghoriad**

11.0.1 Gwahoddir sylwadau ar y Strategaeth a Ffafrir a'r dogfennau cysylltiedig, gan gynnwys Crynodeb Annhechnegol yr Adroddiad AIG hwn.

**Cynllun Adnau**

11.0.2 Bydd unrhyw sylwadau a geir yn cael eu hadolygu ac yna'n cael eu hystyried fel rhan o'r broses creu cynlluniau ac AIG ailadroddol a byddant yn llywio datblygiad y CDLl2 Adnau a fydd yn cynnwys Polisïau Strategol wedi'u diweddaru, polisïau manwl a safleoedd datblygu dynodedig. Ynghyd â'r CDLl2 Adnau daw Adroddiad AIG wedi'i ddiweddaru sy'n cymeradwyo'r holl bolisïau gan gynnwys eu heffeithiau cronnus, yn awgrymu mesurau lliniaru ac yn cynnig fframwaith ar gyfer monitro effeithiau'r cynllun. Archwilir y CDLl2 Adnau, Adroddiad AIG a dogfennaeth arall (e.e. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) gan Arolygydd Cynllunio fel rhan o Archwiliad Cyhoeddus ac efallai y bydd angen newidiadau pellach ar ôl archwilio ar y Cynllun ac Adroddiad AIG.

**Mabwysiadu a Monitro**

11.0.3 Er mwyn cydymffurfio â Rheoliad Asesu Amgylcheddol Strategol 16, pan fydd CDLl2 wedi'i fabwysiadu, bydd y Cyngor yn cyhoeddi 'datganiad AAS' sy'n esbonio sut y dylanwadodd yr arfarniad cynaliadwyedd ailadroddol ar ddatblygiad y Cynllun.

11.0.4 Mae Rheoliad 17 AAS yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fonitro gweithrediad CDLl2 i sicrhau, os bydd unrhyw effeithiau andwyol annisgwyl yn digwydd, y gellir cymryd camau priodol. Bydd mesurau monitro yn cael eu sefydlu o fewn Adroddiad AIG y Cynllun Adnau.